**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

# SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00 a.m. DYDD IAU, 3 HYDREF 2013**

**10.00 a.m. THURSDAY, 3 OCTOBER 2013**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR**

**CAERNARFON**

*** NODWCH Y LLEOLIAD, O.G.Y.DD. / PLEASE NOTE THE VENUE ***

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

**: GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

Dosbarthwyd: 26.09.13

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU**
**SERVICES SCRUTINY COMMITTEE**

**AELODAETH / MEMBERSHIP (18)**

## Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr / Councillors

Huw Edwards
Chris Hughes
Linda Ann Wyn Jones
Dyfrig Siencyn
Alan Jones Evans
Elin W. Jones
Liz Saville Roberts
Ann Williams
Hefin Williams

## Annibynnol / Independent (4)

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones-Williams
Dewi Owen
Beth Lawton
Eirwyn Williams

## Llais Gwynedd (4)

Alwyn Gruffydd
Peter Read
Llywarch Bowen Jones
Sedd Wag

## Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

## Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Huw Edwards a / and Dewi Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG / CO-OPTED MEMBERS:**

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig /

With a vote on education matters only

Y Parchedig / Reverend Robert Townsend
Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales

Mrs Rita Price
Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church

Mr Dylan Davies
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd /
Representative for Meirionnydd Parent Governors

(Disgwyl am enwebiad / Awaiting Nomination)
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Arfon /
Representative for Arfon Parent Governors

Ms Rhian Roberts
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor /
Representative for Dwyfor Parent Governors

**R H A G L E N**

1. **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**

   I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. **<u>DATGAN BUDDIANT PERSONOL</u>**

   Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. **<u>MATERION BRYS</u>**

   Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. **<u>COFNODION</u>**

   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2013.

   <u>(Copi'n amgaeedig – papur **gwyn)**</u>

5. **<u>YMCHWILIAD CRAFFU ANSAWDD ADDYSG</u>**
   ***Aelod Cabinet: Y Cyng. Sian Gwenllian*** — 10.05 am – 11.00 am

   I ystyried adroddiad yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg.

   <u>(Copi'n amgaeedig – papur **gwyrdd)**</u>

6. **<u>CYNLLUN GWEITHREDU ÔL-AROLWG</u>** — 11.00 am – 11.30 am
   ***Aelod Cabinet: Y Cyng. Sian Gwenllian***

   I ystyried Cynllun Gweithredu ôl-Arolwg y Gwasanaeth Addysg fel gyflwynwyd i'r Cabinet ar 17 Medi 2013.

   <u>(Copi'n amgaeedig – papur **gwyn)**</u>

7. **<u>CYFLWYNIAD – ADOLYGIAD "DECHRAU I DDIWEDD" PLANT</u>** — 11.30 am – 12.00 pm
   ***Aelod Cabinet: Y Cyng. Sian Gwenllian***

   I dderbyn cyflwyniad ar yr adolygiad uchod.

**8.** **ADOLYGIAD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL** 12.00 pm – 12.45 pm

***Aelod Cabinet: Y Cyng. Sian Gwenllian***

(a) I dderbyn cyflwyniad ynglyn â hybu newid fel gwybodaeth gefndirol ar gyfer yr eitem uchod.

(b) I ystyried adroddiad gan yr Aelod Cabinet Addysg.

(Copi'n amgaeedig – papur **hufen)**

**9.** **YMCHWILIAD CRAFFU GOFAL** 12.45 pm – 1.15 pm

***Aelod Cabinet: Y Cyng. R H Wyn Williams***

I dderbyn diweddariad llafar ar waith yr Ymchwiliad uchod.

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU 20.06.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Huw Edwards, Alan Jones Evans, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dewi Owen, Peter Read, Liz Saville Roberts, Dyfrig L. Siencyn, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams a Hefin Williams.

**Sylwedydd:** Y Cynghorydd Annwen Davies

**Hefyd yn Bresennol:** Morwena Edwards, Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Dafydd Owen (Rheolwr Comisiynu), Ann Lloyd Jones (Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion), Marian Parry Hughes (Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant), Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Chris Hughes, Llywarch Bowen Jones, Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru) a Siôn Amlyn (Undeb Athrawon).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD: Ail-ethol y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am 2013/14.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD: Ail-ethol y Cynghorydd Peter Read yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2013/14.**

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(a) Estynnodd y Cadeirydd groeso i:

(i) Miss Glesni Williams sy'n dilyn cwrs Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor a oedd ar brofiad gwaith yn Adran Strategol a Gwella'r Cyngor.

(ii) Mr Mark Roberts o Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) - ar gyfer Eitem 10 ar y Rhaglen.

(b) Cyfeiriodd Aelod at anhwylder y Cynghorydd Alwyn Gruffydd a dymunwyd adferiad llwyr a buan iddo.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. COFNODION

5.1 Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2013 fel rhai cywir:

5.2 Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â diweddaru'r contractau i gynnwys cymal ynglŷn â dewis iaith unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth gofal cartref, sicrhawyd y byddai'r cytundebau newydd y gweithwyr yn cynnwys y cymal ieithyddol.

## 6. YMCHWILIAD CRAFFU – GOFAL CARTREF

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal ynglŷn â'r posibilrwydd o sefydlu Ymchwiliad Craffu ym meysydd Gofal Cartref a Gofal Dydd.

Tynnodd yr Aelod Cabinet Gofal sylw at Gynllun Comisiynu Pobl Hŷn 2011-2016 sydd yn cynnwys:

- Dadansoddiad o anghenion pobl hŷn Gwynedd, o ran natur gwasanaethau a niferoedd
- Gweledigaeth sy'n amlinellu sut rydym eisiau gweld yr anghenion hyn yn cael eu diwallu
- Darlun o'r gwasanaethau oedd yn cael eu darparu yn fewnol neu eu prynu gan y Cyngor ar gychwyn oes y cynllun, ac a fwriedir eu darparu / prynu dros gyfnod o 5 mlynedd
- Crynodeb o'r gyllideb ar gyfer prynu gwasanaethau, a dadansoddiad o'r rhaniad cyllideb rhwng gwahanol fathau o wasanaethau dros gyfnod o 5 mlynedd

Esboniodd y Rheolwr Comisiynu mai prif egwyddorion y cynllun comisiynu, a oedd wedi ei fabwysiadu gan Fwrdd y Cyngor yn Ionawr 2012, ydoedd hybu annibyniaeth gan sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol er mwyn galluogi pobl i barhau i fyw gartref cyn hired â phosibl, lleihau unigrwydd ac arwahaniad cymdeithasol, canolbwyntio ar urddas mewn gofal ac ansawdd gwasanaethau, gweithio mewn partneriaeth a chydnabod rôl gofalwyr a sicrhau cefnogaeth iddynt allu parhau i ofalu. Dros y flwyddyn ddiwethaf cydweithiwyd gyda Mantell Gwynedd, Age Concern Cymru, mentrau cymdeithasol er mwyn cyfarch lleihau unigrwydd ymysg pobl hŷn. Os na wneir hyn mae pobl yn cysylltu â'r gwasanaeth ynghynt ac o safbwynt demograffi rhagdybir y bydd cynnydd aruthrol yn y boblogaeth hon yn y degawd nesaf.

Yn 2010/11 roedd y gyllideb dros £20m gyda 6,700 o bobl hŷn wedi derbyn gwasanaeth ar gost cyfartaledd o dros £3,000. O safbwynt lefel y gwasanaeth, nodwyd pa fath o wasanaethau fyddai'n cynyddu a rhagdybir dros y blynyddoedd nesaf y bydd y gyllideb yn cynyddu i £21.5m gyda 8,347 unigolyn yn derbyn gwasanaeth ond gyda'r gost cyfartaledd yn gostwng i £2,500.

Cyfeiriwyd at gynllun gweithredu'r cynllun gyda rhai ohonynt wedi ei gwireddu megis cynllun teleofal a'r gweddill angen sylw megis ail-fodelu darpariaeth gofal dydd i alluogi unigolion i fyw'n annibynnol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

(a) Awgrymwyd i Aelodau fynychu cyfarfodydd o Bwyllgor Pobl Hŷn Gwynedd a'r hyn a ddeillir o'r cyfarfodydd hynny ydoedd bod angen annog pobl hŷn sydd

ddim o dan ofal i gysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol ynghynt oherwydd gan amlaf eu bod efallai yn ceisio byw'n annibynnol yn rhy hir cyn gofyn am gymorth y gwasanaeth

(b) gofynnwyd a oedd y Gwasanaeth wedi cymryd i ystyriaeth y rhagdybiaeth ar gyfer toriadau cyllidol i wasanaethau gan y Llywodraeth yn enwedig y cynnydd mewn pobl 65+ mewn pentrefi arfordirol. Nodwyd bod Gwynedd yn sir enfawr yn ddaearyddol gyda'r gwasanaethau hyn yn gost sylweddol i'r Cyngor o'i gymharu â Siroedd De Cymru.

Mewn ymateb, cydnabyddai'r Rheolwr Comisynu bod yr uchod yn her enfawr ond bwriad y cynllun comisynu ydoedd creu llai o ddibyniaeth ar y gwasanaethau gyda mwy o bwyslais ar ofal cartref a byw'n annibynnol. Cyfeiriwyd at y cynllun galluogi sydd yn cynnig gofal cartref am 6 wythnos i bobl hyn a gwelir mewn rhai achosion nad ydynt angen gofal cartref i'w galluogi i neud pethau drostynt eu hunain ond ar y llaw arall bod rhai angen mwy o ofal. Gwelwyd dros 300 o achosion ar y cynllun yn 2011/12 gyda dros 450 flwyddyn ddiwethaf a bod y cynllun yn un ffordd o reoli'r galw ar y gyllideb. Byddent yn edrych ar y tueddiadau ac efallai y bydd angen ffordd wahanol o flaenoriaethu.

(c) bod angen mwy o gydweithio gyda'r bobl sydd yn awyddus bod yn annibynnol a chydweithio rhwng Adrannau'r Cyngor yn enwedig i gynorthwyo pobl hŷn i gwblhau ffurflenni.

(d) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â dyfodol Frondeg a'r Ganolfan Ddydd ym Maesincla, eglurodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion o'r cyfarfod cychwynnol y bwriedir gweithredu cynllun gwaith a symud ymlaen i drafod gyda thrigolion a defnyddwyr ar eu dyheadau i'r dyfodol ynglŷn â'r ddau safle.

(e) Esboniwyd mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag oriau agor Uned Gofal Dydd ym Maesgeirchen, bod yr uned ar agor 2/3 diwrnod yr wythnos i oedolion a 2 ddiwrnod ar gyfer gwasanaeth newydd arbenigol ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus gyda'r bwriad o'i ehangu drwy Wynedd.

(f) O safbwynt y berthynas rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, nodwyd bod enghreifftiau o gydweithio da a rhai eraill ddim cystal. Fodd bynnag, hyderir y bydd y trefniant gan y Bwrdd Iechyd o benodi un Rheolwr dros Ysbyty Gwynedd yn lliniaru'r sefyllfa. Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol bod y Rheolwr y Ysbyty yn cynnal cyfarfodydd misol er mwyn trafod a datrys problemau a thrwy hyn rhagwelir y bydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhan o benderfyniadau ynghynt o fewn y broses.

(g) Gofynnwyd a fyddai modd edrych ar gytundebau gwaith y gofalwyr cartref i fedru cynnig ymestyn eu horiau i'r rhai hynny fyddai'n awyddus drwy iddynt gynorthwyo yn y cartrefi pobl hyn.

(h) Bod angen sicrhau data cyfredol ar bob achlysur.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol bwysigrwydd i'r Ymchwiliad Craffu sefydlu briff a fyddai'n canolbwyntio ar faterion ar wahân sef y rhan comisynu a'r her ariannol fydd yn dylanwadu hyn, ynghyd a disgwyliadau cymunedau. Gwelir yr ail ran yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth fewnol ac allanol ac a yw'n addas i bwrpas ar gyfer y dyfodol o safbwynt hyfforddi staff yn briodol, rota staffio, iaith, a.y.b.

**Penderfynwyd: (a) Sefydlu Ymchwiliad Craffu ym maes gofal i gynnwys yr aelodaeth ganlynol ac i'r Ymchwiliad ystyried ei faes llafur a llunio rhaglen waith yn y cyfarfod cyntaf:**

**Y Cynghorwyr: Huw Edwards**
**Elin Walker Jones**
**Eryl Jones-Williams**
**Linda Ann Wyn Jones**
**Peter Read**
**Ann Williams**

**Aelod Cabinet Gofal (Sylwedydd)**

**(b) Bod yr Ymchwiliad Craffu Gofal yn llunio adroddiad i gynnig argymhellion o fudd i'r Aelod Cabinet Gofal.**

## 7. GOFAL YSBAID

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal yn amlinellu prif nod Gwasanaethau Cymdeithasol wrth gomisiynu gwasanaethau ar gyfer oedolion.

Ymhelaethwyd ar ddiffiniad o ofal ysbaid a sut y darperir ysbaid ar hyn o bryd yng Ngwynedd, beth yw'r anawsterau, a beth yw'r cynlluniau ysbaid ar gyfer y dyfodol. Cyfeiriwyd at ddarpariaeth gofal adfer tymor byr ynghyd a thai gofal ychwanegol a'r math o ofal preswyl a gynigir mewn safleoedd megis Awel y Coleg, Y Bala.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau graffu'r adroddiad ac amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) dymuniad y Pwyllgor i wyntyllu gwendidau a'r anawsterau a brofir gan y Gwasanaeth mewn darparu gofal ysbaid.

Mewn ymateb, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion bod y gwasanaeth yn gallu ymdopi gyda darpariaeth gofal ysbaid ar gyfer pobl gydag anghenion corfforol gan fod digon o adnoddau a dewis o fewn y sir. Profir anhawster i ddarparu gofal ysbaid i unigolion sydd gyda phroblemau cof serch datblygiad unedau arbenigol ym Maesincla, Bryn Blodau (Llan Ffestiniog) a Llys Cadfan (Tywyn). Nodwyd bod yr unedau hyn wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau'r defnyddwyr. Nodwyd ymhellach bod angen mwy o ddarpariaeth o'r fath er mwyn cyfarch anghenion unigolion.

O safbwynt anghenion ar lefel gofal preswyl, profir problemau comisynu gofal ysbaid ar gyfer anghenion nyrsio oherwydd yr angen i gyd-gomisiynu hefo'r Bwrdd Iechyd ac wedi methu cael y Bwrdd Iechyd i gytuno yn y gorffennol. Fodd bynnag, hyderir i'r dyfodol y byddir yn gallu comisynu gwelyau ar y cyd mewn cartrefi nyrsio arbenigol.

Yng nghyd-destun anableddau dysgu, ceisir gwneud mwy o ddefnydd o unigolion sydd yn cynnig agor eu cartrefi i ddefnyddwyr a gobeithir adeiladu ar y model hwn.

(b) pryder dybryd ynglŷn â diffyg adnodd ar gyfer gofal ysbaid ym Mhen Llŷn gan fod yr adnodd agosaf i drigolion Dwyfor yn Llanberis / Llangefni. Tra'n derbyn bod 2 o welyau ym Mhlas Hafan a Phlas y Don yn Nwyfor, mynegwyd pryder os yw'r gwelyau hyn yn cael defnydd am gyfnodau hwy na phythefnos golygai nad oedd y gwelyau felly ar gael i ofal ysbaid. Ategwyd gan sawl Aelod y broblem uchod a chyfeiriwyd at enghreifftiau o

anawsterau unigolion i fedru cael gofal ysbaid i'w teuluoedd ar amseroedd penodol oherwydd diffyg darpariaeth o fewn y Sir.

Mewn ymateb, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion bod dau wely wedi ei ddynodi ar gyfer gofal ysbaid yn y ddau gartref a nodir uchod a'u bod yn cael defnydd o ychydig o ddiwrnodau hyd at bythefnos. Rhaid cofio y gall unigolion gael eu cyfeirio i'r cartrefi a'u cyflwr yn dirywio sy'n golygu arhosiad hirach. Ymddengys nad yw yn broblem i gadw 2 wely ar gyfer gofal ysbaid a chadw gwely ar gyfer unigolion sydd angen gofal yn hirach. Fodd bynnag, nodwyd os yw'r unigolion yn dioddef o broblemau cof (dementia), profir yn anodd medru cael lle arbenigol.

(c) Deallir na fydd pobl hŷn yn gallu mynd i mewn i gartref Plas Ogwen, Bethesda, o fis Gorffennaf eleni ac y byddent yn gorfod mynd i Lanberis. Mynegwyd pryder dybryd am hyn o ystyried bod teuluoedd yn gorfod teithio hyd at 3 awr yno ac yn ôl i ymweld â'u hanwyliaid. Cwestiynwyd hefyd a oedd canoli'r ddarpariaeth yn angenrheidiol, addas ac effeithiol ac fe ddylai Aelodau Etholedig fod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau yn y ddarpariaeth.

Mewn ymateb, esboniodd y Rheolwr Comisynu mai'r bwriad, drwy'r cynllun peilot hwn ydoedd canoli gofal ysbaid ym Mhlas Pengwaith, Llanberis fel bo'r canolfannau yn gallu adeiladu i gynnal gofalwyr yn ogystal â gwneud defnydd gorau posibl o adnoddau heb gostau ychwanegol.

(ch) pwysigrwydd i ystyried anghenion gofalwyr sy'n gofalu am unigolion gydag awtistiaeth a phobl gydag iechyd meddwl.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion mai dyma'r bwriad yn rhannol ydoedd ystyried datblygu canolfan Y Fron Deg, Maesincla. Nodwyd mai ychydig iawn o alw sydd am ofal ysbaid i unigolion gydag iechyd meddwl ond bod bwriad gan y Bwrdd Iechyd i ystyried cryfhau'r gefnogaeth i ofalwyr yn y Gymuned.

(dd) llongyfarchwyd a chroesawyd y model gofal tai ychwanegol yn Awel y Coleg, Y Bala, ac anogwyd unrhyw ardal i'w ystyried pe bai'r cynnig ar gael ar gyfer model cyffelyb. Cydnabuwyd yr angen am ofal ysbaid ond ei bod yn bwysig hefyd i gydnabod rôl y gofalwyr a bod angen yn hyn o beth sefydlu eglurder ynglŷn â'u rôl a bod gwerth i'r gwaith a wneir ganddynt.

Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Gofal bod y Cyngor yn flaengar yn hyn o beth ac wedi sefydlu Panel Diwygio Lles gydag arian wedi ei glustnodi i hybu hyn.

(e) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â chefnogaeth / hyfforddiant i ofalwyr, nodwyd bod Mudiad Cynnal Gofalwyr yn cynnal sesiynau hyfforddiant iddynt yn ogystal â'u cefnogi

Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant bod darpariaeth ar gael ar gyfer gofalwyr ifanc hefyd. Ymhelaethodd bod gan Wasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldeb statudol i asesu anghenion gofalwyr ifanc a bod llawer o waith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd rhwng yr Adran Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol drwy'r ysgolion. Gall ofalwyr ifanc gofrestru drwy hunan gyfeiriad i Gweithredu Dros Blant neu drwy Weithiwr Cymdeithasol. Nodwyd bod gwybodaeth ar gael mewn ysgolion, meddygfeydd, pamffledi, a.y.b.

(f) O safbwynt datrys gofal i unigolion sydd yn dioddef o broblemau cof, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion bod rhai unedau arbenigol wedi agor yn barod gyda rhai llefydd i unigolion mewn cartrefi yn y sector annibynnol. Fodd bynnag, roedd y

Gwasanaeth yn ymdrechu'n galed i sicrhau bod unigolion yn cael gofal ysbaid ac yn awyddus i fwrw ymlaen gydag adolygiad o gartrefi nyrsio a phreswyl oherwydd nad oedd y ddarpariaeth ar hyn o bryd yn addas ar gyfer anghenion. Nodwyd bod angen mwy o welyau arbenigol ar gyfer dementia yn ogystal â mwy o welyau galluogi.

(ff) Mewn ymateb i'r uchod, mynegwyd bod cartrefi preifat yn dueddol o wrthod unigolion am ofal ysbaid am gyfnod o wythnos a'u bod yn ffafrio derbyn cleifion am dymor hir.

(h) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â mynychu cyfarfod a sefydlwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ddiweddar, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion bod Grŵp Iechyd Meddwl Pobl Hŷn wedi cwrdd gydag Is-grŵp wedi ei sefydlu i ystyried gofal ysbaid a'r gobaith ydoedd cyd-gomisiynu gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau prynu gwely mewn cartref nyrsio ar gyfer gofal ysbaid.

(i) O safbwynt derbyn cefnogaeth nyrs seiciatrig arbenigol ar gyfer cyflwr dementia, esboniwyd ni ellir rhoi cleifion gydag anghenion nyrsio mewn cartref preswyl ond gall y Gwasanaeth sicrhau cefnogaeth gorau posib i unigolion yn y cymunedau.

(g) Bod penderfyniadau'r Bwrdd Iechyd o gau unedau ac Ysbytai yn ddiweddar wedi rhoi mwy o bwysau ar Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig ac y dylai'r Bwrdd Iechyd beidio gwneud penderfyniadau heb ymgynghori'n drwyadl gydag awdurdodau.

(h) oni ddylid ystyried cost gwasanaeth y Cyngor o'i gymharu â darpariaethau eraill.

I gloi, crynhodd y Cadeirydd y sylwadau uchod gan ategu'r angen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ymateb i'r her o ystyried cynlluniau i gyfarch anghenion unigolion gyda dementia, yr angen am fwy o ddarpariaeth gofal ysbaid mewn lleoliadau addas a hwylus o fewn y Sir.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r sylwadau uchod.**

## 8. DRYLL Y CAR, ABERMAW

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal yn amlinellu'r opsiynau ar gyfer dyfodol gwasanaeth 8 gwely mewnol is-aciwt yn Dryll y Car, Abermaw sy'n gwasanaethu poblogaeth Ynys Môn a Gwynedd.

(a) Adroddodd yr Aelod Cabinet Gofal mai ychydig iawn o ddefnydd sydd o'r gwasanaeth ac fe sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan y Bwrdd Iechyd i ddatblygu opsiynau ar gyfer yr uned. Trafodwyd pedwar opsiwn a phenderfynwyd cau Dryll y Car ar 19 Gorffennaf 2013 ac i sefydlu a chryfhau gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol. Nodwyd bod yr Aelod Lleol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gefnogol i'r opsiwn gan y byddir yn defnyddio'r adnoddau a fydd yn cael eu rhyddhau i wasanaethu mwy o gleifion mewn modd mwy hyblyg a diogel.

(b) Nododd Aelod, ymddengys o'r adroddiad bod y ddarpariaeth yn hen-ffasiwn ond ei fod yn cydymdeimlo a'r teuluoedd na fyddent bellach yn medru cael gofal ysbaid.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 9. ADOLYGIAD A GWERTHUSIAD O BERFFORMIAD BLYNYDDOL 2011-2012 (AGGCC)

Cyflwynwyd adroddiad yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn amlinellu ei brif ganfyddiadau ar argymhellion ynglŷn â pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2011-12.

Cymerodd yr Aelod Cabinet Gofal y cyfle i ddiolch i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith a'r cynnydd aruthrol a gyflawnwyd mewn amser ac o fewn cyllideb heriol. Atgoffwyd yr Aelodau bod meysydd wedi gwella ynghyd â'r meysydd hynny sydd angen sylw pellach.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau graffu'r adroddiad ac fe amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) ymddengys bod y gwendidau a nodwyd yn deillio o gyfyngiadau rhwng perthynas y Bwrdd Iechyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol

(b) pwysigrwydd bod yr Adran yn ffonio unigolion yn ôl wrth ffonio'r Adran ar gyfer unrhyw ymholiad. Ymddengys nad yw 76% yn hapus gyda'r sefyllfa.

(c) croesawyd bod yr adroddiad yn gadarnhaol a phositif gydag arwyddion bod gwelliant yn parhau.

Mewn ymateb, esboniodd Mr Mark Roberts o'r Arolygiaeth y derbyniwyd tystiolaeth bod llawer o feysydd wedi gwella ond adnabuwyd tri phrif risg i Wynedd sef

- yr angen am ysgogiad a chefnogaeth effeithiol er mwyn darparu gwasanaeth ataliol, wedi'u moderneiddio i oedolion, ynghyd a diffyg gallu i gyflawni'r newidiadau sy'n ofynnol
- hanes o sustemau gwan ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r rheolwyr, sy'n golygu nad yw'r trefniadau rheoli perfformiad a goruchwyliaeth yn effeithiol
- gallu parhaus i ddylanwadu ar waith cynllunio strategol sy'n canolbwyntio ar ardaloedd penodol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Nodwyd hefyd bryder ynglŷn â hygrededd data sydd yn derbyn archwiliad blynyddol gan y Swyddfa Arolygu.

Sicrhaodd yr Aelod Cabinet Gofal o safbwynt data bod y Gwasanaethau yn ddiogel a'r prif bryder ydoedd yr angen am gofnodi a chysoni'r data fel y gwneir mewn Siroedd eraill.

(ch) Nodwyd bod rhai elfennau lle'r oedd perfformiad yn waeth na'r llynedd megis prydlondeb adolygiadau i blant sy'n derbyn gofal sydd wedi gostwng o 83.4% i 75.4% ynghyd â pherfformiad trefniadau cynlluniau addysg bersonol wedi gostwng.

Mewn ymateb, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant bod cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal ac sydd wedi bod yn her aruthrol i'r Gwasanaeth. O safbwynt cynlluniau addysg bersonol cydnabuwyd bod dirywiad yn y perfformiad eleni ond yn hanesyddol roedd y perfformiad wedi bod yn dda. Nodwyd mai'r Adran Addysg sydd yn gyfrifol am y cynlluniau sydd i'w cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith. Gofynnwyd i'r Adran Addysg am gynllun gwella fydd yn cael sylw gan yr ysgolion.

O safbwynt archwiliadau meddygol plant sy'n derbyn gofal, cydnabuwyd bod perfformiad y Sir yn un o'r rhai gwaethaf ond bod yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant mewn trafodaeth gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ers mis Awst diwethaf a hyderir, yn dilyn cyfarfod sydd eisoes wedi ei drefnu ar gyfer wythnos nesaf, y bydd y prosesau yn gwella.

Yng nghyd-destun adolygiadau statudol i blant mewn gofal, cydnabyddai'r Uwch Reolwr Gwasanaeth Plant bod y perfformiad yn annerbyniol ac roedd wedi creu pryder i'r Gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd. Nodwyd bod cynnydd yn y plant sydd mewn gofal sydd erbyn hyn dros 200 mewn nifer ac nid oedd y sefydliad o swyddogion adolygu annibynnol sy'n gyfrifol am gadeirio adolygiadau statudol wedi cynyddu. Cyflwynwyd bid i'r Cyngor tair gwaith yn olynol am arian i fedru cynyddu swyddogion ond yn anffodus bu'r bidiau yn aflwyddiannus. Mynegwyd bod rhaglen waith adferol yn ei lle gyda threfn o fewn y gwasanaeth a sicrhawyd y Pwyllgor Craffu nad oedd unrhyw adolygiad yn cael ei ohirio neu ganslo oni bai bod Uwch Swyddog yn cytuno ei fod yn addas i wneud hynny. Er mwyn lliniaru'r sefyllfa, symudwyd un gweithiwr o ddyletswyddau dydd i ddydd i geisio cynyddu'r adolygiadau ac fe dderbynnir adroddiadau misol ar yr arolygiadau. Gwelwyd cynnydd i 87% ym mherfformiad y chwarter cyntaf a sicrhawyd bod y mater yn cael sylw wythnosol er sicrhau pwysigrwydd i flaenoriaethu'r mater hwn.

(d) Nododd Aelod nad oedd swyddog gwaetha'r modd o'r Adran Addysg yn bresennol yn y cyfarfod i adrodd ar y cynlluniau addysg. Tra'n derbyn bod y Panel Rhiant Corfforaethol yn monitro canlyniadau TGAU plant mewn gofal, nodwyd pwysigrwydd i fonitro cynnydd y disgyblion wedi iddynt symud i addysg bellach.

(dd) Nodwyd pwysigrwydd i gyfeirio at anghenion iaith plant mewn gofal yn yr adroddiad. Deallir hefyd bod canlyniadau TGAU plant mewn gofal yn arbennig o dda. Bu i 'r Panel Rhiant Corfforaethol yn ei gyfarfod diwethaf dderbyn cyflwyniad gan ddau berson ifanc oedd wedi derbyn gwasanaeth fel plant mewn gofal yng Ngwynedd. Cyflwynodd un ohonynt restr o argymhellion ar sut i wella'r gwasanaeth ac y byddai o fudd i Aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn gael gweld y rhestr honno yn y cyfarfod paratoi nesaf.

(e) Cyfeiriodd Aelod at gynllun gofal arbennig o dda a welodd yn y Ffindir rhai blynyddoedd yn ôl a bu iddi ofyn i'r Cyngor gyflwyno cais am gofrestriad deublyg (dual registration) ar gyfer cartrefi gofal fyddai'n rhoi cyfle i gartref gofal weithredu fel cartref preswyl a nyrsio. Golygai hyn y byddai'r cartref yn gallu cynnig sawl gwasanaeth o fewn un cartref ac na fyddai'n rhaid i breswylwyr symud o un cartref i'r llall yn unol â'u cyflwr ac anghenion. Roedd yn awyddus i'r Cyngor ystyried cynllun o'r fath ond yr ateb pob tro ydoedd nad oedd AGGCC yn caniatáu cofrestriad deublyg i Wynedd.

Mewn ymateb, esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn dechnegol bod posib i unrhyw gartref gael ei ddynodi yn un deublyg ond rhaid ystyried a yw'r Cyngor yn awyddus i fynd lawr y trywydd yma neu ddatblygu mwy o dai gofal ychwanegol / defnyddio cartrefi preifat a chartrefi preswyl y Cyngor ar gyfer gofal ysbaid, gofal adfer a dementia. Tra'n derbyn nad yw'n amhosibl cyflwyno cais am gofrestriad deublyg golygai y byddai'r Cyngor yn gorfod cyflogi nyrsys arbenigol fyddai'n gallu bod yn fater cymhleth i Gyngor.

O safbwynt tai gofal ychwanegol, byddai unigolion yn gallu aros yn y cartrefi yma a gall y Cyngor gynnig gofal nyrsio parhaus ynddynt. Teimlwyd bod y model yma yn addas i'r Sir os gellir datblygu mwy ohonynt.

(f) Yn deillio o'r ymateb uchod, gofynnodd yr Aelod, lle nad yw yn ymarferol i ddatblygu tai ychwanegol a fyddai modd ystyried cartrefi cofrestriad deublyg. Ychwanegodd Aelod arall gan fod y Bwrdd Iechyd wedi penderfynu i gleifion gael gofal cartref sy'n golygu llai o angen am nyrsys yn yr ysbytai, oni ellir cyflogi nyrsys i gynorthwyo'r Cyngor mewn cartrefi.

(g) Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth Cymdeithasol y byddai'n rhaid i unrhyw gartref lle gwneir cais am gofrestriad deublyg fod o ddigon o faint i fod yn hyfyw.

(ng) Atgoffwyd y Pwyllgor Craffu gan yr Aelod Cabinet Gofal am yr angen i roi sylw i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) sy'n gosod fframwaith cyfreithiol cydlynol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru a thrawsnewid gwasanaethau.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad ynghyd â'r sylwadau a wnaed uchod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.20 pm

**Fersiwn 0.09** **23/09/2013**

# Adroddiad Ymchwiliad Craffu ar Ansawdd Addysg

**Comisiynwyd gan yr Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Sian Gwenllian**

**Aelodau'r Ymchwiliad**
Y Cynghorydd Liz Saville Roberts (Cadeirydd, am rhan olaf yr Ymchwiliad)
Y Cynghorydd Dewi Owen (Cadeirydd ac aelod am rhan gyntaf yr Ymchwiliad)
Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd
Y Cynghorydd Sion Jones
Y Cynghorydd Beth Lawton (am rhan olaf yr Ymchwiliad)
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Y Parchedig Robert Townsend

**Swyddogion**
Vera Jones (Swyddog Arweiniol)
Arwel E Jones (Swyddog Arweiniol am rhan olaf yr Ymchwiliad)
Huw Rowlands (Swyddog Cefnogol)
Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogol)

Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl,
Caernarfon,
Gwynedd
LL55 1SH

Medi 2013

**Fersiwn 0.09** **23/09/2013**

**Cynnwys**


| **Yr Adroddiad** | Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyd-destun | 3 |
| 2. Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu | 3 |
| 3. Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad | 3 |
| 4. Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion yr Ymchwiliad | 4 |

**Yr Atodiadau**

Atodiad 1 – Nodyn o'r prif gwestiynau a ofynnwyd i Benaethiaid Ysgolion Uwchradd Gwynedd

Atodiad 2 – Crynodeb o brif gasgliadau'r holl gyfweliadau gyda Phenaethiaid Ysgolion Uwchradd Gwynedd

Atodiad 3 – Nodyn o'r prif gwestiynau a ofynnwyd i Dr Brett Pugh, Pennaeth Uned Safonau Ysgolion Llywodraeth Cymru

Atodiad 4 – Nodiadau'r cyfarfod gyda Dr Brett Pugh, Pennaeth Uned Safonau Ysgolion Llywodraeth Cymru

Atodiad 5 - Nodiadau'r cyfarfod gyda Mr Geraint Rees, Pennaeth Gweithredol Ffederasiwn Coleg Llanfihangel ac Ysgol Glyn Derw, Trelai, Caerdydd

Atodiad 6 – Crynodeb o brif gasgliadau'r holl gyfarfodydd gyda rhieni sydd hefyd yn lywodraethwyr

Atodiad 7 - Crynodeb gan CLYWED o brif gasgliadau'r holl gyfarfodydd gyda disgyblion ysgol ar draws y sir

Atodiad 8 – Nodyn o'r prif gwestiynau a ofynnwyd i Mr Huw Foster Evans, Prif Swyddog GwE (Y Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol)

Atodiad 9 – Nodiadau'r cyfarfod gyda Mr Huw Foster Evans, Prif Swyddog GwE

## 1. Cyd-destun

1.1 Yng Nghynllun Strategol y Cyngor ar gyfer 2012/13, nodwyd bod Ansawdd Addysg yn faes ymyrraeth allweddol. Roedd y Cynllun yn nodi pwysigrwydd rhoi'r cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddatblygu'n llawn, a bod angen sicrhau cysondeb yn ansawdd y profiadau a chyfleoedd a gynigir iddynt yn ein hysgolion. Mae hyn yn golygu **cau'r bwlch** rhwng disgyblion a'i gilydd, rhwng dosbarthiadau oddi fewn i'r un ysgol a rhwng ysgol ac ysgol a chodi safonau yn gyffredinol.

1.2 Nodwyd bod angen sefydlu sail tystiolaeth gadarn ar gyfer yr ymyrraeth allweddol drwy adnabod maint ac ehangder y 'bwlch' yng Ngwynedd. Ar gais yr Aelod Cabinet, cytunodd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau i gefnogi'r gwaith drwy ymchwilio i agweddau o'r maes ac adnabod enghreifftiau o arfer da yng Nghymru a thu hwnt.

## 2. Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu

2.1 Rhoddwyd briff gan yr Aelod Cabinet i'r Ymchwiliad Craffu ystyried y materion a ganlyn:

- Pam bod **pegynnu** yn digwydd ym mherfformiad **CA4** ysgolion?
- Safonau cyflawniad mewn **Mathemateg** ac effaith hynny ar y dangosydd TL2+
- Pam bod ansawdd safonau a darpariaeth **CA3** yn gyffredinol gadarn ar draws ysgolion yr Awdurdod?
- Meithrin dealltwriaeth lawnach o **berfformiad dysgwyr PYD** a'r graddau y mae cyflawniad y grŵp yma o ddysgwyr yn effeithio ar berfformiad **CA4**
- Effaith **arweinyddiaeth** ar berfformiad ysgolion a'r modd y caiff sgiliau arwain eu meithrin a'u datblygu.

## 3. Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad

3.1 Cytunwyd ar raglen waith a oedd yn ceisio cyfarch y briff. Dyranwyd y gwaith i 4 rhan, a rhoddwyd amlinelliad o'r 4 rhan wrth ddiweddaru'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 11eg Ebrill 2013. I grynhoi, roedd y camau fel a ganlyn:

3.2 <u>Rhan 1 – deall a dadansoddi'r data</u>. Bu cryn waith gan aelodau'r Ymchwiliad i ddod i ddeall y maes dan arweiniad arweinwyr yn y maes, a dod i allu dadansoddi'r data yn gywir. Yn dilyn y gwaith, adnabuwyd 3 chategori gwahanol o ysgolion, sef

- Ysgolion lle mae perfformiad yn dda
- Ysgolion lle bod perfformiad wedi / wrthi'n newid yn sylweddol
- Ysgolion lle bo tanberfformiad yn y dangosydd pynciau craidd

3.3 Ail ran – herio ar lawr gwlad. Ail ran yr ymchwiliad oedd herio a deall go iawn beth sy'n digwydd ar lawr gwlad. Mewn geiriau eraill, holi'r rhai a effeithir a chymeryd safbwynt y defnyddwyr / cwsmeriaid. Er mwyn gallu cyflawni'r elfen yma yn llwyddiannus, penderfynodd aelodau'r Ymchwiliad ei bod yn ofynnol ymgynghori er mwyn adnabod arfer da gyda'r grwpiau canlynol:

- Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Gwynedd
- Disgyblion ysgolion
- Rhieni disgyblion (trwy gwrdd â rhieni lywodraethwyr)

3.4 Trydedd rhan – arbenigwyr annibynnol yn y maes. Fel rhan greiddiol o'r Ymchwiliad, cynhaliwyd cyfweliadau gydag arbenigwyr annibynnol ym maes addysg – yn arbennig ym maes llythrennedd a rhifedd. Roedd hyn yn cynnwys Penaethiaid o'r tu allan i'r sir, Pennaeth Uned Safonau Ysgolion Llywodraeth Cymru ac, yn fwyaf diweddar, Brif Swyddog newydd y Gwasanaeth Gwella ac Effeithlonrwydd Ysgolion Rhanbarthol (GwE). Holwyd yr unigolion hynny am eu barn am sut i wella ansawdd addysg a sicrhau cysondeb, ynghyd â'u herio am dystiolaeth o fod wedi cyflwyno a chyflawni gwelliant mewn ansawdd.

3.5 Pedwaredd rhan – llunio a chyflwyno argymhellion i'r Arweinydd Cabinet yn seiliedig ar dystiolaeth. Cyflwynir y bedwaredd rhan yn yr adroddiad yma, sef cyflwyno argymhellion i'r Aelod Cabinet yn seiliedig ar gasglu tystiolaeth a herio gwahanol unigolion.

D.S. Yn ogystal, wrth gwrs, roedd yn amserol bod gwaith yr Ymchwiliad yn cyd-redeg gydag Arolwg ESTYN o waith yr Awdurdod. Bu'r Ymchwiliad yn derbyn negeseuon ac ystyried casgliadau cychwynnol yr Arolwg er mwyn asesu i ba raddau yr oeddent yn plethu gyda'i argymhellion.

## 4. Prif Ganfyddiadau yr Ymchwiliad

4.1 Nodwyd eisoes y cwestiynau a ofynnwyd gan yr Aelod Cabinet yn 2.1 uchod. Fodd bynnag, o fod yn edrych ar y data ac yn derbyn tystiolaeth, aeth trafodion yr Ymchwiliad yn ehangach wrth i'r aelodau adnabod materion perthynol a oedd, yn eu barn, yn allweddol o ran ansawdd addysg.

4.2 O ganlyniad, mae prif ganfyddiadau'r Ymchwiliad yn ehangach na'r briff gwreiddiol ac fe'u cyflwynir yma i sylw'r Aelod Cabinet. O ran trefn, cyflwynir yr isod trwy nodi'r prif ganfyddiadau a rhai awgrymiadau ar weithgareddau posib, nodyn yn cyfeirio at ffynonellau'r dystiolaeth ar gyfer y canfyddiad hwnnw a'r argymhelliad i'r Aelod Cabinet.

4.3 Mae'r Ymchwiliad yn gwerthfawrogi mai mater i'r Aelod Cabinet fydd gweithredu ond mae'n awyddus i'r Pwyllgor Craffu dderbyn adroddiad yn ôl gan yr Aelod Cabinet ar ei hymateb i'r argymhellion maes o law. Mae'n deg

nodi hefyd nad yw'r Ymchwiliad wedi ateb y cwestiwn penodol yn ymwneud â phrydau ysgol am ddim gan fod ei ganfyddiadau ac argymhellion yn mynd i'r afael â'r Gyfundrefn Addysg yn ei chyfanrwydd. Yn benodol o ran y tablau perfformiad Prydau Ysgol, gallai ffocws ar hynny ddrysu'r uchelgais, a chymhlethu'r asesiad o safonau a chanlyniadau ysgolion.

| **A. Arweinyddiaeth o fewn Ysgolion** |
|---|
| **Canfyddiadau** –<br><br>**Mae gan Arweinyddiaeth o fewn yr ysgol effaith uniongyrchol a phellgyrhaeddol ar ansawdd addysg o fewn yr ysgol ac mae angen cefnogaeth bellach i ddatblygu hynny a meithrin hyder arweinyddiaeth ysgol ymhellach**<br>(DS Mae Arweinyddiaeth yn y cyd-destun hwn yn golygu Pennaeth, Uwch Dim Rheoli ac Arweinyddion Pwnc)<br><br>• Angen amlinellu'n glir ddisgwyliad yr Awdurdod ar benaethiaid<br>• Angen i Arweinyddiaeth Ysgol sefydlu disgwyliadau clir o ran uchelgais, annog staff a disgyblion, tracio cynnydd (Gweler C. isod) ac ymyrryd yn gynnar lle bo angen<br>• Angen i'r cymhwyster CPCP baratoi prifathrawon newydd yn briodol at waith ymarferol ac mae angen sicrhau hyfforddiant ychwanegol<br>• Angen sgilio arweinyddion trwy ddatblygu trefniadau mentora a gwneud defnydd ehangach o benaethiaid strategol<br>• Angen trefnu cefnogaeth benodol i benaethiaid a darpar-benaethiaid<br>• Angen datblygu arweinyddiaeth ganol / adran fel bod y cyfrifoldeb am berfformiad a safonau yn hollol eglur<br>• Angen galluogi penaethiaid i ddirprwyo cyfrifoldebau arwain allweddol lle'n briodol<br>• Angen edrych yn greadigol ar faterion amserlenni er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r flwyddyn academaidd ac ymestyn disgyblion<br>• Angen symleiddio'r drefn medrusrwydd gan bwysleisio ei fod yn ymwneud â gwella a'r cyfle i wella ac mae angen hwyluso'r drefn lle nad yw athrawon yn medru ateb gofynion eu swydd<br>• Angen datblygu'r gallu i ddefnyddio trefniadau medrusrwydd ynghynt ac yn allweddol sgiliau perswadio a dylanwadu cyn cyrraedd camau medrusrwydd<br>• Angen cefnogaeth Adnoddau Dynol pellach gan yr Awdurdod ar gyfer y drefn medrusrwydd<br>• Angen cydnabod y pwysau eithriadol sydd ar bennaeth mewn ysgol fach |
| **Ffynhonnell y Dystiolaeth** –<br><br>Cyfweliadau gyda Dr Brett Pugh, Mr Geraint Rees, Penaethiaid Uwchradd Sirol a Phrif Swyddog GwE |

**Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**

**Dylid datblygu cynigion pendant i gadarnhau rôl allweddol arweinyddiaeth o fewn ysgolion a chefnogi gwaith i feithrin hyder i gyflawni'r rôl**

**B. Mathemateg**

**Canfyddiadau**

**Mae safonau cyflawniad Mathemateg yn fater sydd wir angen sylw ac mae'n effeithio ar gyrhaeddiad disgyblion Gwynedd, yn enwedig yn y dangosydd TL2+.**

**Mae rhifedd a sgiliau mathemategol yn greiddiol i gynnydd ar draws y cwricwlwm cyfan ac o ran sgiliau bywyd a gwaith a dylid rhoi sylw penodol iddo**

- Angen adnabod a rhannu rhagoriaeth sirol ac ehangach er mwyn cynyddu disgwyliadau drwy gyfrwng strategaeth eang
- Angen datblygu diddordeb mewn sgiliau rhifedd ar draws yr ystod gallu
- Angen dysgu rhifedd a llythrennedd ar draws pob pwnc yn y Cynradd
- Angen cryfhau sgiliau rhifedd ar draws pob pwnc yn y Cynradd ac Uwchradd cynnar cyn cyrraedd Cyfnod Allweddol 4
- Angen cydnabod effaith cyflawniad mewn Mathemateg ar bynciau eraill hefyd
- Angen annog a datblygu dulliau amgen / creadigol ar gyfer dysgu mathemateg sydd yn berthnasol i fywyd go iawn
- Angen cynnig gwersi ychwanegol yn y pwnc wedi eu cynllunio fel rhan o gynllun dysgu ehangach
- Angen normaleiddio cadw plant yn yr ysgol yn y cyfnod cyn-arholiad er mwyn eu paratoi yn well at arholiadau
- Angen trefn reolaethol gadarn i gefnogi'r uchod
- Angen adnabod y graddau y mae rhieni yn talu am wersi preifat yn golygu nad yw'r gwir ddarlun yn amlwg
- Rhoi sylw, lle bo angen hynny, i gynnig cefnogaeth i athrawon a chymorthyddion i gryfhau eu sgiliau personol ym maes Llythrennedd a Rhifedd

**Ffynhonnell y Dystiolaeth**

Data yn dangos effaith sylweddol gan gyflawniad Mathemateg ar TL2+ ac effaith cyflawniad mewn Mathemateg ar bynciau eraill hefyd

Cyfweliadau gyda Dr Brett Pugh, Mr Geraint Rees Penaethiaid Uwchradd

| |
|---|
| Sirol, Rhieni-lywodraethwyr a Disgyblion. |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet**<br><br>**Dylid datblygu cynigion penodol (pwerdy) i ddatblygu Mathemateg o fewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y sir** |

**C. Deall Perfformiad a Data**

**Canfyddiadau** –

**Mae'r darlun o ran adnabod perfformiad ac ymateb iddo yn rhy anghyson ar draws y sir**

- Angen cael trefn addas i bwrpas ar gyfer tracio cyrhaeddiad disgyblion unigol ym mhob ysgol. Ni awgrymir gosod rheol ynglŷn â pha gyfundrefn ond disgwylir system sydd yn galluogi:-
  - Adnabod a thracio cyrhaeddiadau plentyn
  - Eglurder am gyfrifoldebau o fewn y drefn
  - Systemau tracio sydd yn amlygu llwybrau gwella i ddisgyblion ar draws yr ystod gallu
  - Gosod targedau trwy ddulliau gwahanol
  - Gweithredu ar ganfyddiadau ar lawr y dosbarth
  - Dealltwriaeth o'r drefn ymysg plant a rheini
- Angen sylw manwl a rheolaidd i safonau gwaith plant yn y dosbarth ac mewn gwaith cartref
- Angen grymuso asesiadau mewnol ysgolion, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 i sicrhau cysondeb ac ansawdd
- Angen cydweithio rhwng y Cynradd a'r Uwchradd er mwyn hwyluso trosglwyddiad a pharhad mewn datblygu cyraeddiadau o'r naill i'r llall

**Ffynhonnell y Dystiolaeth** –

Cyfweliadau gyda Phenaethiaid Uwchradd Sirol, Mr Geraint Rees a Huw Foster Evans, Phrif Swyddog GwE

**Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**

**Dylid gosod disgwyliad clir o ran system tracio cyrhaeddiad, canllawiau monitro a'r defnydd a wneir o'r wybodaeth ym mhob ysgol yn y sir**

| **Ch. Codi a Chyfleu Disgwyliadau** |
|---|
| **Canfyddiadau** –<br><br>**Mae angen i'r Awdurdod ysbrydoli a chodi disgwyliadau am yr hyn sydd yn bosib o ran cyraeddiadau plant y sir**<br><br>• Angen i bawb (Awdurdod, Llywodraethwyr, Arweinyddiaeth a Staff a Rhieni a Disgyblion) ysgwyddo'r cyfrifoldeb am safon addysg ond mae angen eglurder am rolau pawb wrth weithio tuag at hynny<br>• Angen gosod uchelgais uwch ar gyfer y targed sirol presennol ar gyfer TL2+ heb effeithio'r uchelgais yn y pynciau eraill<br>• Angen gwella dealltwriaeth rheini a disgyblion o ran yr hyn sydd yn cael ei wneud o ran disgwyliadau yn y gyfundrefn ac ar gyfer disgyblion unigol<br>• Angen cadw diddordeb carfanau o ddisgyblion penodol mewn addysg a pheidio â'u heithrio o'r gyfundrefn a rhoi sylw pellach i'r meysydd galwedigaethol |
| **Ffynhonnell y Dystiolaeth** –<br><br>Cyfweliadau gyda Dr Brett Pugh, Mr Geraint Rees, Penaethiaid Uwchradd Sirol a Huw Foster Evans, Phrif Swyddog GwE |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br><br>**Dylid codi disgwyliadau am gyraeddiadau plant y sir yn uwch na'r targedau sydd wedi eu gosod ar gyfer TL2+** |

| **D. Pegynnu o ran Ansawdd** |
|---|
| **Canfyddiadau** –<br><br>**Mae pegynnu o fewn a rhwng Ysgolion drwy'r sir yn fater o bwys i fynd i'r afael ag ef**<br><br>• Angen cydnabod bod tystiolaeth o begynnu rhwng ysgolion a rhwng pynciau<br>• Angen ymchwil i fodelau gwella cadarn o ran rôl yr Awdurdod ac, yn benodol, o ran ymyrryd lle mae angen gwneud hynny<br>• Angen i arweinyddiaeth ysgolion adnabod pegynnu o fewn ysgol fel mater allweddol i fynd i'r afael ag ef yn yr ysgol<br>• Angen cynnig cefnogaeth i athrawon fedru mynd i'r afael â phegynnu o fewn Ysgolion a phynciau<br>• Angen ehangu gorwelion er mwyn medru dysgu o ardaloedd a gwledydd a mentrau eraill |

**Ffynhonnell y Dystiolaeth** –

Data perfformiad ysgolion sirol

Cyfweliadau gyda Rhieni-lywodraethwyr mewn 6 ysgol, Mr Geraint Rees, Penaethiaid Uwchradd Sirol a Huw Foster Evans, Prif Swyddog GwE

**Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**

**Dylai'r Awdurdod ddatblygu model o welliant parhaus sydd yn adeiladu ar gyflawniadau'r gorffennol a hefyd yn dysgu gwersi o'r tu allan i'r sir**

**Dd. Rôl yr Awdurdod**

**Canfyddiadau** –

**Mae angen diffinio'n glir iawn beth yw rôl yr Awdurdod Addysg o ran Safon Addysg ac, yn benodol, sefydlu dealltwriaeth glir iawn o'r cyswllt rhwng yr Awdurdod ac Ysgolion yn y maes hwn**

- Angen i'r Awdurdod sefydlu rôl glir i ysbrydoli a chefnogi ysgolion yn eu gwelliant
- Angen i'r Awdurdod osod safon sydd yn ddisgwyliedig o ran ansawdd addysg ar draws y sir
- Angen sefydlu trefn glir ar gyfer cefnogi a rhannu arfer da i ymgyrraedd at y safon ddisgwyliedig
- Angen i'r Awdurdod gynnal awdit o beth sydd yn dda ym mhob ysgol o ran arferion da
- Angen adolygu cylch gorchwyl cyfarfodydd penaethiaid sydd yn cynnig cyfle i rannu arferion da
- Angen i'r Awdurdod edrych yn fuan ar y gefnogaeth sydd yn cael ei chynnig i lywodraethwyr ysgol (gweler pwynt E isod)
- Angen rhoi sylw mwy amlwg i ansawdd a chyrhaeddiad addysgol yng ngwaith y Pwyllgor Craffu, fel mater o drefn
- Angen cynyddu'r sylw sydd yn cael ei roi gan yr Awdurdod i Hunan Arfarniadau a Chynlluniau Datblygu Ysgolion
- Angen uchafu'r gefnogaeth Adnoddau Dynol ac ariannol sydd ar gael i ysgolion
- Angen i'r Awdurdod annog a hwyluso cydweithio rhwng Ysgolion er sicrhau gwelliant
- Angen cadw golwg gofalus ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth y Cyngor â GwE i sicrhau ei fod yn adlewyrchu awydd i wella yn hytrach nag edrych yn ôl yn feirniadol ar berfformiad y gorffennol

| |
|---|
| **Ffynhonnell y Dystiolaeth** –<br><br>Cyfweliadau â Phenaethiaid Uwchradd Sirol a Huw Foster Evans, Prif Swyddog GwE |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br><br>**Dylid amlygu a sefydlu cyd-ddealltwriaeth eang ar rôl yr Awdurdod ac, yn benodol, ei berthynas gydag Ysgolion o ran y cyfrifoldeb dros ansawdd** |

| **E. Rôl Llywodraethwyr** |
|---|
| **Canfyddiadau** –<br><br>**Mae pwysau sylweddol ar lywodraethwyr y sir, o ran eu cyfrifoldebau o ran ansawdd ac mae angen gwella'r gefnogaeth iddynt er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny**<br><br>• Angen cefnogi a galluogi llywodraethwyr i gyflawni eu rôl "cyfaill beirniadol" yn effeithiol (llywodraethwyr ar y cyfan a chynrychiolwyr yr Awdurdod ar y corff llywodraethol yn benodol)<br>• Angen diffinio'r hyn sydd i'w ddisgwyl gan gorff llywodraethu da, i gynnwys - Llywodraethwyr wedi eu sgilio / derbyn gwybodaeth gymharol am berfformiad / annibyniaeth barn / trefn fyw o is-bwyllgorau / clerc da<br>• Angen rhannu arfer da o gyrff llywodraethol sy'n gweithredu'n effeithiol<br>• Angen gwella'r drefn hyfforddi bresennol ac ystyried dulliau newydd o ymgysylltu a hyfforddi, gan ystyried, ymysg pethau eraill, hyfforddi llywodraethwyr ysgolion unigol gyda'i gilydd<br>• Angen gwneud defnydd ehangach o adnoddau cefnogi Llywodraethwyr fel cyfarfodydd ar y cyd o gadeiryddion ac is-gadeiryddion, adnoddau Llywodraethwyr Cymru a galluogi mynediad at rwydweithiau eraill<br>• Angen magu hyder cyrff llywodraethol yn eu rôl, gan gynnwys eu grymuso i gynnal cyfarfodydd cyfarfod heb athrawon / pennaeth yn bresennol pan yn briodol<br>• Angen sicrhau dealltwriaeth glir ymysg llywodraethwyr o rôl yr Awdurdod (gweler Dd uchod) |
| **Ffynhonnell y Dystiolaeth** –<br><br>Cyfweliadau gyda Rhieni-lywodraethwyr, Penaethiaid Sirol a Phrif Swyddog GwE |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br><br>**Dylid ail-edrych ar y math o gefnogaeth a roddir i rôl llywodraethwyr er mwyn ei wneud yn fwy addas i bwrpas yng nghyd-destun y rhaglen ansawdd** |

| **F. Cyswllt gyda Disgyblion** |
|---|
| **Canfyddiadau** –<br><br>**Mae'r Ymchwiliad wedi elwa'n fawr o wrando ar lais disgyblion sydd wedi cynnig perspectif pwysig i'r trafodaethau. Mae angen sefydlu trefn i sicrhau bod llais disgyblion i'w glywed yn glir i'r dyfodol**<br><br>• Angen sicrwydd bod mewnbwn Cynghorau Ysgol yn effeithiol ac yn rhoi cyfle i gynnig sylwadau eang ar ansawdd addysg<br>• Angen sicrhau trefniadau fel bo Llywodraethwyr yn cael cyfle i wrando ar lais disgyblion<br>• Angen trefn reolaidd yn yr Awdurdod er mwyn ceisio a gwrando ar farn disgyblion |
| **Ffynhonnell y Dystiolaeth** –<br><br>Sesiynau gyda disgyblion mewn 6 ysgol |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br><br>**Dylid sicrhau trefn reolaidd i ddod â llais disgyblion ar ansawdd addysg i fewn i sylw llywodraethwyr yn eu cyfarfodydd ac i sylw'r Awdurdod** |

# ATODIAD 1

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

## YMCHWILIAD ANSAWDD ADDYSG

## CRYNODEB O'R CWESTIYNAU A OFYNWYD I'R PENAETHIAID

Holwyd Penaethiaid 6 ysgol uwchradd fel rhan o'r cwestiynau. Dyma restr o'r prif gwestiynau a ofynnwyd iddynt:

**<u>Cwestiynau</u>**

1. Fedrwch chi roi cyflwyniad byr yn rhoi cefndir yr ysgol, a'ch profiad fel pennaeth. Beth yw eich gweledigaeth ar gyfer yr ysgol?

2. Mae'r ysgol wedi perfformio'n dda / yn siomedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf? Beth yw'r rhesymau dros hyn a sut mae cynnal safonau?

3. Fedrwch chi ymhelaethu ar yr arferion da - beth sydd wedi gweithio, a beth nad sydd wedi mynd cystal?

4. Sut ydych chi yn rhannu arfer da yn yr ysgol? Oes yna gydweithio efo ysgolion eraill?

5. Pa gamau a gymerir i sicrhau presenoldeb?

6. Beth sydd yn cael ei wneud i ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol

7. Pa gymorth ydych wedi ei gael gan yr Awdurdod Lleol ?

8. Ydy'r ffaith nad oes yna chweched dosbarth yn yr ysgol yn cael unrhyw ddylanwad?

9. Pa wybodaeth ydych yn ei gael am berfformiad disgyblion - sut y tracir/monitrir hyn? Pwy ddatblygodd y system dracio? Ydy'r system dracio wedi arwain at welliant?

10. Pa systemau rheoli cyllid sydd mewn lle yn yr ysgol?

11. Ydy'r ddemograffeg, y gymdeithas leol, neu leoliad yr ysgol yn cael unrhyw ddylanwad ar safonau cyflawni'r ysgol?

12. Oes problem denu a chadw staff?

13. Oes staff sydd yn dysgu y tu allan i'w harbenigedd, ac os oes pam fo hyn?

14. Pa broblemau a achosir gan staff yn dysgu y tu allan i'w harbenigedd, a pha gymorth y mae'r rhain yn ei gael?

15. Sut y monitrir staff sy'n tangyflawni?

16. Pa ran sydd gan Lywodraethwyr i'w chwarae mewn gwella perfformiad mewn ysgolion? Fedrwch chi ddisgrifio eu rôl yng nghyd-destun yr ysgol?

17. Pa ran sydd gan rieni i'w chwarae yn natblygiad eu plant a gwella perfformiad mewn ysgol?

18. Pa fath o berthynas sydd rhwng yr ysgol â'r rhieni?

19. Faint o blant sydd yn astudio cyrsiau galwedigaethol yn CA4? Pa effaith mae hyn yn ei gael ar ganlyniadau TGAU'r ysgol - h.y. oes rhai disgyblion sydd yn astudio cyrsiau galwedigaethol nad sydd wedyn yn eistedd TGAU?

20. Beth yw eich barn am ddefnyddio'r teuluoedd PYD i fesur perfformiad?

21. Pa effaith mae amddifadedd gwledig yn ei gael ar yr ysgol, ac ar ei chanlyniadau? Oes yna amddifadedd gwledig nad sydd yn cael ei adlewyrchu yn y ffigurau PYD? Ydy'r ffigwr PYD yn adlewyrchu gwir amddifadedd dalgylch yr ysgol?

22. Mae yna wahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad bechgyn a merched, mewn rhai pynciau. Oes yna reswm dros hyn? Ydy amddifadedd yn ffactor?

23. Beth yw'r berthynas rhwng yr ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd yn eich dalgylch? Ydy safon yr addysg yn yr ysgolion cynradd yn effeithio ar berfformiad disgyblion yn yr ysgol uwchradd?

24. Beth yw eich barn am y pegynnu a'r anghysondeb rhwng ysgolion yng Ngwynedd? Sut yn eich barn chi mae gwella safonau addysg yng Ngwynedd a lleihau'r pegynnu a'r amrywiaeth mewn ansawdd addysg yn y Sir?

25. Pe byddech yn gorfod nodi tri pheth fyddai'n arwain at wella ansawdd addysg, beth fyddai'r rheini?

# ATODIAD 2

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

## YMCHWILIAD ANSAWDD ADDYSG

## SYLWADAU A CHRYNODEB O BRIF GASGLIADAU CYFARFODYDD Y PENAETHIAID

Holwyd Penaethiaid 6 ysgol uwchradd fel rhan o'r ymchwiliad**.** Dyma grynodeb o brif gasgliadau'r holi:

### Cyffredinol

- Pennaeth da yn allweddol i lwyddiant ysgol. Pennaeth da yn gosod uchelgais, gweledigaeth ac yn ysgogi.

- Gall Pennaeth Strategol ganolbwyntio ar wella ansawdd addysg drwy beidio â gorfod treulio amser ar y gweithgareddau gweinyddol sy'n codi o ddydd i ddydd.

- Mae angen hyfforddiant mwy perthnasol i Benaethiaid. Y cymhwyster CPCP ddim yn ddigon o baratoad ar gyfer bod yn Bennaeth. Rhaid i hyfforddiant ddysgu Pennaeth sut i redeg ysgol fel busnes, ac o ran cyllid.

- Y berthynas rhwng y Corff Llywodraethol a'r tîm rheoli yn holl bwysig. Dyletswydd ar y Pennaeth i sicrhau fod y corff llywodraethol yn herio ac yn cael y wybodaeth gywir er mwyn medru gwneud eu gwaith yn iawn.

- Perthynas dda a heriol adeiladol rhwng y Pennaeth a'r athrawon yn medru ysgogi athrawon i ddysgu'n well.

- Ansawdd addysg yn ddibynnol ar ffactorau hollol ymarferol a'r systemau mewnol sydd gan ysgol i sicrhau a chynnal ansawdd addysg.

- Tracio disgyblion yn effeithiol yn hanfodol

- Gwahaniaethau rhwng canlyniadau CA3 a CA4 oherwydd mai asesiad mewnol yw CA3.

- Athrawon da yn golygu addysg dda.

- Athrawon sydd gyda gweledigaeth ac yn ysbrydoli yn cael gwell canlyniadau.

- Tracio athrawon – sef ymweld ac arsylwi gwersi, edrych ar y marcio yn arwain at welliant.

- Undebau'r athrawon yn mynegi pryder am arsylwi gwersi.

- Safoni'r drefn farcio a gwaith cartref o fewn ysgol yn arwain at welliant.

- Angen ennyn diddordeb y rhieni a chysylltu â hwy yn effeithiol. Gwneith hyn hybu ymdrech a chyfranogiad rhieni i sicrhau llwyddiant eu plant.

- Er mwyn magu perthynas dda gyda'r rhieni rhaid gwneud mwy na chynnal nosweithiau rhieni-athrawon, ond cynnal gweithgareddau sy'n dod â hwy yn rhan o'r gymuned a'r ysgol.

- Holi barn y rhieni am addysg yn yr ysgol yn ffordd o gael dealltwriaeth o beth ellir ei wneud i wella.

- Mae'n bwysig fod y rheini yn deall targedau'r disgyblion, y system dracio a'r wybodaeth a roir i rieni am eu plant.

- Perthynas dda rhwng y rheini a'r ysgol yn gwella lefel presenoldeb.

- Ethos ac awyrgylch ysgol o gymorth i wella presenoldeb.

- Athrawon yn dysgu y tu allan i'w harbenigedd pwnc yn broblem.

- Anodd cael athrawon llanw.

- Mae ysgol fach o ran nifer  yn medru golygu gwell adnabyddiaeth gan y Pennaeth a'r athrawon o'r disgyblion.

- Ysgolion sydd wedi dilyn cyrsiau BTEC yn cael canlyniadau gwell - a phwysau felly ar ysgolion eraill i ddilyn y drefn yma er mwyn cael canlyniadau gwell.  Fodd bynnag, gall hyn fod yn enghraifft o flaenoriaethu canlyniadau ar draul safon addysg.

- Mae rhai ysgolion cynradd yn gorfarcio'r disgyblion.  Dylid cysoni'n well y marcio yn y cynradd, oherwydd gall disgyblion gyrraedd yr uwchradd gyda'u safon cyrhaeddiad yn is nag ydyw mewn gwirionedd.  Mae hyn yn effeithio ar allu athrawon yn yr uwchradd i'w dysgu'n effeithiol.

- Rhaid i ddisgyblion gyrraedd yr uwchradd gyda'r sgiliau sylfaenol - meistrolaeth o ramadeg a thablau.  Mae diffyg meistrolaeth mewn llythrennedd a rhifedd sylfaenol yn y cynradd yn amharu ar y safon dysgu yn yr uwchradd.

- Gall seilio cymaint o fesuriadau perfformiad ysgol ar y teuluoedd cinio am ddim gamarwain, gan fod newid mewn nifer fechan o blant yn medru cael effaith ar ba deulu y mae ysgol wedi ei lleoli.  Mae hyn yn enwedig o wir mewn ysgolion sydd yn llai o ran nifer disgyblion.

- Mae mesuriadau perfformiad cyfredol yn gorbwysleisio'r pynciau craidd ar draul y pynciau eraill.

- Er y gellir croesawu mentrau ac ymyrraeth Llywodraeth Cymru ym maes addysg, mae'r  rhain yn gynyddol niferus ac mae'r cyflymder newid  yn cael cryn effaith  ar faich gwaith athrawon a Phenaethiaid ysgolion, gan effeithio ar y dysgu o ddydd i ddydd.

- Dim ond wrth ymdrech barhaus gan y Pennaeth, y tîm rheoli a'r athrawon wnaiff ysgol lwyddo i godi a chynnal safonau.

**Yr Awdurdod Addysg**

- Dim digon o gefnogaeth wedi bod gan yr Awdurdod o ran rhoi cyngor ar gamau medrusrwydd, a sut i weithredu trefn fedrusrwydd yn effeithiol.

- Byddai hyfforddant i Benaethiaid a llywodraethwyr ar gamau medrusrwydd yn ddefnyddiol.

- Gallai'r Awdurdod herio ysgolion yn fwy.

- Ychydig o gefnogaeth sydd gan yr Awdurdod i Benaethiaid pan eu bod yn newydd yn eu swydd.  Byddai mwy o gysylltiad rhwng yr Awdurdod a Phennaeth newydd pan y'i penodir yn beth da.

- CYNNAL yn cael canmoliaeth, yn enwedig rôl yr ymgynghorydd pwnc. Fod bynnag, efallai fod yna orddibyniaeth ar CYNNAL ar draul cefnogaeth gan yr Awdurdod.

- Mae Mathemateg yn broblem, ond does dim strategaeth wedi bod gan yr Awdurdod i'w wella.

**Mathemateg**

- Dim cynllunio ar lefel strategol a/neu ranbarthol yn y pwnc.

- Safon y dysgu gan athro unigol yn greiddiol i lwyddiant disgyblion yn y pwnc.

- Ffactorau sydd yn dylanwadu ar ganlyniad Mathemateg yn cynnwys ansawdd y dysgu yn ystod cyfnod addysg gynradd.  Rhaid i ddisgyblion fod yn hyddysg mewn egwyddorion sylfaenol rhifedd, e.e. tablau cyn cyrraedd yr uwchradd.

- Denu athrawon Mathemateg yn broblem, yn enwedig yn ysgolion uwchradd ardaloedd gwledig Gwynedd.

- Mae gwelliant mewn safon cyflawniad Mathemateg pan fo’r pwnc yn cael ei ddysgu mewn modd ymarferol.

- Gall gweithdai arolygu a gwersi Mathemateg ar ôl ysgol wella safonau.

**Enghreifftiau o arfer da**

- Os oes bwlch rhwng cyflawniad bechgyn a marched, gall gweithio creadigol gyda bechgyn e.e. dewis llyfrau addas, nofelau mwy cyfoes sydd yn fwy tebygol o apelio at fechgyn weithio.

- Tracio disgyblion yn drawsadrannol

- Peidio gadael i unrhyw adran dangyflawni - monitro ac ymyrryd yn gynnar os oes problem.

- Cadw Blwyddyn 11 yn yr ysgol tan ddiwedd y cyfnod arholiadau

- Gwreiddioldeb a hyblygrwydd o ran yr amserlen, e.e. bandio Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda’i gilydd.

- Creu partneriaeth rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i ddatblygu rhifedd a llythrennedd

- Defnyddio disgyblion 6ed dosbarth i ddarllen gyda Blwyddyn 7.

- Cynnal sesiynau dysgu ac adolygu ychwanegol - ar ddiwedd diwrnod ysgol ac ar benwythnosau

’ .

- Cydweithio rhwng ysgolion yn gallu golygu rhannu profiadau, er bod pellter teithio rhwng rhai ysgolion a’i gilydd yn medru amharu ar rwyddineb hyn

- Gwella cysondeb marcio - Tîm Rheoli yn craffu llyfrau disgyblion bob hanner tymor gan ddewis sampl o’r flwyddyn.  Penaethiaid adran i graffu bob mis.

- Dysgu thematig.

- Samplu gwaith y disgyblion yn fisol.

- Sefydlu gweithdrefnau cyson a ffurfiol sydd yn wybyddus i bawb o fewn yr ysgol.

- Trefn reolaidd o brofion ac arholi mewnol.

- Gweithdai/gweithgareddau rhieni - sesiynau anffurfiol er mwyn i'r ysgol dod i adnabod y rhieni, ac i'r rhieni dod i adnabod yr ysgol. Mae gwell adnabyddiaeth o'r rhieni, yn golygu ffurfio perthynas sydd yn hybu cyfranogiad y rhieni yn llwyddiant addysgol eu plant.

# ATODIAD 3

**BRIFF CYFARFOD YMCHWILIAD ANSAWDD ADDYSG GYDA DR BRETT PUGH UNED SAFONAU YSGOLION LLYWODRAETH CYMRU 8 CHWEFROR 2013**

Fel rhan o'i gyflwyniad, rydym wedi gofyn i Brett Pugh ymdrin â'r canlynol:-

- Cyflwyniad byr yn amlinellu ei rôl a swyddogaethau'r Uned Safonau Ysgolion.
- Rhoi trosolwg o berfformiad ar draws Cymru (gan gynnwys perfformiad yr awdurdodau addysg a'r 4 Consortiwm Addysg yng Nghymru).
- Yng nghyd-destun Cymru gyfan, darparu crynodeb byr o'r materion sydd yn amlygu eu hunain ar lefel Gogledd Cymru. Pa ffactorau cadarnhaol a pha ffactorau negyddol sydd wedi amlygu eu hunain o safbwynt ansawdd addysg yng Ngogledd Cymru?
- Dadansoddiad byr o'r ffactorau sydd yn amlygu eu hunain yng Ngwynedd (gan gyfeirio at effaith a dylanwad system fandio Llywodraeth Cymru).
- Ei farn ynglŷn â chau'r bwlch mewn perfformiad rhwng gwahanol blant a grwpiau.
- Enghreifftiau o ymarfer da o ysgolion yng Nghymru sydd wedi arwain at wella perfformiad a chyrhaeddiad, ac a allai fod o fudd i ddisgyblion Gwynedd.
- Ei farn ar sut y gall RSEIS gyfrannu at godi safonau yng Ngwynedd.

**Awgrymiadau o gwestiynau posib i'w gofyn i Dr Brett Pugh**

1. Ei farn ar rôl yr awdurdod lleol yng Ngwynedd - h.y. pa mor dda mae'r awdurdod addysg yn perfformio ar hyn o bryd ac ydynt yn debygol o allu gwella pethau?
2. Ei farn am beth y gellir ei wneud i wella ansawdd addysg uwchradd yng Ngwynedd, yn enwedig i ddelio â'r broblem o begynnu.
3. Ei farn am benderfyniad yr awdurdod i benodi Pennaeth Strategol yn y Moelwyn/Berwyn.
4. Ei farn am rôl llywodraethwyr - beth sydd angen ei wneud i arfogi llywodraethwyr i'w galluogi i gyfrannu yn effeithiol a pherchnogi rhaglen gwella ansawdd addysg fesul ysgol.
5. Ei farn am raglen hyfforddiant staff yr awdurdod.

# ATODIAD 4

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU**

NODIADAU

8 CHWEFROR 2013

**Ymchwiliad Craffu i Ansawdd Addysg - Cyflwyniad gan Dr Brett Pugh, Yr Isadran Cyflawni a Safonau Ysgolion**

**<u>Presennol</u>**

**Y Cynghorwyr**:- Alwyn Gruffydd, Siôn Wyn Jones, Dewi Owen, Liz Saville Roberts a Canon Robert Townsend.

**Swyddogion**: Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Vera Jones (Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd) Huw Rowlands (Swyddog Gwella Perfformiad Cynorthwyol) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad**: Y Cyng. Dyfrig Siencyn

Bu i Ganon Robert Townsend gadeirio'r cyfarfod.

**1. CYFLWYNIAD GAN DR BRETT PUGH, YR ISADRAN CYFLAWNI A SAFONAU YSGOLION**

Estynnwyd croeso i Dr Brett Pugh i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd iddo am dderbyn y gwahoddiad i roi cyflwyniad i'r Ymchwiliad Craffu.

Amlinellodd Dr Pugh ei yrfa gefndirol fel ymarferydd dysgu dros 20 mlynedd a'i benodiad diweddar drwy wahoddiad gan Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru i'r swydd o Bennaeth yr Isadran Cyflawni a Safonau Ysgolion. Esboniodd y sefydlwyd yr Isadran fel catalydd i greu uchelgais i wella canlyniadau plant o 3 - 16 oed. Mae'n cefnogi gwelliant drwy ganolbwyntio ar y "sut" o weithredu polisïau, yn hytrach na'r "beth" o ddatblygu polisi. Nodwyd bod gan yr Isadran gyfrifoldeb dros fireinio'r defnydd o ddata; cryfhau atebolrwydd; sicrhau rhannu cyson o ymarfer dda a gwerthuso gweithredu polisi.

Amlinellwyd rôl yr Isadran a fydd o gymorth i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer disgyblion yng Nghymru:

(i) **Data a dadansoddi**

(a) dadansoddi data perfformiad a chreu dealltwriaeth ar y cyd o'r heriau sy'n wynebu ysgolion
(b) arwain y broses genedlaethol o fandio ysgolion a thynnu ynghyd ffynonellau data yn set gydlynol i'w defnyddio gan gonsortia ac awdurdodau lleol
(c) arwain prosesau atebolrwydd gan gynnwys data megis datblygu targedau a phroffiliau ysgolion

(ii) **Cynllunio a gallu**

(a) gweithio'n agos gyda chonsortia ac awdurdodau lleol i ganfod a rhannu ymarfer dda ar sail gyson
(b) cefnogi cynllunio cydlynol a meithrin gallu wedi ei ganolbwyntio ar sut i godi safonau a lleihau bylchau
(c) sicrhau bod y Cynllun Gwella Ysgolion yn cyflwyno arferion gwella craidd ledled y system trwy gyfrwng rhaglen rheoli perfformiad cadarn.

(iii) **Arferion ac Ymateb**

(a) arwain archwiliadau gyda chonsortia i adolygu cynnydd yn rheolaidd a bod yn rhan o'r system gefnogaeth a her gyda chonsortia, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru
(b) cynnal adolygiadau cyflym i werthuso ansawdd gweithredu polisi
(c) cynhyrchu adroddiadau adborth ar y cynnydd o ran gwella canlyniadau a gweithredu polisi

Ychwanegodd Dr Pugh bod 6 Gweision Sifil ynghyd a 6 Pennaeth wedi eu secondio (sydd yn gweithio 30 diwrnod y flwyddyn) yn rhan o'r Isadran ac fe gynhelir cyfrif stoc drwy gynnal sesiynau o edrych ar berfformiadau ysgolion o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allwedd 3 /4. Dilynir y sesiynau hyn drwy weithrediadau sydd yn cael eu cyflwyno i Arweinyddion Cynghorau, Prif Weithredwyr, Aelodau Cabinet a Chyfarwyddwyr Addysg.

Cynhelir adolygiadau drwy gynadleddau gyda Phenaethiaid ac fe edrychir ar adroddiadau adborth a chynnal adolygiadau capasiti.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn â pherfformiadau gwael, esboniodd Dr Pugh ei fod ef yn atebol yn uniongyrchol i'r Gweinidog Addysg ac fe sicrhaodd y byddai'n lleisio barn os gwêl sefyllfaoedd amhriodol.
Pe byddai safonau ddim yn codi, roedd Dr Pugh o'r farn bod yn rhaid newid y broses. O'i brofiad mewn gweithio ag ysgol benodol gwelwyd enghraifft o safonau'n codi drwy weithredu sustem tracio lym ym Mlwyddyn 7.

Cyfeiriwyd at berfformiad o ran darllen, mathemateg a gwyddoniaeth yn ôl gwahanol wledydd ar sail sgôr gymedrig PISA yn 2009.

Mewn ymateb i sylw wnaed gan Aelod ynglŷn â rôl yr awdurdod hwn i uchafu safonau yn y TL2+ a chyfeiriwyd at gymhariaeth mewn ysgol yn Lloegr a oedd yn rhannu run cymeriad a rhai ysgolion Cymru, eglurodd Dr Pugh bod y ffactorau isod yn dylanwadu ar y perfformiad yn Lloegr ac nid wedi bod yn rhan o'r system yng Nghymru:

(1) bod yr ysgolion yn Lloegr (yng Ngogledd Harrow) wedi profi newid mewn arolygiadau gan OFSTED a oedd yn llawer llymach nag ESTYN yng Nghymru

(2) Her fforensig i'r ysgolion

(3) edrych ar y ffyrdd o addysgu, gweithio gyda Phenaethiaid Adrannau yn enwedig Mathemateg

Cyfeiriwyd Aelodau'r Ymchwiliad Craffu at berfformiad ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru ers 2008 gan nodi asesiadau cynradd, perfformiad cyfartalog a pherfformiad yn erbyn dangosydd prydau ysgol am ddim.

Tynnwyd sylw at berfformiad hanesyddol disgyblion sy'n cyrraedd lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg sydd oddeutu 51% ac uchelgais Llywodraeth Cymru yw cynyddu'r ganran i 65% i'r dyfodol.

Tywyswyd Aelodau drwy'r graffiau perfformiad dros y 3 blynedd diwethaf a oedd yn dangos:

(a) cymhariaeth blwyddyn 2010,2011 a 2012 drwy ystyried rhanbarthau o Gymru yn ogystal â Chymru gyfan yn erbyn canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni'r trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg. Gwelwyd cynnydd ar draws y rhanbarthau yn 2012.

(b) Cymhariaeth rhwng awdurdodau Gogledd Cymru yn erbyn canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni'r trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg. Gwelwyd cynnydd esgynnol dros y 3 blynedd.

Cymhariaeth perfformiad awdurdodau Gogledd Cymru ar gyfer 2012 yn erbyn canran disgybl 15 oed yn cyflawni. Gwelwyd canran uchel yn rhagori ar lefel 2 Cymraeg Iaith Gyntaf gyda chanran is ar lefel 2 Saesneg a lefel 2 Mathemateg.

Ar ddiwedd blwyddyn gyntaf bandio ysgolion:

- Bu gwellhad mewn 61 o'r 79 ysgol ym Mandiau 4 a 5
- Gwelwyd cyfartaledd Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg ysgolion Band 4 yn cynyddu o 41.7% yn 2011 i 46.5% yn 2012.
- Gwelwyd cyfartaledd Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg ysgolion Band 5 yn cynyddu o 36.0% yn 2011 i 41.8% yn 2012.
- O'i gymharu dim ond 31 o'r 80 ysgol ym Mand 1 a 2 welodd welliannau.

Felly mae angen codi'r uchelgais.

Gwelwyd cynnydd sylweddol ym Mandiau 4 a 5 ledled y wlad yn nifer y disgyblion 15 oed a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf / Saesneg a Mathemateg rhwng 2011 a 2012.

Blaenoriaeth y Gweinidog Addysg yw gwella perfformiad mewn llythrennedd, rhifedd a chyrhaeddiad disgyblion mewn ardaloedd difreintiedig.

O'i brofiad yn y maes addysg a thrwy ymweliadau ag ysgolion, amlygodd Dr Pugh y materion isod i'w hystyried:

(a) o safbwynt llythrennedd pwysleisiwyd yr angen i weithio'n agos ac i gynnal profion darllen gyda disgyblion 7/8 oed er mwyn datblygu eu cyrhaeddiad darllen. O'i brofiad fel Cyfarwyddwr Addysg yng Nghasnewydd gwelwyd tystiolaeth o gynnydd yng nghyrhaeddiad darllen disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 o fod wedi targedu'r disgyblion yn y sector cynradd.

(b) diffyg gan ddisgyblion i wybod eu tablau ac o ganlyniad yn cyfrannu at danberfformiad mewn Mathemateg

(c) dylid adeiladu partneriaeth effeithiol i athrawon:

- ddatblygu llythrennedd a rhifedd;
- datblygiad proffesiynol parhaus;
- arweinyddiaeth
- technoleg gwybodaeth

(ch) dylid sicrhau datblygu effeithiol o rifedd yn yr ysgolion cynradd. Amlinellodd esiamplau gwych yn Ysgol Cae Top, Bangor, lle gwelir disgyblion 7 oed yn deall y cysyniad o ffracsiynau. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyflwyno agwedd o fedru gwneud Mathemateg ar ddechrau gyrfa ysgol plentyn yn y Cyfnod Sylfaen, drwy ei gyfuno gyda gweithgareddau ymarferol megis:

- mesur pwysau mewn gwers coginio
- cyflwyno mesurau drwy gynllunio i adeiladu tŷ

O safbwynt y sector uwchradd, dylid dewis athrawon cymwys ar gyfer gwahanol setiau. Gwelwyd esiamplau da yn Ysgol Syr David Hughes. Byddai'n fuddiol hefyd i gysylltu ag Ysgol Uwchradd John Summers, Fflint, i ganfod arferion da a weithredir yno mewn gwersi Mathemateg.

(d) dylid gofyn i ysgolion amlinellu eu harferion da yn ogystal â holi beth a wneir i ymateb yn benodol i danberfformiad Mathemateg wrth gynllunio'n strategol; gofyn sut maent yn cyd-weithio hefo rhieni.

(dd) gellir cyflwyno cynlluniau "Rhieni a Disgyblion gyda'i Gilydd"; pamffledi ar gyfer rhieni i ddatblygu sgiliau mathemateg gyda'u plant.

(e) cysylltu â Karen Evans, Cyfarwyddwr Addysg Sir Ddinbych, i'w gwahodd i rannu profiadau ac arferion da yn y Sir honno.

(f) bod tracio perfformiad pob disgybl yn bwysig er mwyn ceisio gwella perfformiad mathemateg ynghyd a sicrhau technegau dysgu addas.

(ff) yr angen i fod yn ddidostur gyda staff nad ydynt i fyny i safon i gefnogi disgyblion.

(g) defnyddio'r holl wybodaeth i fod yn rhagweithiol; edrych ar sustemau ysgolion academïau.

(h) Edrych ar ymarferion lle gwelir cynnydd yng nghyrhaeddiad disgyblion lefel 2 megis safonau yn Tower Hamlets yn Lloegr. Tra'n derbyn nad oedd yn ardal lewyrchus o ran economi, roedd Dr Pugh o'r farn bod yr athrawon wedi ffocysu'n gywir i gynnal disgyblion a chael canlyniadau da. Roedd o'r farn bod maint dosbarthiadau o 15 neu is yn ddylanwad ar gyraeddiadau. Nodwyd bod llawer o wybodaeth ryngwladol ddefnyddiol ar gael yn benodol ynglŷn â pherfformiad ysgolion preifat.

(i) bod 10 ysgol uwchradd allan o 14 yng Ngwynedd o fewn y system bandio i'w canmol ond bo perfformiad 4 ysgol wedi dirywio sydd wrth gwrs yn fater o bryder.

(j) dylai Penaethiaid ysgolion uwchradd gyda niferoedd llai feddu ar wybodaeth drwyadl ac adnabod y disgyblion yn well. Ychwanegwyd bod ysgolion bach yn fwy cyfnewidiol ac nad oedd anweddolrwydd yn y system bandio. Gwelir cryfder yn y model o benodi Pennaeth Strategol ar gyfer Ysgolion y Moelwyn a'r Berwyn a'i fod yn ffordd o symud ymlaen a bod yn llawer mwy cyfundrefnol. Byddai'n llawer iawn gwell i ddenu Pennaeth da ar ddwy ysgol ac i weithredu cynllun strategol er mwyn gwella ansawdd yr addysgu.

(k) Rhaid sicrhau lledaenu arferion da i ysgolion; adnabod arweinyddion ysgolion cymwys; cyflwyno grantiau bychan i gefnogi ysgolion. Cyfeiriwyd at sialens ym Manceinion dan arweiniad yr Athro Mel Ainscow lle buddsoddwyd arian sylweddol i wella canlyniadau ysgolion oedd yn tanberfformio, gwella cyraeddiadau disgyblion difreintiedig ac i greu ysgolion o ansawdd eithriadol. Dylid annog ysgolion i ymgeisio am grantiau fel bo modd iddynt ehangu Timau Rheoli ysgolion.

Tra'n derbyn a chytuno gyda'r pwyntiau uchod, nododd Aelodau'r Ymchwiliad bod rhai ohonynt yn creu anawsterau:

(i) anodd recriwtio athrawon Mathemateg sy'n arbenigwyr yn y pwnc
(ii) anodd cael gwared ag athrawon sydd ddim i fyny i safon oherwydd rheolau cyflogaeth, a.y.b.
(iii) tra'n derbyn y byddai cyfundrefn o benodi Penaethiaid Strategol ar ddwy ysgol yn gweithio'n llwyddiannus mewn trefi, bod cryn bellter teithio rhwng ysgolion uwchradd yng Ngwynedd ac o'r herwydd yn ei wneud yn anodd ei weithredu'n effeithiol
(iv) bod gormod o newid polisïau a gweithdrefnau addysg gan Lywodraeth Cymru o'i gymharu â gwledydd eraill sy'n cael llonyddwch megis Y Ffindir lle gwelir bod ysgolion yn perfformio'n dda.

I gloi, yn dilyn cais i Dr Pugh o'i brofiad o gyfweld Penaethiaid / Athrawon ac ymweliadau ysgolion i amlinellu tri argymhelliad yn ei dyb ef fyddai'n werthfawr o ran gweithredu arnynt, fe nododd y canlynol:

(1) Adeiladu hyder mewn athrawon y sector cynradd i fod yn athrawon rhifedd da
(2) Meithrin y gallu i ddatblygu arweinyddiaeth gan arweinwyr canol i Benaethiaid
(3) Cael dyhead i symud y tu hwnt o'r hyn sy'n dda yng Nghymru h.y. cael y lefel cyrhaeddiad yn fwy na 85%

Ychwanegodd drwy nodi y byddai'n syniad i'r Ymchwiliad Craffu yn deillio o ganlyniadau'r ymchwiliad i awgrymu model i'r Aelod Cabinet Addysg fel man cychwyn ar gyfer y dyfodol.

**Cyfeirnodau ac ymchwil pellach**:


Yr Athro Ben Levin – Prifysgol Toronto : http://www.naht.org.uk/welcome/news-and-media/magazines/features/ben-levin-on-leadership/

Michael Fullan: Educational Change:
http://www.personal.psu.edu/users/w/x/wxh139/Fullan.htm

Robert Hill: Role of the Local Authority as a commissioning authority

# ATODIAD 5

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU**

NODIADAU

26 MAWRTH 2013

**Ymchwiliad Craffu i Ansawdd Addysg - Cyflwyniad gan Mr Geraint Rees, Pennaeth Gweithredol Ffederasiwn Coleg Llanfihangel ac Ysgol Glyn Derw, Trelai, Caerdydd**

**<u>Presennol</u>**

**Y Cynghorwyr**:- Alwyn Gruffydd, Beth Lawton, Liz Saville Roberts a Dyfrig Siencyn.

**Swyddogion**: Huw Rowlands (Swyddog Gwella Perfformiad Cynorthwyol) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad**: Parchedig Robert Townsend

Estynnwyd croeso i Mr Geraint Rees i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Liz Saville Roberts a diolchodd iddo am gytuno i roi cyflwyniad i'r Ymchwiliad Craffu.

Amlinellodd Mr Geraint Rees ei yrfa gefndirol gan nodi ei fod wedi bod yn ymarferydd dysgu am 27 mlynedd mewn cyd-destunau amrywiol iawn sef yn Kenya, mewn carchar, ysgolion a choleg addysg bellach. Bu yn Bennaeth cychwynnol ar Ysgol Plasmawr, Caerdydd am 10 mlynedd ac ers 2011 yn Bennaeth ar Ffederasiwn Uwchradd Trelai.(Coleg Llanfihangel ac Ysgol Glyn Derw, Trelai, Caerdydd).

Bu iddo gael ei secondio i'r Sir fel uwch swyddog yn yr Adran Addysg am 3 blynedd ac fe'i secondiwyd i Lywodraeth y Cynulliad i weithio ar lunio'r Strategaeth Addysg Gymraeg am chwe mis.

O safbwynt y boblogaeth, roedd oddeutu 35,000 yn byw ar stad Cyngor yn Nhrelai gyda chymuned ddi-freintiedig iawn, gyda phroblemau cymdeithasol, a llawer o'r plant yn cwrdd â galar yn rheolaidd.

Penderfynwyd dod â Coleg Llanfihangel ac Ysgol Glyn Derw at ei gilydd oherwydd dirywiad yn ansawdd safonau addysg yn y ddwy ysgol. Her i Geraint Rees fel Pennaeth ydoedd codi'r safonau mewn ysgolion lle roedd dangosydd prydau ysgol am ddim yn 49% a 37%. O safbwynt canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 yn y 1990au roedd oddeutu 10-15% o'r disgyblion yn llwyddo i gael lefel 2. Glynwyd ar 30-35% trwy'r 2000au gyda oddeutu 15-20% yn llwyddo i gael lefel 2 yn cynnwys Saesneg a Mathemateg. Roedd 20-25% yn diflannu o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Roedd presenoldeb disgyblion yn yr ysgolion tua 80% yn yr un cyfnod ar draws y flwyddyn.

Bu mynd drwy'r broses o gau'r ddwy ysgol uchod pedair blynedd yn ôl a'u huno fel coleg ac ysgol ffederal yn chwalfa llwyr a gadawodd y ddau Tim Rheoli'r ysgolion, ond fu dim newid yn y staff. Roedd oddeutu 700 o ddisgyblion yn un o'r ysgolion gyda ychydig llai na 600 yn y llall. Cyflogir 75 o athrawon, 25 cymhorthyddion a 9 o

weinyddwyr yn yr ysgolion uchod. Mae oddeutu $2^1/_2$ milltir o bellter rhwng yr ysgolion sydd yn golygu deng munud o deithio mewn car.

Yn yr achos hwn, roedd Mr Geraint Rees o'r farn bod pegynnu'n digwydd oherwydd bod y drefn gymdeithasol yn pegynnu'r gymdeithas yn enwedig mewn ardaloedd poblog, (y cyfoethog mewn un cymuned a'r tlodion mewn un arall) a bod ysgolion felly'n elwa neu'n dioddef oherwydd hyn.. Roedd o'r farn fod pobl yn rhy barod i dderbyn disgwyliad isel, ac yn credu mai dyna'r norm. Roedd Estyn hefyd yn rhy barod i dderbyn y sefyllfa. Rhy hawdd oedd derbyn a defnyddio amddifadedd fel esgus dros fethiant.

Pam bod ansawdd safonau a darpariaeth Cyfnod Allweddol 3 yn gyffredinol gadarn ar draws ysgolion yr awdurdod? Esboniodd y Pennaeth bod yn rhaid i staff ddeall lefelau CA3 a'i hannog i farcio i'r safonau iawn gan geisio darganfod gwaelodlin.

Esboniwyd sut y taclwyd y broblem yn Nhrelai gyda'r ddwy ysgol, yn dilyn arolygiad gan ESTYN, a oedd wedi eu categoreiddio fel "un gyda gwendidau sylweddol" a'r llall yn "cael ei monitro". Nod y flwyddyn gyntaf sef 2011/2012 ydoedd gwella presenoldeb o 86% a gwella canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 drwy ddynodi targedau eglur iawn a'r angen i gynyddu'r canlyniadau o 35% i dros 50% ar gyfer lefel 2. Yn ogystal, roedd angen mynd o 19% i 30% yn lefel 2 yn cynnwys Saesneg a Mathemateg.

Amlinellwyd y camau a gymerwyd i godi safonau:

- Newid disgwyliadau
- Tracio, tiwtora, targedu, creu cystadleuaeth
- Her, cefnogaeth a hyfforddiant i staff
- Defnyddio pob cefnogaeth bosibl oherwydd bod pob partner yn cyfrif – TAF, Gwasanaeth Ieuenctid, cwmnïau lleol
- Cydweithio gyda gwasanaethau lleol megis meddygon, deintyddion, i sicrhau apwyntiadau tu allan i oriau ysgol o ran cynyddu presenoldeb

O safbwynt disgwyliadau, eglurwyd i'r staff bod yn rhaid cynyddu canlyniadau lefel 2 ar frys a rhoddwyd targedau iddynt i gyrraedd 50% erbyn yr haf, 60% erbyn yr haf canlynol a 70% yn y drydedd flwyddyn. Cyrhaeddwyd 62% mewn un tro gyda 32% yn cyflawni lefel 2+ yn cynnwys Saesneg a Mathemateg. Yn hyn o beth felly, roedd trwch y staff wedi codi mewn balchder. Roedd y ddwy ysgol wedi ymateb i'r disgwyliadau yn wahanol ac fe greuwyd elfen o gystadleuaeth rhyngddynt a oedd yn gymorth i godi safonau.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn a sut yr ysbrydolwyd y staff i newid disgwyliadau, esboniodd y Pennaeth bod gosod y targedau yn creu teimlad ei fod yn werth anelu ato. Nid oedd esgus bod tlodi yn gorfodi methiant.

Yng nghyd-destun presenoldeb, gwelir welliant i 93% erbyn hyn ac fe gyhoeddir sgôr presenoldeb pob disgybl mewn man cyhoeddus ar hysbysfyrddau. Os yw disgybl o dan 86% fe fydd y Swyddog Lles yn ymdrin â'r mater. Canolbwyntir a gweithir yn galed gyda'r disgyblion sydd rhwng 90% - 94% er mwyn ei symud i fyny i 95%. Fe roddir gwobrau i'r plant megis cynnal a mynychu'r Prom blynyddol yr ysgol, mynd am dripiau, a.y.b.

Newidiwyd arferion yn yr ysgolion megis dysgu gyda'r hwyr a chynnal penwythnosau o astudio yng Nghanolfan yr Urdd.

Nodwyd bwysigrwydd bod pob disgybl yn cyfrif ac y dylid ymyrryd a gwelir gwerth yn y sustem tracio i bwrpas:

- Gwybod ble rydym
- Adnabod pob plentyn
- Targedu pob plentyn – pwy ddylai gael ei dargedu a phwy sydd ar y ffin
- Targedu pob grŵp o blant

Yn ogystal fe fyddir yn tracio disgyblion Blwyddyn 11 pob pythefnos ac fe anogir y staff i wneud hyn drwy brynu cacennau iddynt ar brynhawn gwener. Amlinellodd y Pennaeth y sustem dracio lle ceir pob pwnc gyda gwahanol arwyddocâd i'r lliwiau – gwyrdd ar darged, oren ddim cystal a coch ddim cystal o gwbl. 25 disgybl yw'r nifer uchaf o ddisgyblion a ddysgir gan bob athro.

Roedd y Pennaeth yn gredinol mai'r sustem dracio newidiodd sefyllfa'r ysgolion ac o'r farn ei fod wedi creu perthynas am waith rhwng athrawon a disgyblion. Fe ddangosir lluniau o'r disgyblion ar hysbysfwrdd ym mhrif fynedfa'r ysgol i ddangos eu cyrhaeddiad ac mae hyn ym marn y Pennaeth yn eu hannog i weithio'n galetach tuag at eu targedau.

Roedd y sustem dracio felly yn codi awydd i ddysgu ymysg disgyblion. Cyflwynir llythyr i rieni'r disgyblion hynny sydd ar y coch yn nodi awgrymiadau ar gyfer newid ac yn aml gwelir bod y disgyblion hyn yn newid.

Gradd C oedd yr uchaf erioed i'w gyrraedd yn y ddwy ysgol ac roedd y Pennaeth o'r farn bod yn rhaid symud i gael A – C a chael disgyblion i fedru gwneud ceisiadau am lefydd mewn Prifysgol.

Roedd y Pennaeth o'r farn bod potensial am arweinyddion o fewn Tim Rheoli Ffederasiwn y ddwy ysgol ac fe ddylid bod mwy o drosiant fel bo modd i ysgolion wneud gwahaniaeth i blant tlawd. Roedd y gallu gan y Tim Rheoli i fwrw ymlaen i wella ac i gynnal yr ysgolion pe byddai Mr Geraint Rees yn gorfod symud ymlaen i brosiect arall.

**Y Camau Nesaf**

Ymhelaethwyd ar y camau nesaf i'r ysgolion sef:

**(i) Cyfnod Allweddol 3**

Newid y cwricwlwm i Flwyddyn 7 i gynnwys:

Llythrennedd – Saesneg, Daearyddiaeth, Hanes ac Addysg Grefyddol
Rhifedd - Gwyddoniaeth, Mathemateg, TGCh
a Sgiliau Cymdeithasol – Technoleg, Cerdd, Drama, Celf, Cymraeg a Ffrangeg

a bod yr uchod yn digwydd i bawb ym Mlwyddyn 7, hanner a flwyddyn ym Mlwyddyn 8 ac fe geir weld ym Mlwyddyn 9.

**(ii) Datblygu Hyfforddiant**

Drwy:

- Cefnogaeth a her
- Hyrwyddo arfer dda

- Prynhawniau Llun - anfonir y plant adref awr ynghynt ar brynhawniau Llun yn ystod tymor yr haf er mwyn cynnal $2^1/_2$ awr o hyfforddiant codi safonau i'r staff cyfan mewn gwesty lleol. Creuir cynllun hyfforddiant mewnol i'r ysgol ac fe ddefnyddir unigolyn o'r tu allan os nad oes rhywun mewnol ar gael. Teimlai'r Pennaeth nad oedd angen prynu hyfforddiant i mewn gan Gonsortiwm oherwydd bod angen pob ysgol yn unigryw ac roedd ganddo unigolion da yn fewnol i ddarparu hyfforddiant.

**(iii) Strwythurau Staffio**

Newid rolau cymhorthyddion dysgu i arwain yn y 3 categori isod:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Ymddygiad neu arbenigedd arall

O safbwynt monitro staff fe fyddir yn arsylwi gwersi (10-15 o ddosbarthiadau'r dydd a hyn am tua awr a hanner), a rhaid bod yn eglur am welliannau sydd eu hangen ar bob aelod o staff.

**Ble fydd yr ysgolion uchod yn 2014?**

Hydera'r Pennaeth y gwelir y canlynol:

- Lefel 2 – 70%
- Lefel 2 a Saesneg a Mathemateg – 40%
- Presenoldeb – 94%
- Anfon plant i Brifysgol – targed 20 (3-4 y flwyddyn 2010-2012)
- NEET lawr o 20% i 10%

I gloi, mewn ymateb i gwestiynau cyffredinol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- Mai prin iawn ydoedd cefnogaeth rhieni. Arferai oddeutu 15 rhiant fynychu Noson Rhieni ac erbyn hyn fe fynychir oddeutu 40 bob tro
- Cynhelir deialog gyda'r gymuned yn y siopau lleol
- Bod gwaharddiadau wedi gostwng o 950 i oddeutu 700 a gobeithir cyrraedd 400
- Disgwylir bod pob Pennaeth yn ymwybodol o fframweithiau Llywodraeth y Cynulliad ac os na fydd Penaethiaid yn taclo hyn nawr rhagwelir na fydd gan staff fedrusrwydd i gyflawni'r anghenion
- Angen sicrhau bod rhyddid i symud cwricwlwm yn ei flaen, torri seilos
- Rhaid adnabod y problemau dydd i ddydd a blaenoriaethu tri pheth (llythrennedd, rhifedd a sgiliau cymdeithasol) a chael staff yn ymroddedig i lythrennedd
- Mae cydweithio rhwng ysgolion yn syniad da. Gallai ysgolion efeillio hyd yn oed ar draws awdurdodau lleol e.e. Powys a Ceredigion.

**Sut y gweithir gyda'n gilydd i wella safonau**:

(i) drwy gynnal awdit llawn o bob ysgol o arferion da a throi hyn i gael unigolion i'w fodelu
(ii) cynnal hyfforddiant i staff

**Cyfeirnodau ac ymchwil pellach**:

Yr Athro mewn Addysg Mel Ainscow – Prifysgol Manceinion (wedi datblygu model i gael trefn ar 8 ysgol)

Model "Leading Aspect" - cynllun yn cyflwyno be' rydych yn ei wneud yn wirioneddol dda (adnabod arferion da). Unigolyn yn dod i mewn i weld, cymeradwyo mewn catalog ar lein, unwaith y byddir yn cofrestru cynnig 4 diwrnod o hyfforddiant mewn blwyddyn). Gall awdurdod greu "Leading Aspect" ei hun a fyddai'n ffordd i hyrwyddo arferion da yn y Gymraeg o safbwynt iaith.

Gwaith Ymchwil gan yr Athro John Hattie, Prifysgol Auckland – wedi creu cynghrair o bethau sydd yn gweithio gyda siart yn crisialu popeth.

# ATODIAD 6

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

## YMCHWILIAD ANSAWDD ADDYSG

## SYLWADAU A CHRYNODEB O BRIF GASGLIADAU CYFARFODYDD Y RHIENI-LYWODRAETHWYR

1. Yr Awdurdod yn araf yn ymyrryd a chefnogi pan fo athrawon yn sâl am gyfnodau hir. Hyn yn enwedig wir pan ymddengys fod athro neu athrawes yn fwriadol amseru eu salwch er mwyn cynyddu eu cyfnod i ffwrdd o’r ysgol, e.e. mynd yn sâl ond yna gwella ychydig ddiwrnodau cyn gwyliau’r Haf a mynd yn sâl eto yn fuan yn Nhymor yr Hydref.

2. Athro gwael yn golygu addysg wael.

3. Llywodraethwyr profiadol hyd yn oed yn ei chael hi’n anodd herio’r Pennaeth.

4. Dim cysondeb yn swyddogaethau’r Llywodraethwyr a sut y maent yn gweithredu.. Mae’n amrywio o ysgol i ysgol ac ni ymddengys fod yna unrhyw ganllawiau mewn lle gan yr Awdurdod i arsyllu na safoni gweithgarwch. Hyn yn wir hefyd o ran pa wybodaeth sy’n cael ei rannu, pryd a gan bwy. Rhai ysgolion yn rhoi llawer o wybodaeth i Lywodraethwyr, eraill ddim.

5. Arfer da o fewn cyrff llywodraethol ddim yn cael ei rannu yn ddigonol.

6. Anodd cael amser cyfleus i gyfarfod gyda’r athrawon.

7. Angen cyfarfodydd heb athrawon a’r Pennaeth yn bresennol.

8. Angen amgylchedd i lywodraethwyr fedru gweithredu fel y gallant herio a bod yn gyfeillion beirniadol.

9. Oes angen ail-ystyried rôl y llywodraethwr? Ai corff llywodraethwyr yn cynnwys aelodau lleyg yw’r ffordd orau o sicrhau fod ysgol yn gweithredu’n effeithiol?

10. Dim teimlad fod y corff llywodraethol yn rhoi arweiniad strategol i’r ysgol. Gormod o dueddiad i lywodraethwyr i ymddwyn yn oddefol a chytuno gyda'r hyn a osodir o'u blaen.

11**.** Llywodraethwyr Cymru i “gefnogi llywodraethu effeithiol pob ysgol yng Nghymru a chefnogaeth broffesiynol a phersonol i bob llywodraethwr

ysgol”. Dim tystiolaeth fod Llywodraethwyr Cymru yn llwyddo i gyflawni hyn.

12. Oes angen gwella rôl y Clerc - e.e. Clerc gweithredol yn Ysgol Dyffryn Ogwen sydd wedi gwneud gwahaniaeth?

13. Fawr o dystiolaeth o Benaethiaid yn arfogi’r llywodraethwyr i weithredu’n effeithiol. Yn wir, ceir teimlad ei bod hi’n well gan Benaethiaid gael llywodraethwyr sy’n gweithredu’n oddefol yn hytrach nag yn weithredol.

14. Adroddiad gan y National Audit Office yn nodi mai un o’ prif resymau am fethiant mewn ysgolion yw llywodraethu gwan. Ydy’r llywodraethwyr yn deall eu rôl yn iawn? Ydy’r awdurdod addysg leol yn hyrwyddo ac yn rhoi digon o bwysigrwydd i’r rôl. Mae tystiolaeth o ysgolion yng Ngwynedd yn methu - ond yn amlwg y cyrff llywodraethol heb ymyrryd er gwaethaf tystiolaeth o fethiant parhaus mewn rhai achosion.

15. Un grŵp o lywodraethwyr yn mynegi anobaith llwyr oherwydd diffyg dealltwriaeth o’u rôl a’i weld yn ddibwrpas ac yn methu cyflawni.

16. Angen gwella cyfathrebu rhwng y Penaethiaid a’r llywodraethwyr a rhwng is-gyfarfodydd o’r llywodraethwyr.

17. Data yn llethu a boddi mwyafrif o’r llywodraethwyr – o ran swmp a chymhlethdod. Diffyg dealltwriaeth ac arweiniad o ran y data yn arwain at anallu i fedru herio yn hyderus.

18. Llywodraethwyr yn cael data am eu hysgolion eu hunain, ond yn anaml iawn maent yn cael darlun o berfformiad yr ysgol o’i chymharu ag ysgolion eraill yng Ngwynedd. O gofio mai ond 14 ysgol uwchradd sydd yng Ngwynedd, fyddai hyn ddim yn dasg rhy anodd.

# ATODIAD 7

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

## YMCHWILIAD ANSAWDD ADDYSG

## CRYNODEB O BRIF GANFYDDIADAU CLYWED WRTH HOLI'R DISGYBLION

Holodd **CLYWED,** (Cartref Bontnewydd)**,** Blwyddyn 11 y 6 ysgol oedd yn rhan o'r ymchwiliad i ansawdd addysg ac eithrio Ysgol Eifionydd.

Am wahanol resymau doedd hi ddim yn bosibl trefnu i holi Blwyddyn 11 Ysgol Eifionydd, ac fe holwyd disgyblion Blwyddyn 11 Ysgol y Berwyn yn eu lle. Mae Ysgol y Berwyn mewn categori tebyg i Ysgol Eifionydd, sef ysgol sydd yn dangos gwelliant, felly mae'n annhebygol fod hyn wedi amharu mewn unrhyw ffordd ar y casgliadau.

Gofynnwyd yr un cwestiynau i ddisgyblion y 6 ysgol, er mwyn sicrhau cysondeb yn yr holi.

**<u>PRIF GANFYDDIADAU</u>**

**Beth sy'n gwneud addysg dda?**

- Athrawon da.  Athrawon da fel arfer yn gwrando, yn drefnus ac yn cynnal diddordeb a brwdfrydedd
- Cysondeb o ran athrawon
- Maint ysgol  - ysgol heb fod yn rhy fawr yn fanteisiol ac yn hybu adnabyddiaeth rhwng yr athrawon a'r disgyblion
- Cael chweched dosbarth yn fuddiol i'r ysgol
- Ysgol hapus – mwy na dim ond addysg ffurfiol.
- Trefn yn y dosbarth – peidio eistedd gyda ffrindiau yn arwain at well canolbwyntio
- Ysgol drefnus gyda gweithdrefnau mewn lle er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn cyflawni
- Gwersi a chlybiau ar ôl ysgol o gymorth i godi safonau

- Parch rhwng athrawon a disgyblion

**Beth sy’n effeithio ar ansawdd addysg?**

- Athrawon sydd bron ag ymddeol fel arfer yn tanberfformio ac wedi colli diddordeb yn eu pwnc

- Marcio gwaith yn rhy hael gan rai athrawon. Darganfod wedyn yn rhy hwyr fod y gwir safon cyrhaeddiad ddim yn ddigon da ar gyfer TGAU

- Perfformiad rhai adrannau gwael yn arwain at wersi preifat sydd yn golygu gwell canlyniadau nag y mae safon addysg yn yr ysgol yn ei haeddu

- Athrawon yn dysgu pwnc gwahanol i’w pwnc craidd

- Anoddach i ysgol wael gadw ei hathrawon da – cylch dieflig

- Gwersi ychwanegol ar ôl ysgol yn medru bod yn beth da, ond os yw’r athro yn un gwael beth bynnag, rhoi gwersi ychwanegol ddim o anghenraid yn golygu eu bod o fudd

**Mathemateg**

- Mathemateg yn bwnc anodd
- Angen mwy o bwyslais ar yr egwyddorion sylfaenol
- Rhaid deall yr egwyddorion sylfaenol neu bydd yna fyth ddealltwriaeth
- Mathemateg yn cael ei ddysgu’n ddiflas
- Angen ffrwdlifo Mathemateg mewn pynciau erial
- Deall gwerth Mathemateg yn y byd go iawn a’i wneud yn fwy ymarferol
- Ofn gofyn am gymorth a dweud nad yn deall
- Treulio mwy o amser yn dysgu Mathemateg yn beth da.
- Gwella sgiliau Mathemateg yn y Cynradd
- Gormod o newid mewn athrawon yn arwain at ddulliau dysgu gwahanol a chymhlethdod
- Gallu disgyblion yn medru amrywio’n fawr mewn dosbarth. Angen i’r athrawon ddeall hyn a theilwra’r gwersi at amrediad gallu’r disgyblion

**CASGLIAD**

Nid yw holi'r disgyblion wedi dod a chasgliadau sydd yn sylfaenol wahanol i'r hyn y mae'r ymchwiliad wedi ei ddysgu yn barod drwy holi Penaethiaid, Rhieni-lywodraethwyr ac arbenigwyr yn y maes.

# ATODIAD 8

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU**

**YMCHWILIAD CRAFFU I ANSAWDD ADDYSG**

**CWESTIYNAU POSIBL I'W GOFYN I HUW FOSTER EVANS PRIF SWYDDOG GwE**

**Pwrpas y cyfarfod**

Holi Huw Foster Evans, Prif Swyddog GwE, er mwyn deall swyddogaeth a gweledigaeth GwE, ac oblygiadau'r newid o wasanaeth CYNNAL.

**Y Briff a ddarparwyd gan Siân Gwenllïan**

(i) Pam bod pegynnu yn digwydd ym mherfformiad CA4 ysgolion?
(ii) Safonau cyflawniad mewn Mathemateg ac effaith hynny ar y dangosydd TL2+ (rhaid i blentyn ennill 5 gradd A* - C i gynnwys iaith a mathemateg) - dangosydd mae'r Gweinidog Addysg yn mynnu i'w wella yn ystod y tair blynedd nesaf)
(iii) Pam bod ansawdd safonau a darpariaeth CA3 yn gyffredinol gadarn ar draws ysgolion yr awdurdod?
(iv) Meithrin dealltwriaeth lawnach o berfformiad dysgwyr prydau ysgol am ddim a'r graddau y mae cyflawniad y grŵp o ddysgwyr yn effeithio ar berfformiad CA4
(v) Perthnasedd mesur prydau ysgol am ddim i adnabod amddifadedd gwledig.

1. Eglurwch swyddogaethau a strwythur GwE. Sut mae GwE yn wahanol i CYNNAL?
2. Beth yw eich gweledigaeth ar gyfer GwE?
3. Beth yw'r rhesymeg dros gael gwared â CYNNAL a sefydlu GwE?
4. Beth fydd GwE yn ei wneud fydd yn well ac yn wahanol i CYNNAL?
5. Sut mae adnoddau a lefelau staffio GwE yn cymharu gyda CYNNAL?
6. Oes gan GwE ddigon o adnoddau a chapasiti i fedru cynorthwyo ysgolion i wella yn ogystal â monitro a herio?

7. Gan y bydd GwE yn gweithredu ar draws Gogledd Cymru, tra bo CYNNAL wedi ei gyfyngu i'r Gogledd Orllewin a fydd hyn yn golygu bod ysgolion Gwynedd yn llai canolog i'r gwasanaeth?

8. Beth yw perthynas GwE gyda Chonsortiwm Gogledd Cymru?

9. Mae arolwg diweddar ESTYN, (Mawrth 2013), ar wasanaeth addysg Gwynedd, yn argymell:-

    - Codi safonau yng Nghyfnod Allweddol 4 trwy dargedu adrannau sy'n tanberfformio mewn ysgolion uwchradd sy'n perfformio'n wael yn fwy cadarn.
    - Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio

    Pa gyfraniad a chamau y mae GwE yn mynd i wneud ei wneud er mwyn cyflawni'r uchod?

10. Sut fydd GwE yn sicrhau parhad gwasanaeth Cymraeg trawsgwricwlaidd o gofio nad yw pob swyddog yn GwE yn siarad Cymraeg?

11. Beth sydd yn gwneud addysg dda?

12. Sut y gellir gwella addysg yng Ngwynedd a Gogledd Cymru?

# ATODIAD 9

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU**

NODIADAU

**CYFWELIAD GYDA MR HUW FOSTER EVANS, PRIF SWYDDOG, GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru)**

**5 Medi 2013**

Presennol: Y Cynghorwyr Beth Lawton, Siôn Wyn Jones, Liz Saville Roberts a Dyfrig Siencyn

Swyddogion: Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Huw Rowlands (Swyddog Gwella Perfformiad Cynorthwyol), Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

Croesawyd Mr Huw Foster Evans a diolchwyd iddo am gytuno i gwrdd ag aelodau'r Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg gan y Cyng. Liz Saville Roberts. Llongyfarchwyd ef ar ei benodiad fel Prif Swyddog y corff newydd GwE. Eglurodd mai pwrpas yr ymchwiliad, yn unol â chais yr Aelod Cabinet Addysg, ydoedd canfod:

(i) Pam bod pegynnu yn digwydd ym mherfformiad CA4 ysgolion?
(ii) Safonau cyflawniad mewn Mathemateg ac effaith hynny ar y dangosydd TL2+
(iii) Pam bod ansawdd safonau a darpariaeth CA3 yn gyffredinol gadarn ar draws ysgolion yr awdurdod?
(iv) Meithrin dealltwriaeth lawnach o berfformiad dysgwyr prydau ysgol am ddim a'r graddau y mae cyflawniad y grŵp o ddysgwyr yn effeithio ar berfformiad CA4
(v) Perthnasedd mesur prydau ysgol am ddim i adnabod amddifadedd gwledig
(vi) Effaith arweinyddiaeth ar berfformiad ysgolion a'r modd y caiff sgiliau arwain eu meithrin a'u datblygu.

## 1. Swyddogaeth GwE

Diolchodd Mr Evans am y cyfle i gwrdd â'r Aelodau a phwysleisiodd mai dim ond tri diwrnod fu ers iddo gychwyn ei swydd ac fe geisia ymateb i gwestiynau'r Aelodau'r gorau gallai. Esboniodd Mr Evans bod GwE yn wasanaeth hyd fraich oddi wrth Gonsortiwm Gogledd Cymru wedi ei gomisiynu gan 6 awdurdod (Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Môn a Wrecsam) ar gyfer gwella ysgolion.

## 2. Consortiwm Gogledd Cymru

Cydweithia'r 6 awdurdod uchod fel Consortiwm Gogledd Cymru ac yn fynegiant o ddyhead yr awdurdodau i gydweithio i alluogi awdurdodau addysg i gyflawni eu gwaith gan barchu diwylliant, iaith ac atebolrwydd lleol. O fewn y Consortiwm ceir Grŵp Strategol sy'n cynnwys

6 o Gyfarwyddwyr Addysg y Gogledd gydag Anwen Williams yn Gydlynydd Strategol. Sefydlwyd 6 Is-grŵp o fewn y Consortiwm gyda phob un o'r Cyfarwyddwyr Addysg yn arwain ar y grwpiau penodol:

- Is-grŵp Perfformiad a Chynaladwyedd
- Is-grŵp Effeithiolrwydd Ysgolion
- Is-grŵp Lles a Phartneriaethau
- Is-grŵp Cyllid ac Adnoddau
- Is-grŵp TGCh a Data
- Is-grŵp Cyfrwng Cymraeg ac Adeiladu Cynhwysedd (Mr Dewi Jones, Pennaeth Addysg Gwynedd yn arwain yr Is-grŵp hwn)

**3. Cytundeb Lefel Gwasanaeth**

Sefydlwyd cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y 6 awdurdod a GwE, sydd yn effeithiol o Ebrill 2013 hyd at Fawrth 2014 ac sydd yn gwbl gyffredin i'r 6 awdurdod. Yn unol â'r fformiwla fe fydd Gwynedd yn talu 18% o gostau cyllido'r gwasanaeth.

Mae'r cytundeb yn rhagnodi'n fanwl y gwasanaeth y mae'n rhaid i GwE ei ddarparu ac mae'r hyn y gall GwE ei wneud felly'n eithaf caeth. Pan fydd y cytundeb yn cael ei adnewyddu, bydd cyfle i ail-drafod natur a gwasanaeth GwE, gan ddysgu o brofiadau blwyddyn gyntaf y gwasanaeth.

**4. Rôl a Strwythur GwE**

Rôl GwE fydd monitro, herio, ymyrryd be fydd angen a chefnogi ysgolion a phwysleisiwyd y bydd anghenion a dyheadau gwahanol gan y 6 awdurdod. Pwysleisiwyd ymhellach bod GwE yn wahanol i CYNNAL a theimlad personol Mr Evans ydoedd bod lefel yr her wedi cynyddu ac y byddai mwy o dargedu, cefnogi ac ymyrryd mewn ysgolion lle mae'r angen er mwyn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a chodi safonau cyrhaeddiad disgyblion. Fydd yna ddim cefnogaeth i bawb, a gall hyn fod yn fater o bryder. Bydd angen felly i GwE annog a chynyddu gallu'r ysgolion i newid pethau eu hunain.

Bydd GwE yn cynnig gwasanaeth i 466 o ysgolion gyda £3.5m o gyllideb gyda strwythur o 30 Arweinydd Sustem wedi eu lleoli yn y canolfannau gweinyddol ar gyfer y rhanbarthau canlynol. Nodwyd bod 19 allan o'r 30 Arweinydd Sustem yn siarad Cymraeg gyda'r cytundeb gwreiddiol yn mynnu bod 16 yn ddwyieithog. Ychwanegwyd bod y polisi recriwtio ac ieithyddol yn ddibynnol ar ba un o'r canolfannau isod y gweithredir ohonynt:

- Ynys Môn a Gwynedd
- Conwy a Sir Ddinbych
- Wrecsam a Fflint

Roedd y 6 awdurdod wedi rhoi cyllideb o £250,000 ar gyfer darparu cefnogaeth ychwanegol i ysgolion sydd ei angen a rhaid byddai sicrhau bod y swm yn cael ei wario yn gytbwys, megis cyflogi unigolyn gyda phrofiad a llwyddiant i weithio ar briff penodol gydag ysgolion.

Penodwyd 3 Uwch Arweinydd Sustem sydd yn gweithredu fel dirprwy i'r Prif Swyddog. Penodwyd Mr Elfyn Vaughan Jones yn Uwch Arweinydd Sustem i Wynedd ac Ynys Mon gyda 11 o Arweinwyr Sustem i'w gynorthwyo.

Yn unol â'r cytundeb lefel gwasanaeth fe fydd pob ysgol yn derbyn 3 ymweliad monitro (6 diwrnod gwaith i bob ysgol drwy ymweliadau, paratoi adroddiadau, a.y.b.) gan yr Arweinyddion Sustem sy'n gyfystyr i 55% o wasanaeth GwE. Esboniwyd ymhellach os yw ysgol mewn categori a ddynodir gan ESTYN fel mesur arbennig fe fyddai'r ysgol honno yn cymhwyso am gefnogaeth ychwanegol gan GwE. Nodwyd ar hyn o bryd bod oddeutu 88% o amser y gwasanaeth wedi ei ddynodi gyda gweddill y ganran wedi ei rannu i ymdrin ag ymweliadau cyn-arolwg .

Nododd Mr Evans bod ESTYN wedi ymgynghori dros gyfnod yr haf gydag awdurdodau addysg lleol ynglŷn â newid y cylch arolygu. O dan drefn bresennol arolygir ysgolion pob 6 mlynedd a byrdwn yr ymgynghoriad ydoedd datblygu sustem fwy hyblyg ar lefel risg a olygai y byddai'n anorfod i ysgolion fod yn barod am arolwg ar bob achlysur.

O safbwynt y sustem bandio ysgolion, cadarnhawyd mai Uned Safonau Llywodraeth Cymru sydd yn gyrru'r agenda hon ac nid ESTYN.

Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â thargedu ysgolion ar sail risg, nododd Mr Evans bod y rôl statudol dros ysgolion yn parhau gyda'r awdurdod addysg lleol ac mai GwE fydd yn categoreiddio ysgolion ac yn adrodd yn ôl ar berfformiad ysgolion i'r awdurdod lleol. Pwysleiswyd mai'r chwe Chyfarwyddwr Addysg sydd gan yr hawl eithaf i ymyrryd â Byrddau Llywodraethol. Fe fydd GwE yn adrodd i lywodraethwyr ac os na fyddai'r corff llywodraethol yn derbyn unrhyw ddyfarniad byddai'n rhaid trafod ymhellach gyda'r awdurdod addysg lleol. Sicrhawyd y byddai'r Uwch Arweinydd Sustem Gwynedd a Môn yn cwrdd â thîm yr awdurdod addysg lleol yn rheolaidd i drafod darganfyddiadau.

Ymhelaethwyd ar y broses yn ystod y tymor hwn sef y byddir yn gofyn i Benaethiaid ysgolion am hunan arfarniadau o'u deilliannau diwethaf ar gyfer 2013 ac a ydynt wedi adnabod blaenoriaethau. Pwysleisiwyd bod yn rhaid herio ac ynghlwm â hyn disgwylir i reoli perfformiad Penaethiaid drwy osod targedau (fel rhan o'r 3 ymweliad) a'u hadolygu gyda llywodraethwyr. Byddai gan Gyfarwyddwyr Addysg hawl i gael copi o dargedau rheoli perfformiad pob Pennaeth ac y byddai hawl gan ESTYN i ofyn amdanynt hefyd. Teimlwyd bod targedu yn arf cryfach oherwydd y byddai'n ymwneud ag unigolion a chyflogau Penaethiaid. Nodwyd mai mater i'r awdurdod lleol fyddai ymdrin ag unrhyw Bennaeth sydd yn tanberfformio.

Teimlai Aelodau'r Ymchwiliad bod cyswllt gyda'r llywodraethwyr ynglyn â rheoli perfformiad yn wan ac y dylid cryfhau hyn. Mewn ymateb, dywedodd Mr Evans nad yw yn glir hyd yma sut fydd y Tîm Arweinyddion Sustem yn adrodd ar berfformiad i Fwrdd Llywodraethol ac yn ei farn ef roedd y linc hon yn greiddiol i wella ysgolion, ac y byddai rhaid trafod gyda'r Arweinyddion Sustem i ganfod eu hymateb yn hyn o beth. O safbwynt GwE, teimlwyd y dylai adroddiad ffurfiol gael ei gyflwyno i'r corff llywodraethol llawn a chael sylw teilwng a bod

angen i Gadeirydd y corff roi blaenoriaeth i'r adroddiad.  Pe gwelir bod corff llywodraethol yn tanberfformio yna gall GwE gomisiynu gwaith gyda'r llywodraethwyr.

Nodwyd ei bod yn broblem recriwtio Penaethiaid oherwydd nad oedd cymhelliad i wneud y swydd o safbwynt gwahaniaeth rhwng cyflogau Dirprwyon / athrawon o ystyried y cyfrifoldeb ychwanegol ar  Bennaeth.

**5. Safonau Cyflawniad ym Mathemateg**

Yng nghyd-destun briff yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg, cyfeiriwyd at y pryder ynglyn â safonau cyflawniad mewn Mathemateg ac effaith hynny ar y dangosydd TL2+. Cydnabyddai Mr Evans bod Mathemateg yn broblem bron iawn ymhob ysgol ac nid yn wendid i Wynedd yn unig . Trafodwyd hyn gyda'r Uwch Arweinydd Sustem ac yn amlwg bod blaenoriaeth gan Wynedd i fynd i'r afael â'r pryder.  Nid yw yn amlwg beth yw'r rhesymau am ansawdd y canlyniadau ond cynigwyd bod y materion isod o bosib yn cael effaith:

- problem recriwtio athrawon mathemateg
- arddulliau o sut i ddysgu mathemateg
- y pwnc yn gwbl ddibynnol ar arholiad
- paratoi disgyblion at arholiad yn greiddiol
- amserlenni arholiadau yn benodol y pynciau craidd
- faint o gyswllt mae  disgyblion yn gael gyda'r athrawon i fyny at ddiwrnod yr arholiad

Os oes ysgolion yn tanberfformio ac yn wan mewn pynciau, hyderir y byddai GwE yn gallu adnabod y gwendidau, cyd-weithio gyda'r Adran, eu partneru gydag ysgolion llwyddiannus a'u gwthio ymlaen.

Roedd tueddiad i sustemau gweithredu'r gwasanaeth fod yn adolygol drwy ganolbwyntio ar daenlenni canlyniadau 2013 yn hytrach na rhoi pwyslais a blaenoriaeth i dargedau 2014. Roedd Mr Evans o'r farn:

- y dylid ffocysu ar y dyfodol yn hytrach nag edrych yn ôl
- bod arweinyddiaeth yn hollol greiddiol, gan gynnwys arweinyddiaeth rheolwyr canol
- bod gosod targedau ar ddechrau'r cylch yn hanfodol (nodwyd bod perfformiad ysgolion uwchradd Sir Fflint yn 8% yn uwch na Gwynedd ar sail ffigyrau 2013, a bod hyn oherwydd bod targedau heriol wedi eu gosod)
- bod cyd-gynhaliaeth yn bwysig (e.e. partneriaethau rhwng ysgolion, mentora)

O safbwynt rôl Aelodau fel craffwyr, nodwyd pwysigrwydd i ymdrin â'r  materion isod:

- holi ynglŷn â'r gyfundrefn lywodraethol
- derbyn data canlyniadau ar lefel rhanbarthol
- monitro presenoldeb ysgolion
- be' sydd yn gweithio'n dda mewn ysgolion

- rôl ysgol o fewn cymuned (her enfawr yn yr uwchradd – perthynas gyda rhieni yn bwysig)

I gloi, diolchodd y Cadeirydd a'r Aelodau i Mr Huw Foster Evans am ei amser a'i gyflwyniad a dymunwyd yn dda iddo yn y swydd.

* * * * * * * * *

**Am ragor o wybodaeth gefndirol ddefnyddiol awgrymwyd y gwefannau isod:**

Fy Ysgol Leol: http://mylocalschool.wales.gov.uk/?lang=cym

Adroddiad Robert Hill: www.wales.gov.uk/consultations

The London Challenge: http://www.ofsted.gov.uk/resources/london-challenge

# Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg

# Cyngor Gwynedd

**[mewn ymateb i adroddiad Estyn ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc Mawrth 2013]**

**Cyflwyniad:**

Mae'r CGOA yn cynnwys yr adrannau canlynol:

*Adran 1 : Amlinelliad o'r prif gamau gweithredu*

*Adran 2 : Cynllun Gweithredu*
Cyflwynir cynllun manwl sydd yn nodi'r canlynol :

- amryfal gamau gymerir i wireddu'r deilliannau disgwyliedig
- amserlen benodol ar gyfer gweithredu
- Uwch Swyddog fydd â chyfrifoldeb arweiniol ar gyfer pob argymhelliad
- swyddogion allweddol fydd yn gyfrifol am weithredu camau penodol
- manylion am yr adnoddau ychwanegol y bydd eu hangen ar gyfer gwireddu'r deilliannau
- dangosyddion perthnasol ar gyfer arfarnu cynnydd
- targedau gwelliant ar gyfer pob argymhelliad
- trefniadau ar gyfer monitro, arfarnu ac adrodd ar gynnydd

*Adran 3 : Matrics Perfformiad*
Cofnod perfformiad 4 blynedd ar gyfer y prif ddangosyddion er mwyn tracio cynnydd 2011>2014

*Adran 4 : Cynllun Rheoli Prosiect*
Cynllun amlinellol sy'n amlygu'r gweithredu, yr amserlen a'r unigolion arweiniol

*Adran 5 : Enwau Swyddogion/ Acronymau*

**Adran 1 : Amlinelliad o'r prif gamau gweithredu**

| ***Argymhelliad 1 : Gwella diogelu trwy sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau'r cyngor yn cael eu deall yn glir gan bawb sy'n gweithio i'r awdurdod ac yn cael eu diweddaru a'u lledaenu'n rheolaidd*** |
|---|
| Gweithredu:<br>• Dosbarthu a sicrhau ymwybyddiaeth o 'Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion' (corfforaethol) a chydymffurfiaeth ohono.<br>• Sicrhau bod holl staff y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu sylfaenol.<br>• Sicrhau bod y flaenoriaeth i faes Diogelu Plant ac Oedolion yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Strategol y Cyngor.<br>• Aelodau Arweiniol yn derbyn tystiolaeth o berfformiad corfforaethol / trawsadrannol y Cyngor parthed materion diogelu plant ac oedolion. |
| *Deilliannau :*<br>• Cadarnhau fod Polisïau cadarn mewn lle<br>• Sicrhau gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r polisïau ar draws y Cyngor<br>• Prosesau a systemau cadarn (sy'n gweithio) mewn lle<br>• Y Cyngor yn cydnabod fod hyn yn flaenoriaeth ac yn cael sylw teilwng drwy sicrhau trefniadau Llywodraethu Diogelu cadarn a llinellau atebolrwydd clir. Y Grŵp Gweithredol a'r Panel Strategol Diogelu Plant yn weithredol. |

| ***Argymhelliad 2 : Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 trwy dargedu adrannau sy'n tanberfformio mewn ysgolion uwchradd sy'n perfformio'n wael yn fwy cadarn*** |
|---|
| *Gweithredu :*<br>• Sicrhau ymateb buan ac effeithiol i ganfyddiadau ymchwil y Gweithgor Craffu i berfformiad CA4 ysgolion uwchradd Gwynedd<br>• Sicrhau, trwy'r CLG gyda'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol [GwE] bod ysgolion targed yn cael cyfranogi o rwydweithiau a fforymau proffesiynol i rannu arferion da ac i fanteisio ar arbenigeddau Arweinwyr System ac arweinwyr ysgol llwyddiannus.<br>• Sicrhau bod yr ysgolion targed wedi cytuno [ac wedi cychwyn gweithredu] ar gynlluniau cadarn i wella safonau llythrennedd [darllen ac ysgrifennu yn benodol] a rhif ar draws yr ysgol yn unol â gofynion y Fframwaith Genedlaethol. |
| *Deilliannau :*<br>• Perfformiad ym mhrif ddangosyddion CA4 y 5 ysgol targed yn dangos gwelliannau rhwng 2012>2013>2014 [gweler targedau meintiol yn Adran 3 isod]<br>• Lleihad ar gyfer pob dangosydd yn y % o'r ysgolion targed â pherfformiad yn y chwartel isaf<br>• Dim un ysgol/adran yn perfformio yn chwartel isaf meincnodau PYD am gyfnod treigl dwy flynedd [2013/2014]<br>• Perfformiad yr Awdurdod yn uwch neu'n cyfateb i'r meincnod cenedlaethol yn y TL2+ |

| ***Argymhelliad 3 : Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio*** |
|---|
| *Gweithredu :*<br>• Grymuso gweithredu'r Awdurdod mewn perthynas â datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion cynradd.<br>• Mewn achosion ble gosodir ysgol mewn categori statudol gan Estyn, yr Awdurdod i symud ar fyrder i ddefnyddio'r pwerau statudol<br>• Sicrhau bod gweithdrefnau miniog a phriodol yn eu lle trwy'r Gwasanaeth Rhanbarthol [GwE] i fonitro ac arfarnu cynnydd yr ysgolion ac i ddwysau y gweithredu a'r ymyrraeth ble na welir y cynnydd disgwyliedig.<br>• Grymuso a miniogi gweithdrefnau atebolrwydd mewnol y Cyngor am berfformiad ysgolion |
| *Deilliannau :*<br>• Rhaglen fonitro a herio effeithiol yn weithredol a threfniadau clir ar gyfer adrodd ar gynnydd.<br>• Lefel her/atebolrwydd uwch yn weithredol.<br>• Ansawdd arweinyddiaeth wedi gwella ar draws ysgolion y ddau sector.<br>• Dim un ysgol yn derbyn barn *anfoddhaol* gan Estyn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3 a lleihad o 50% yn y nifer sy'n cael eu dyfarnu'n *ddigonol*.<br>• Gwell perchnogaeth o'r rhaglen wella ar draws yr ystod rhanddeiliaid [Penaethiaid, Swyddogion, Arweinwyr System, Llywodraethwyr ac Aelodau Etholedig].<br>• Awdurdod yn gwneud defnydd mwy buan ac effeithiol o'i bwerau statudol. |

| ***Argymhelliad 4 : Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau presennol yr awdurdod i wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd*** |
|---|
| *Gweithredu :*<br>• Sicrahu arfarniad o ddulliau a gweithdrefnau cofnodi absenoldebau ysgolion uwchradd Gwynedd.<br>• Sicrhau targedau gwella presenoldeb ysgolion penodol yn unol â'u perfformiad blaenorol a chytuno ar gynllun gweithredu cytunedig gyda phob ysgol ym maes presenoldeb.<br>• Sicrhau bod data presenoldeb yn cael ei archwilio'n fanwl a rhagweithiol gan y gwasanaeth presenoldeb a lles, a chynllunio gwelliant yn dilyn hunan arfarniadau blynyddol. |
| Deilliannau:<br>• Presenoldeb ysgolion uwchradd Gwynedd yn gwella, ac yn benodol symud 4 ysgol chwartel 4 i chwartel 3 erbyn diwedd 2013.<br>• Cysondeb gweithredu a strwythurau ar draws ysgolion uwchradd ym maes absenoldeb yn arwain at wella perfformiad grwpiau penodol o blant.<br>• Defnydd effeithiol i wella presenoldeb o'r adnodd rhanbarthol ychwanegol drwy'r grant Gwella Presenoldeb cenedlaethol. |

| ***Argymhelliad 5 : Gwella ansawdd hunanarfarnu, a'r modd y caiff cynlluniau gwella a gweithdrefnau rheoli perfformiad eu rhoi ar waith yn yr adran addysg*** |
|---|
| Gweithredu:<br>• Sicrhau cynhwysedd ychwanegol o fewn yr Adran Addysg i gydlynu materion rheoli perfformiad.<br>• Sicrhau adnabod y rhaglenni gwella unigol sy'n cyfrannu tuag at fesuryddion yr Adran/ Gwasanaeth Addysg.<br>• Creu matrics o'r mesuryddion<br>• Cytuno a sefydlu trefn hunan arfarnu gadarn |
| Deilliannau:<br>• Cryfhau perchnogaeth oddi fewn i'r Adran ac atebolrwydd yr Adran Addysg dros faterion rheoli perfformiad.<br>• Rhoi arweiniad clir ar egwyddorion a gweithdrefnau Rheoli Perfformiad.<br>• Trefniadau cynllunio manwl a gweithdrefnau rheoli perfformiad trwyadl.<br>• Gwneud defnydd mwy effeithiol o fesuryddion perfformiad er mwyn monitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir yn rheolaidd, ac i **gymryd camau unioni priodol.**<br>• Sicrhau fod holl swyddogion yr Adran Addysg yn cyfrannu at y drafodaeth ar fygythiadau a chyfleon gwasanaethau'n flynyddol. |

| ***Argymhelliad 6 : Parhau i roi cynlluniau ar waith i leihau nifer y lleoedd gwag*** |
|---|
| *Gweithredu :*<br>• *Gweithredu rhaglenni llefydd gweigion ardaloedd a dalgylchol penodol* |
| Deilliannau:<br>• Erbyn Ionawr 2015 lleihau llefydd gweigion Cynradd o 24.1% ar hyn o bryd i rhwng 19.6% a 17.7% erbyn Ionawr 2015<br>• Erbyn Ionawr 2015 lleihau llefydd gweigion Uwchradd o 32.3% ar hyn o bryd i rhwng 20.1% a 23.6% erbyn Ionawr 2015<br>Gwaredu hyd at 2639 o lefydd gweigion fel cyfaswm (cynradd ac uwchradd) erbyn Ionawr 2015. Hyn yn golygu % llefydd gweigion Gwynedd yn lleihau o 28.2% (cynradd ac uwchradd cyfunol) i 18.5% llefydd gweigion (cynradd ac uwchradd cyfunol). Ystyrir hefyd bod rhagolygon poblogaeth y Sir yn newid o 17,116 (Cynradd – 9720, Uwchradd 7396) i 16,829 (Cynradd 9741, Uwchradd 7088) rhwng 2013 a 2015. Felly, gall y duedd ddemograffaidd hon olygu y gall nifer llefydd gweigion gynyddu 287 yn y blynyddoedd nesaf. Bydd angen i'r cynlluniau sydd yn cyfrannu i leihau llefydd gweigion gymryd ystyriaeth o hyn. |

**Adran 2 : Cynllun Gweithredu**

| **Argymhelliad 1** | Gwella diogelu trwy sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau'r cyngor yn cael eu deall yn glir gan bawb sy'n gweithio i'r awdurdod ac yn cael eu diweddaru a'u lledaenu'n rheolaidd |
|---|---|
| **Uwch Swyddog Arweiniol** | Awen Morwena Edwards |

| **Camau Gweithredu** | | **Swyddog Gweithredu** | **Swyddog Monitro** | **Amserlen gweithredu** | | **Cerrig Milltir** | **Adnoddau/ cefnogaeth** | **Deilliannau Disgwyliedig** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Cychwyn** | **Diwedd** | | | |
| 1.1 | Cyd-weithio rhwng uwch reolwyr a swyddogion y cyngor i sicrhau dealltwriaeth o weithdrefnau a pholisïau diogelu corfforaethol. | GO | AME | Chwefror 2013 | Mehefin 2014 | Gweler isod | Rheolwr dynodedig o fewn bob adran | Dealltwriaeth lawn o'r meysydd datblygu. Llinellau cyfathrebu clir, a blaenoriaethau wedi'u cytuno. |
| 1.2 | Dosbarthu a sicrhau ymwybyddiaeth o 'Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion' (corfforaethol) a chydymffurfiaeth ohono.<br>• Polisi corfforaethol wedi ei gymeradwyo gan y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion a'r Cabinet<br>• Cynhyrchu, dylunio a dosbarthu pamffled i holl staff y cyngor yn egluro prif egwyddorion ac amcanion y polisi corfforaethol<br>• Cynhyrchu cwestiynau ar gyfer system Cetis i godi ymwybyddiaeth o gynnwys y polisi corfforaethol<br>• Creu deunydd, megis cardiau pwrs a sticeri, i godi ymwybyddiaeth o'r polisi corfforaethol<br>• Adrannau i gadarnhau Polisi Adrannol o fewn eu gwasanaethau unigol (80% eisoes wedi'i gyflawni)<br>• Cwestiynau a ofynnir yn aml (FAQs) wedi eu sefydlu ar safle we'r cyngor yn egluro'r defnydd o system 'Gweithlu Diogel' , sef cofnod canolog corfforaethol o honiadau o gam-drin proffesiynol<br>• Prif eitem cyfarfod Coleg Uwch Reolwyr a Rheolwyr Canol | GO (Cadeirydd Panel Gweithredol Diogelu) Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Dynodedig | AME | Gorffennaf 2013 | Chwefror 2014 | Cynhyrchu'r pamffled<br><br>Defnyddio'r system Cetis<br><br>Deunyddiau Polisïau Adranol<br><br>Peilot Medi 2013 – i bawb drwy Cetis Hydref 2013. Ion./Chwe. 2014 | £5k - £10k | Dealltwriaeth glir ymysg staff, cynghorwyr a'r rhai sy'n gweithio ar ran y Cyngor o bolisïau a chanllawiau diogelu plant ac oedolion.<br><br>Tystiolaeth o effaith yn cael ei fonitro gan bob gwasanaeth gydag adrodd rheolaidd i'r Panel Gweithredol a Thîm Rheoli adrannol (chwarterol).<br>100% wedi darllen a deall y polisïau a gweithdrefnau perthnasol.<br>Panel Strategol yn cymeradwyo Polisi a Chanllawiau pob Adran o fewn y Cyngor.<br>Mesuryddion Perfformiad (gweler paragraff 8.2 y polisi)<br>Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn.<br>Eitem barhaus- Tîm Rheoli Corfforaethol. |
| 1.3 | Staff a rheolwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi yn eu datblygiad proffesiynol parhaus drwy hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n briodol i'w rôl a'u cyfrifoldebau. | | | | | | Costau ar gyfer yr elfen hyfforddiant wyneb yn wyneb (dim costau ynghlwm ag e-ddysgu) | |
| | a) Dylai holl staff y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu sylfaenol [Lefel 1] fel rhan o'u rhaglen sefydlu [drwy'r Matrics Hyfforddiant Corfforaethol]. Hefyd dylai fod ar gael i staff presennol fel 'hyfforddiant gloywi' bob 3 blynedd. (Penderfynwyd bod holl staff y Cyngor yn ymgymryd â hyfforddiant Lefel 1.) | Geraint Owen (Carey Cartwright -cynllunio a Llŷr Bryn Roberts - cynnwys) | AME | Mawrth 2013 | Parhaus | Hydref 2013 | | Gweithlu'r cyngor yn ei gyfanrwydd yn ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu. Yn adnabod yr angen i gyfeirio/sut i ymdrin ag achosion unigol. Wedi ei gynnwys ym matrics hyfforddiant corfforaethol Cyngor Gwynedd. |
| | b) Yr holl staff a rheolwyr sydd â chyfrifoldebau diogelu ychwanegol yn cael eu cefnogi yn eu datblygiad proffesiynol drwy hyfforddiant Lefel 2. (Penderfynwyd bod holl Reolwyr Dynodedig y Cyngor | Delyth Molyneux Owen Owens | AME | Rhaglen hyfforddi mewn lle | Medi 2014 | Angen paratoi bid ar gyfer hyfforddiant Lefel 3 | | Rheolwyr dynodedig sydd â chyfrifoldebau diogelu ychwanegol yn ymgymryd â hyfforddiant Lefel 2. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | yn ymgymryd â hyfforddiant Lefel 3)<br><br>c) Pob rheolwr sydd â chyfrifoldebau penodol ar gyfer trin a rheoli honiadau o gam-drin proffesiynol yn cael eu cefnogi yn eu datblygiad proffesiynol parhaus drwy hyfforddiant Lefel 3.<br>(Hyfforddiant wedi ei gomisiynu trwy BLlDP Gwynedd a Môn. Sesiynau wedi cymryd lle.<br>Gofyn parhaus.) | Gwenno Williams<br><br>Ian Roberts | AME | Mawrth 2013<br><br>Rhagfyr 2013 | Medi 2014 | | | Yn adnabod yr angen i gyfeirio/sut i ymdrin ag achosion unigol.<br><br>Rheolwyr dynodedig sydd â chyfrifoldebau penodol ar gyfer trin a rheoli honiadau o gam-drin proffesiynol yn ymgymryd â hyfforddiant Lefel 3. |
| 1.4 | Cymeradwyo, dosbarthu a sicrhau ymwybyddiaeth o 'Bolisi a Chanllawiau Diogelu'r Gwasanaeth Addysg' | DRJ + Uwch Reolwyr Addysg. Penaethiaid, Athrawon a Llywodraethwyr Dynodedig | AME | Gorffennaf 2013 | Diweddaru'n gyson | I'w gwblhau gan yr Adran Addysg | | Dealltwriaeth glir ymysg staff yr Adran Addysg, ysgolion a'r rhai sy'n gweithio ar ran yr ALl o bolisïau a chanllawiau diogelu plant ac oedolion.<br><br>Canfyddiadau Adroddiad Blynyddol Amddiffyn a Diogelu gan Gorff Llywodraethol Ysgolion.<br><br>Cofnod hyfforddiant.<br><br>Ansawdd a dilyniant cyfeirio cyfeiriadau diogelu plant.<br><br>Cyfranogi.<br><br>Sicrhau dilysu allanol (defnyddir cymheiriaid allanol) o ansawdd gweithdrefnau diogelu plant a phobl ifanc yn flynyddol ac adrodd i'r Panel Strategol a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd a Môn |
| 1.5 | Sicrhau awdit blynyddol annibynnol o ansawdd gweithdrefnau Diogelu ac Amddiffyn Plant mewn ysgolion, drwy samplo gweithdrefnau gweithredol Diogelu o 10% o'r ysgolion sectorau uwchradd, cynradd ac arbennig.<br><br>Adrodd ar ganfyddiadau a bwydo argymhellion a chamau dilyniant i'r Strategaeth Ddatblygu Flynyddol yn y maes.<br><br>Gweithredu ar addasiadau i weithdrefnau'r adran addysg ac ysgolion fel bo'n briodol ar sail yr uchod. | DRJ/DM | AME | Rhagfyr 2013 | Mehefin 2014 | Cynllun wedi'i addasu erbyn Hydref 2013.<br>Sampl ysgolion wedi'u hadnabod erbyn Rhagfyr 2013.<br>Monitro yn nhymor y Gwanwyn 2014.<br>Adroddiad a bwydo i'r Strategaeth Ddatblygu Flynyddol erbyn Mehefin 2014. | Cyllid blynyddol ar gyfer prynu gwasanaeth arbenigwr Diogelu allanol (neu i lunio cytundeb ar y cyd efo ALl cyfagos) am gyfwerth ac 8-10 diwrnod rhwng Chwefror a Mehefin 2014. | Sicrhau bod ansawdd gweithdrefnau monitro strwythurau Diogelu ac Amddiffyn Plant yr adran addysg yn cael eu harfarnu'n annibynnol yn flynyddol.<br>Adrodd i'r Panel Strategol Diogelu<br><br>Canfyddiadau'r monitro'n arwain at wella ymhellach ansawdd y gweithdrefnau ar draws y sectorau Ysgol a gwasanaethau canolog yr Adran Addysg. |
| 1.6 | Sicrhau fod y flaenoriaeth i faes Diogelu Plant ac Oedolion yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Strategol y Cyngor<br><br>• Yn ystod y broses o adolygu ac ail flaenoriaethu'r Cynllun Strategol, sicrhau bod Diogelu yn derbyn y | SG/RHWW/ITJ/AME/DPh + Geraint George | AME | Mai 2013 | Rhagfyr 2013 | Cyfarfodydd Cabinet + Panel Strategol | adnoddau angenrheidiol ar gyfer gwireddu'r rhannau | Cynllun Strategol yn amlygu'r modd y bydd Cyngor Gwynedd yn cyflawni ei rwymedigaethau corfforaethol a chyfreithiol yn y maes diogelu plant ac oedolion. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | flaenoriaeth angenrheidiol o safbwynt ei bwysigrwydd corfforaethol, er gwaethaf y ffaith nad oes arbedion ariannol ynghlwm â'r maes.<br>• Gweithredu'r rhannau o'r Cynllun Strategol sy'n ymwneud â Diogelu, yn unol â'r rhaglenni gwaith a gaiff eu paratoi | | | | | | perthnasol o'r Cynllun Strategol | Gweler GOF 3 o'r Cynllun Strategol. |
| 1.7 | Aelodau Arweiniol yn derbyn tystiolaeth o berfformiad corfforaethol / trawsadrannol y Cyngor parthed materion diogelu plant ac oedolion.<br>Sicrhau cyfathrebu corfforaethol effeithiol.<br>Sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd a Môn | AME a Wyn Williams | DE/HT | Mai 2013 | Parhaus | Adroddiadau ar berfformiad corfforaethol / adrannol yn cael eu cyflwyno i'r Panel Strategol | Dim adnoddau ychwanegol | Trefniadau cyfathrebu clir a hwylus yn eu lle ar draws y Cyngor.<br>Adroddiadau Cabinet / Cyngor Llawn, Tîm Rheoli Corfforaethol, Panel Strategol.<br>Mesuryddion Perfformiad Corfforaethol yn cael eu monitro gan y Panel Strategol. |
| 1.8 | Cefnogi swyddogaethau a dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Statudol (Gwasanaethau Cymdeithasol) o fewn y Cyngor.<br><br>Adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol / gridiau tystiolaeth yn adrodd yn flynyddol ar unrhyw rwystrau i gyflawni'r swyddogaeth.<br>Adroddiad blynyddol penodol ym maes diogelu sy'n crynhoi gwaith y Panel Strategol i'r Cabinet yn flynyddol | Aelodau'r Panel, Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Dynodedig pob gwasanaeth | AME | Mai 2013 | Parhaus | Chwefror 2014 | Dim adnoddau ychwanegol | Cyfarwyddwr Statudol yn cyflawni'r cyfrifoldeb terfynol ac anrhanadwy ar faterion diogelu.<br>Yn sicrhau bod gan y Cyngor fesurau diogelu priodol i amddiffyn plant ac oedolion ac am adrodd ar lefel gorfforaethol i gynghorwyr am eu heffeithiolrwydd |
| 1.9 | Rhannu gwybodaeth am weledigaeth, blaenoriaethau a pholisïau'r Bwrdd Diogelu, trwy fwletinau, defnydd o'r safle we, ymgynghori cyhoeddus, cyhoeddiadau i'r wasg, cyflwyniadau, a chyfarfodydd staff. | IVR<br>Adran Technoleg Gwybodaeth (Ynys Môn) | AME | Mehefin 2013 | Ebrill 2014 | Ymgynghori gyda rhanddeiliaid ynglŷn â delwedd/ cynnwys safle we'r BLlDP e.e. Grŵp Cyfranogi Pobl Ifanc y BLlDP ( Meh. - Hyd 2013)<br><br>Ail lansio safle we'r BLlDP (Hydref 2013)<br><br>Cydweithio gyda Grŵp Cyfathrebu BDP Rhanbarthol (parhaus) | £3000 (Cyhoeddiadau/ datblygu Safle We'r Bwrdd Diogelu) | Partneriaid, ar bob lefel, gyda gwell ddealltwriaeth o weledigaeth a blaenoriaethau diogelu. |
| 1.10 | Parhau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a gwasanaethau o fewn y Cyngor, er mwyn i'r gwasanaethau eraill gael gwell dealltwriaeth o'r meysydd datblygu. | IVR/MPH/DRJ | AME | Mehefin 2013 | Ebrill 2014 | Cyflwyno Cynllun Ôl Arolwg Gwynedd i Grŵp Llywio & Grŵp Sicrhau Ansawdd BLlDP (Medi 2013)<br><br>Adroddiad Cynnydd Cynllun Ol Arolwg i Grŵp Llywio'r BLlDP Mawrth | Amser staff | Rheolwyr, staff ac eraill gan gynnwys aelodau etholedig gyda gwell dealltwriaeth strategol o ddeilliannau ac ansawdd eu gwaith diogelu gyda phlant a phobl ifanc |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 2014 | | |
| 1.11 | Trefniadau cytundebol cadarn ar waith lle mae Cyngor Gwynedd yn comisiynu neu’n rheoleiddio gwaith gyda phlant a phobl ifanc gan asiantaethau/cyrff eraill. | | | | | | | |
| | a) Angen tystiolaeth uniongyrchol gan asiantaethau/cyrff bod recriwtio diogel, hyfforddiant diogelu priodol, a chydymffurfiaeth â DBS yn eu lle.<br>(Cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran sicrhau bod Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn eu lle.<br>Fodd bynnag archwiliad/awdit mewnol yn adlewyrchu ymateb anghyson o fewn rhai Adrannau. Cynllun Gweithredu mewn lle. | Geraint Owen a Rheolwyr perthnasol o’r Grwp Gweithredol. | AME | Mawrth 2013 | Rhagfyr 2013 | Adolygir allbwn Medi 13. .) | | Trefniadau caffael effeithiol.<br>Tystiolaeth o gydymffurfiaeth gyda gofynion statudol cyfredol a safonau cydnabyddiedig gan gyrff allanol. |
| | b) Angen cadarnhad o enw'r rheolwr dynodedig sy'n gyfrifol am ddiogelu o fewn asiantaethau/cyrff allanol a gomisiynir.<br>(Archwiliad/awdit mewnol yn adlewyrchu ymateb anghyson o fewn rhai Adrannau ar draws y Cyngor).<br>Cynllun Gweithredu mewn lle. | | AME | Mawrth 2013 | Rhagfyr 2013<br><br>Ebrill 2014 | Adolygir allbwn Medi 13. ) | | Tystiolaeth o gydymffurfiaeth gyda gofynion statudol cyfredol a safonau cydnabyddedig gan gyrff allanol.<br>Trefniadau monitro a chytundebau cadarn. |
| | c) Sefydlu ac adnabod cynhwysedd ychwanegol i fonitro ansawdd y ddarpariaeth breswyl gan asiantaethau allanol/cyrff / asiantaethau preifat i blant ag anghenion ychwanegol/ plant mewn gofal.<br>(Lleoliadau cost uchel).<br>Datblygu’r achos busnes ar gyfer sefydlu ac adnabod cynhwysedd ychwanegol i fonitro ansawdd y ddarpariaeth breswyl gan asiantaethau allanol/cyrff / asiantaethau preifat i blant sydd wedi’u lleoli yng Ngwynedd gan awdurdodau lleol arail. | Marian Parry Hughes<br>Aled Gibbard<br>Delyth Molyneux | AME | Mawrth 2013 | | Penodi Swyddog 2014/15 | | Swydd ychwanegol<br>Ystod o fesuryddion gan gynnwys % benodol o leoliadau wedi derbyn ymweliad monitro. |
| 1.12 | Cronfa ddata gorfforaethol effeithiol ac integredig sy’n cofnodi’r holl staff a gyflogir gan **Gyngor Gwynedd** sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. | Geraint Owen | AME | | | | Oddi fewn i adnoddau personol | Y Gronfa ddata corfforaethol yn cyflwyno trosolwg cyflawn o holl staff a gyflogir gan Gyngor Gwynedd sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc |
| | a) Adolygu ac addasu’r ‘System Swyddi’ i gynnwys yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac sydd angen gwiriad DBS.<br>(Trosolwg cyflawn o fanylion perthnasol yr holl staff a gyflogir gan Gyngor Gwynedd sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc [ac oedolion bregus] mewn lle.) | | | Mawrth 2013 | Hydref 2013 | | | Trosolwg cyflawn o gam-drin proffesiynol holl staff a gyflogir gan Gyngor Gwynedd sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. |
| | b) Nodi a rhestru'r swyddi perthnasol sydd angen gwiriad DBS.<br>(Yn weithredol. Gofyn am adolygiad parhaus.) | | | Ionawr 2013 | Hydref 2013<br><br>Hydref 2013 | | | Atgoffa o’r angen i adnewyddu DBS i reolwyr. |
| | c) Datblygu cronfa ddata i gynnwys 'meysydd' ar gyfer DBS - nodiadau atgoffa ar gyfer adnewyddu, cyfeiriadau, honiadau o gam-drin proffesiynol a chanlyniad, cyfeiriad at Fetio a Gwahardd | | | Mawrth 2013 | | Wedi derbyn cymeradwyaeth mewn egwyddor Panel Strategol | | Cronfa ddata yn weithredol:<br>- Creu gweithlu diogel,<br>- gweithdrefn systematig gorfforaethol, |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (System'Gweithlu Diogel – Protocol Gweithredu' mewn lle.<br><br>d) Gweithredu<br>(Yn destun adolygiad a chanlyniad yr ymarfer peilot.)<br><br>e) Adolygu'r Bas Data | | | Rhagfyr 2013 | Hydref 2014 | 29/7/13.)<br>Cyflwynir Protocol Gweithredu terfynol i'r Panel Strategol 5.9.13 gan IE/ DPh<br><br>Hydref 2014 | | - bas data chwiliadwy,<br>- adnabod tueddiadau ynglŷn â cham-drin proffesiynol<br>- caniatáu dadansoddi ac asesu gwybodaeth ynglŷn â cham-drin proffesiynol |

| | |
|---|---|
| Gwelliannau Disgwyliedig | Cadarnhau fod Polisïau cadarn mewn lle<br>Sicrhau gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r polisïau ar draws y Cyngor<br>Prosesau a systemau cadarn (sy'n gweithio) mewn lle<br>Y Cyngor yn cydnabod fod hyn yn flaenoriaeth ac yn cael sylw teilwng drwy sicrhau trefniadau Llywodraethu Diogelu cadarn a llinellau atebolrwydd clir. Y Grŵp Gweithredol a'r Panel Strategol Diogelu Plant yn weithredol. |

| Argymhelliad 2 | Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 trwy dargedu adrannau sy'n tanberfformio mewn ysgolion uwchradd sy'n perfformio'n wael yn fwy cadarn |
|---|---|
| **Uwch Swyddog Arweiniol** | Dewi R Jones |

| | Camau Gweithredu | Swyddog Gweithredu | Swyddog Monitro | Amserlen gweithredu | | Cerrig Milltir | Adnoddau/ cefnogaeth | Deilliannau Disgwyliedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cychwyn | Diwedd | | | |
| 2.1 | Sicrhau ymateb buan ac effeithiol i ganfyddiadau ymchwil y Gweithgor Craffu i berfformiad CA4 ysgolion uwchradd Gwynedd :<br>• cyflwyno'r adroddiad i sylw'r Pwyllgor Craffu, yr Aelod Cabinet a Phanel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>• blaenoriaethu'r gweithredu fel rhan o raglen P1 'Codi Safonau Addysgol Plant a Phobl Ifanc' yng Nghynllun Strategol y Cyngor<br>• cefnogi secondiad dwy flynedd Swyddog Gwella Ansawdd a benodir i arwain y gwaith mewn cydweithrediad gyda'r ysgolion uwchradd [datblygu'r cysyniad o ysgol uwchradd yng Ngwynedd ag iddi'r nodweddion hynny a fydd yn cwrdd â gweledigaeth y Cyngor]<br>• cyhoeddi a lansio'n ffurfiol ddogfen arweiniol Ysgol Uwchradd Gwynedd<br>• [gan gynnwys ymateb i broblemau recriwitio ym maes Mathemateg mewn ardaloedd penodol]. | DRJ | ITJ | Hydref 2013 | Haf 2015 | Tymor yr Hydref 2013 :<br>• Swydd ddisgrifiad ar gael Awst 2013<br>• Penodi Hydref 2013<br>• Cyflwyno'r arweiniad Gwanwyn 2015 | £131,000 arian y Cyngor [arian Cynllun Strategol dros gyfnod o 2 flynedd] | Cynllunio bwriadus a grymus yn weithredol ym mhob ysgol uwchradd mewn ymateb i ganfyddiadau'r ymchwil a'r arferion da a rennir. |
| 2.2 | Sicrhau, trwy'r CLG gyda'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol [GwE] bod :<br>• defnydd effeithiol yn cael ei wneud o'r ystod data sydd ar gael [SDC; Bandio; Meincnodau Cenedlaethol PYD; llinell atchwel; rhagfynegiadau FFT Math D; canlyniadau profion darllen ac eraill] i herio perfformiad y 5 ysgol targed ac i gytuno ar dargedau heriol ar gyfer y prif ddangosyddion perfformiad ac adrannau craidd CA4 yr ysgolion hynny ar gyfer y 3 blynedd nesaf.<br>• yr ysgolion/adrannau targed yn cwblhau arfarniad manwl a thrylwyr o berfformiad yn unol â disgwyliadau lleol a gofynion y Fframwaith Arolygu Cyffredin a bod materion gweithredu clir yn cael eu hadnabod fel rhan o'r broses.<br>• cytuno ar gynllun gweithredu gyda Phennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgolion i dargedu cynhaliaeth ble mae perfformiad yn y prif ddangosydd TL2+ a rhai o'r adrannau craidd wedi bod islaw canolrif meincnodau PYD am *gyfnod o 2 flynedd neu fwy [Ardudwy : TL2+;* DPC; SPC; Maths; Saesneg; Brynrefail : TL1; TL2; SPC; Saesneg; Mathemateg; Gwyddoniaeth; Dyffryn Nantlle : TL2; TL2+; DPC + pynciau craidd; Syr Hugh Owen : TL1; TL2; TL2+; DPC; SPC + pynciau | EVJ | OO | Hydref 2013<br><br>Hydref 2013<br><br>Medi 2013 | Rhagfyr 2013<br><br>Rhagfyr 2013<br><br>Hydref 2013 | Proffil perfformiad ar gael erbyn ymweliad monitro tymhorol yr Awdurdod.<br>Arfarniad wedi'i gwblhau erbyn ymweliad monitro tymhorol yr Awdurdod.<br>Cynlluniau Gweithredu miniog a grymus wedi'u cytuno gyda'r ysgolion targed.<br>Adroddiadau cynnydd fel rhan o ymweliadau tymhorol yr Awdurdod - Hydref 2013; Gwanwyn 2014; Haf 2014.<br>Hyfforddiant mandadol i Lywodraethwyr wedi'i gynnal ym Meirion ac Arfon Gorffennaf 2013.<br>Sesiynau ysgol benodol wedi'u cynnal yn ystod Tymor yr Hydref.<br>Ymweliadau monitro tymhorol yn craffu ar rol y Corff Llywodraethol. | CLG ALl>GwE.<br>Arian comisiwn GwE<br>Rhwydwaith broffesiynol UDRh y 5 ysgol<br>Grwp Arfer Dda GEY ALl/Ysgolion.<br>£48,000 – cyflogi swydd Swyddog Gwella Ansawdd Addysg [arian GEY ac arian y Cyngor].<br>£25,000 – secondiad [arian GEY ac arian y Cyngor]. | Proffil perfformiad treigl ysgolion targed ar gael ac yn sail i bennu targedau heriol ar gyfer prif ddangosyddion CA4.<br>Gwelliannau ym mherffomriad mwyafrif helaeth o brif ddangosyddion y 5 ysgol targed erbyn Haf 2014 [gweler targedau meintiol Adran 3 isod].<br>Arfarniadau miniog wedi'u cwblhau yn yr ysgolion targed a chynllunio bwriadus wedi digwydd ar gyfer gyrru gwelliannau.<br>Cynllun Gwella o ansawdd yn weithredol yn y 5 ysgol.<br>Pob un o'r 5 ysgol targed yn gweithredu'n rymus ar ofynion y Cynllun Gwella.<br>Gwell cysondeb yn y modd y mae'r ysgolion yn ymateb i ofynion yr Awdurdod.<br>Arweiniad/hyfforddiant wedi'i gyflwyno i aelodau Cyrff LLywodraethu.<br>Gwell dealltwriaeth gan Lywodraethwyr o ddata a gwell defnydd o dystiolaeth i herio perfformiad.<br>Craffu mwy effeithiol ar dystiolaeth o gynnydd yn weithredol yn yr ysgolion targed.<br>Agweddau o berfformiad isel/perfformiad cyfforddus yn cael ei herio'n fuan yn yr ysgolion targed. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | craidd; Tywyn : TL2+; DPC + pynciau craidd].<br>• cynlluniau'r 5 ysgol targed yn rhoi sylw i weithdrefnau cadarn yn CA4 ar gyfer : gosod targedau a thracio cynnydd dysgwyr; defnydd effeithiol o ddata gan arweinwyr yr ysgol; sicrhau ymyrraeth buan ac effeithiol mewn achosion o danberfformio; gwella presenoldeb [yn unol â strategaeth yr Awdurdod - gweler Argymhelliad 4 isod]; hyrwyddo dysgu ac addysgu rhagorol ar draws yr ysgol.<br>• ysgolion targed yn gwneud defnydd effeithiol o arweiniad lleol a cenedlaethol sy'n amlygu'r arferion gorau ee adroddiad Cam 1 London Challenge; Toolkit Sutton Trust; arweiniad cenedlaethol a rhanbarthol ym maes Llythrennedd a Rhif ac arferion gorau safwe Estyn ac eraill<br>• ysgolion targed yn gwneud defnydd effeithiol o gyllidebau datganoledig a'r amryfal ffynonellau grant [GEY/GAD ac eraill] i dargedu ymyrraeth i'r meysydd ffocws. Darperir arweiniad a chefnogaeth ar hyn i bob ysgol trwy gyfrwng gwaith y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg [Rheoli a Monitro Grantiau] a benodir. Cefnogir y gwaith gan Swyddog Cefnogol a fydd hefyd yn cefnogi'r ysgolion i drefnu sesiynau a dyddiau hyfforddi ar y cyd.<br>• arweiniad/hyfforddiant a chefnogaeth o ansawdd ar gael i aelodau Cyrff Llywodraethu weithredu'n fwy effeithiol fel cyfaill beirniadol ac i ddwyn yr ysgol i gyfri am ei pherfformiad ee sylw i ddadansoddi data a defnyddio adroddiadau monitro yr Awdurdod/GwE i herio perfformiad yr ysgol [cyfuniad o sesiynau torfol dalgylchol + sesiynau penodol yn yr ysgolion targed] | | | Medi 2013 | Mawrth 2014 | Penodi Tymor yr Hydref 2013 | | |
| 2.3 | Sicrhau, trwy'r CLG gyda'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol [GwE] bod ysgolion targed yn cael cyfranogi o rwydweithiau a fforymau proffesiynol i rannu arferion da ac i fanteisio ar arbenigeddau Arweinwyr System ac arweinwyr ysgol llwyddiannus<br><br>1. Rhwydwaith Arweinyddiaeth gyda ffocws ar :<br>• wella agweddau o arweinyddiaeth ar bob lefel [gan gynnwys gwaith y Cyrff Llywodraethu]<br>• ddatblygu cyfundrefnau tracio grymus yn CA4<br>• hyrwyddo defnydd effeithiol o ddata ar draws arweinwyr yr ysgol [gan gynnwys 'read-across']<br>• datblygu'r ddarpariaeth mewn ysgol sy'n | EVJ<br>GaJ | OO | Hydref 2013 | Haf 2014 | Cyfarfodydd tymhorol yn cael eu cynnal.<br>Adroddiadau cynnydd fel rhan o ymweliadau tymhorol yr Awdurdod - Hydref 2013; Gwanwyn 2014; Haf 2014 | CLG ALl>GwE<br>GPGOC<br>Grwp Arfer Dda<br>Grant GEY ALl/Ysgolion<br>Arian comisiwn GwE | Arweinwyr yn cael mynediad i rwydweithiau proffesiynol ac arferion da.<br>Gwell dealltwriaeth gan Arweinwyr o'r agweddau sydd angen sylw i wella perfformiad.<br>Cysondeb yn y modd y mae ysgolion yn ymateb i ofynion yr Awdurdod.<br>Gwelliannau ym mherfformiad prif ddangosyddion y 5 ysgol targed a'r Awdurdod [gweler targedau meintiol Adran 3 isod]. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | • gwella sgiliau techneg arholiad dysgwyr CA4<br>• gwella a grymuso sgiliau monitro/arfarnu<br>• gwella'r gwaith o gynllunio ar gyfer gwelliant<br><br>2. Hyfforddiant/arweiniad i alluogi arweinwyr i weithredu'n fwy effeithiol<br>3. Cynllun Paru Ysgolion/Adrannau<br>4. Ffrwyth ymchwil i arddulliau gwahanol ac effeithiol o arwain ysgol. | | | | | | | |
| 2.4 | Sicrhau bod yr ysgolion targed wedi cytuno [ac wedi cychwyn gweithredu] ar gynlluniau cadarn i wella safonau llythrennedd [darllen ac ysgrifennu yn benodol] a rhif ar draws yr ysgol yn unol â gofynion y Fframwaith Genedlaethol. Fel rhan o weithredu'r cynlluniau uchod :<br>• sicrhau bod pob ysgol yn rhoi sylw i hyfforddi a datblygu cynhwysedd staff ar draws yr ysgol i flaenoriaethu gwella sgiliau darllen ac ysgrifennu dysgwyr.<br>• sicrhau bod ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o ddata ac o wybodaeth berthnasol er mwyn targedu ymyrraeth benodol i ddysgwyr unigol/grwpiau o ddysgwyr gyda darllen/sillafu a rhif.<br>• sicrhau bod yr ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o TGC i wella sgiliau llythrennedd a rhif | EVJ | OO | Haf 2013 | Hydref 2013 | Ymweliad monitro tymor yr Hydref 2013 yn gwirio ansawdd y cynlluniau.<br>Ymweliadau monitro Gwanwyn 2014 a Haf 2014 yn arfarnu cynnydd . | Cefnogaeth Partneriaid Cenedlaethol a Rhanbarthol.<br>Grant GEY/GAD ysgolion | Cynlluniau ar gyfer gweithredu wedi'u mabwysiadu gan yr ysgolion.<br>Gweithredu cadarn yn erbyn yr amryfal gamau.<br>Darpariaeth ar gyfer gwella llafar/darllen/ysgrifennu a rhif wedi gwella.<br>Safonau cyflawniad mewn llafar/darllen/ysgrifennu a rhif yn dangos cynnydd. |
| 2.5 | Sicrhau bod gweithdrefnau miniog a phriodol yn eu lle trwy'r Gwasanaeth Rhanbarthol [GwE] i :<br>• fonitro ac arfarnu cynnydd yr ysgolion/adrannau<br>• ddwysau y gweithredu a'r ymyrraeth ble na welir y cynnydd disgwyliedig mewn ysgol neu adran benodol<br>• i gyflwyno adroddiadau cynnydd i sylw Uwch Swyddogion, UDRh a Chyrff Llywodraethu yr ysgolion targed | EVJ | OO | Hydref 2013 | Parhaus | Adroddiadau cynnydd fel rhan o ymweliadau tymhorol yr Awdurdod - Hydref 2013; Gwanwyn 2014; Haf 2014<br><br>Adroddiadau Grwp Ansawdd | CLG ALl>GwE | Ymweliadau monitro rheolaidd yn cael eu cynnal.<br>Materion ar gyfer gweithredu pellach ac anghenion cefnogaeth yn cael eu hamlygu.<br>Cefnogaeth a chynhaliaeth bellach yn cael ei gytuno a'i gyflwyno ar y cyd gyda'r ysgolion. |
| 2.6 | Sicrhau bod gan yr Awdurdod weithdrefnau miniog ar gyfer sicrhau atebolrwydd y Gwasanaeth Rhanbarthol [GwE] trwy weithrediad y Grwp Ansawdd a'r Tim Rheoli :<br>• presenoldeb yr Uwch Arweinydd System ym mhob cyfarfod o'r Grwp Ansawdd a'r Tim Rheoli<br>• presenoldeb yr Arweinydd System cyswllt mewn cyfarfodydd ble trafodir ysgolion cyswllt | OO<br>KP | DRJ | Hydref 2013 | Parhaus | Adroddiadau cynnydd rheolaidd yn cael eu cyflwyno.<br>Cyfarfodydd Grwp Ansawdd a'r Tim Rheoli wedi'u rhaglennu am y flwyddyn. | CLG ALl>GwE | Adroddiadau miniog a gonest yn cael eu llunio ar gynnydd.<br>Materion ar gyfer gweithredu pellach ac anghenion cefnogaeth yn cael eu hamlygu.<br>Gwybodaeth dryloyw ar gynnydd yn erbyn gweithredu. |
| 2.7 | Datblygu a miniogi ymhellach rol Pwyllgor Craffu yr aelodau etholedig yng nghyd destun yr ysgolion sy'n destun pryder yn CA4 trwy sefydlu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer :<br>• adolygu cynnydd yr Ysgolion<br>• penderfynu ar weithredu pellach [gan gynnwys ymyrraeth ffurfiol] | DRJ | ITJ | Hydref 2013 | Haf 2014 | Adroddiadau cynnydd tymhorol | | Lefel uwch o atebolrwydd ar yr ystod rhanddeiliaid.<br>Gwell dealltwriaeth gan Aelodau Etholedig o berfformiad ysgolion a'r Adran Addysg yn erbyn y prif ddangosyddion |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.8 | Sicrhau bod yr Awdurdod, yn unol â'r hyn a amlinellir yn y Cytundeb Partneriaeth, yn gweithredu ei bwerau statudol yn fuan ac yn ddiamwys mewn achosion o ysgol yn cael ei gosod mewn categori statudol yn dilyn arolygiad gan Estyn neu o weithredu araf /tanberfformio gan ysgolion hynny sydd wedi eu gosod ar yr amryfal gamau [Cam A = 6 ysgol/Cam B = 2 ysgol/Cam C = 1 ysgol] *[*gweler Argymhelliad 3 isod]* | DRJ | ITJ | Haf 2013 | Parhaus | Adroddiadau Grwp Ansawdd/Tim Rheoli | | Lefel uwch o sialens a her i ysgolion sy'n tanberfformio. Penaethiaid, Swyddogion ac Arweinwyr System â dealltwriaeth gyffredin o'r blaenoriaethau a'r heriau sy'n wynebu'r ysgolion ac o'r gweithredu sydd ei angen i sicrhau gwelliannau. |

| | |
|---|---|
| Gwelliannau Disgwyliedig | • Perfformiad ym mhrif ddangosyddion CA4 y 5 ysgol targed yn dangos gwelliannau rhwng 2012>2013>2014 [gweler targedau meintiol yn Adran 3 isod]<br>• Lleihad ar gyfer pob dangosydd yn y % o'r ysgolion targed â pherfformiad yn y chwartel isaf<br>• Dim un ysgol/adran yn perfformio yn chwartel isaf meincnodau PYD am gyfnod treigl dwy flynedd [2013/2014]<br>• Perfformiad yr Awdurdod yn uwch neu'n cyfateb i'r meincnod cenedlaethol yn y TL2+ |

<table>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad 3</td><td colspan="8">Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio</td></tr>
<tr><td colspan="2">Uwch Swyddog Arweiniol</td><td colspan="8">Dewi R Jones</td></tr>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Camau Gweithredu</th><th rowspan="2">Swyddog Gweithredu</th><th rowspan="2">Swyddog Monitro</th><th colspan="2">Amserlen gweithredu</th><th rowspan="2">Cerrig Milltir</th><th rowspan="2">Adnoddau/ cefnogaeth</th><th rowspan="2">Deilliannau Disgwyliedig</th></tr>
<tr><th>Cychwyn</th><th>Diwedd</th></tr>
<tr><td>3.1</td><td>Grymuso gweithredu'r Awdurdod mewn perthynas â datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion cynradd. Yn benodol :<br>• adnabod Swyddog Arweiniol ar gyfer y maes<br>• ffurfioli a grymuso'r gynhaliaeth sydd ar gael i Benaethiaid newydd, Penaethiaid Mewn Gofal<br>• gwella gweithdrefnau ar gyfer adnabod a datblygu Darpar Benaethiaid<br>• sefydlu trefn leol o weithredu sydd yn efelychu agweddau o'r model cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arweiniol/Datblygol<br>• hyrwyddo a meithrin cydweithio gydag Awdurdodau Powys a Cheredigion yng nghyd destun arweinyddiaeth mewn ardaloedd gwledig<br>• hwyluso gweithdai arweiniol i Benaethiaid Cynradd ym maes hunan arfarnu a chynllunio gwelliant [ar y cyd gyda 7 Pennaeth arweiniol].<br>• sefydlu rhwydwaith broffesiynol ar gyfer arweinwyr ysgolion er mwyn hyrwyddo gwelliannau a rhannu arferion da [gan gynnwys grwpiau cyfyngedig ar gyfer rhai agweddau penodol]<br>• cefnogi Penaethiaid i gynnig gwell arweiniad i Lywodraethwyr</td><td>GaJ</td><td>DRJ</td><td>Medi 2013</td><td>Haf 2014</td><td>Penodiad parhaol wedi'i wneud erbyn Tymor yr Hydref.</td><td>Amser swyddog.<br>Grant GEY/GAD</td><td>Gwell cynhwysedd ar gael yn lleol i gefnogi arweinwyr.<br>Cynhaliaeth ac arweiniad o ansawdd ar gael i arweinwyr ar bob lefel.<br>Fforymau a rhwydweithiau effeithiol yn weithredol ar gyfer rhaedaru arferion da.<br>Gwell cysondeb gweithredu ar draws ysgolion.</td></tr>
<tr><td>3.2</td><td>Sicrhau :<br>• y cwblheir arfarniad manwl o berfformiad ysgolion yn ystod yr ymweliadau monitro tymhorol a'r ymweliadau eraill gan wneud defnydd effeithiol o'r ystod data a gwybodaeth monitro sydd ar gael<br>• y defnyddir y wybodaeth i lunio proffil perfformiad ac i gytuno targedau gyda'r sefydliad<br>• bod Penaethiaid yn ysgwyddo cyfrifoldeb ac atebolrwydd am berfformiad yr ysgol</td><td>EVJ</td><td>OO/DM</td><td>Hydref 2013</td><td>Parhaus</td><td>Arfarniad wedi'i gwblhau erbyn ymweliad monitro tymhorol yr Awdurdod.<br>Adroddiadau monitro cynnydd tymhorol.</td><td>CLG ALl>GwE</td><td>Arfarniadau manwl yn caniatau cyflwyno lefel uwch o sialens a her i ysgolion sy'n tanberfformio neu berfformio'n gyfforddus.<br>Penaethiaid, Swyddogion ac Arweinwyr System â dealltwriaeth gyffredin o'r blaenoriaethau a'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth a'r ysgolion ac o'r gweithredu sydd ei angen i sicrhau gwelliannau.<br>Lefel uwch o atebolrwydd ymhlith yr ystod rhanddeiliaid.</td></tr>
<tr><td>3.3</td><td>Yn unol â gofynion y Cytundeb Partneriaeth, sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o broffil ysgolion i bennu categori risg ar gyfer pob sefydliad a bod Penaethiaid, Llywodraethwyr, Aelodau Etholedig a Swyddogion yn :<br>• derbyn gwybodaeth glir a diamwys pam bod sefydliad mewn categori penodol<br>• deall y disgwyliadau sydd ar yr amryfal randdeiliaid i weithredu rhaglen wella<br>• deall y meini prawf ar gyfer targedu cynhaliaeth</td><td>OO/DM</td><td>DRJ</td><td>Haf 2013</td><td>Parhaus</td><td>Adroddiadau Grwp Ansawdd/Tim Rheoli</td><td></td><td>Pob ysgol yn cael ei gosod mewn categori ar sail asesiad risg.<br>Rhanddeiliaid â gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau gwelliannau.</td></tr>
<tr><td>3.4</td><td>Ar gyfer ysgolion sydd ar gamau gweithredu oren/coch y Cytundeb Partneriaeth, sicrhau bod :<br>• cynllun gwella grymus sydd yn amlygu gweithredu</td><td>EVJ</td><td>OO/DM</td><td>Hydref 2013</td><td>Parhaus</td><td>Adroddiadau monitro tymhorol [neu'n amlach os</td><td>CLG ALl>GwE</td><td>Lefel uwch o sialens a her i ysgolion ac yn benodol felly yng nghyd destun ysgolion sy'n tanberfformio neu berfformio'n gyfforddus.</td></tr>
</table>

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | dros gyfnod penodol o amser yn cael ei lunio<br>• cynhaliaeth briodol ar gyfer gweithredu gofynion y cynllun yn cael ei ddarparu<br>• ymweliadau monitro tymhorol [ac amlach os gwelir yr angen] yn cael eu cynnal gan yr Arweinydd System<br>• adroddiadau cynnydd yn nodi'n glir a diamwys be ydy ansawdd a chyflymder y cynnydd yn yr ysgol ynghyd ag adnabod camau pellach sydd angen rhoi sylw iddynt<br>• adroddiadau cynnydd ysgolion categoriau statudol yn cael eu cyflwyno i sylw y Corff Llywodraethu gan yr Arweinydd System<br>• adroddiadau unrhyw ysgol sydd mewn categori yn cael eu cyflwyno i sylw y Corff Llywodraethu gan yr Arweinydd System os oes pryder am gyflymder cynnydd<br>• adroddiadau cynnydd yn cael eu cyflwyno i sylw Grwp Ansawdd a Thim Rheoli yr Awdurdod a bod penderfyniadau cadarn a buan yn cael eu gwneud pan fo llithriad mewn gweithredu neu danberfformio a bod y gweithredu hwnnw yn cymryd i ystyriaeth yr ystod pwerau statudol<br>• gwybodaeth am gynnydd ysgolion categori yn cael ei gyflwyno i sylw Pwyllgor/Gweithgor Craffu y Cyngor a bod yr aelodaeth yn sefydlu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer adolygu cynnydd a phenderfynu a oes angen ymyrraeth ffurfiol. O dan drefniadau diwygiedig bydd Pennaeth pob ysgol ddyfernir yn risg uchel yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor/Gweithgor Craffu er mwyn cytuno ar raglen gwella. | | | | | gwelir yr angen] | | Grymuso rol a chyfraniad Llywodraethwyr ac Aelodau Etholedig yng nghyd destun ysgolion sy'n tanberfformio neu berfformio'n gyfforddus<br>Swyddogion ac Arweinwyr System â dealltwriaeth gyffredin o'r blaenoriaethau a'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth a'r ysgolion ac o'r gweithredu sydd ei angen i sicrhau gwelliannau.<br>Gwell dealltwriaeth gan Aelodau Etholedig o berfformiad ysgolion a'r Adran Addysg yn erbyn y prif ddangosyddion |
| 3.5 | Mewn achosion ble gosodir ysgol mewn categori statudol gan Estyn, yr Awdurdod i symud ar fyrder i ddefnyddio'r pwerau statudol | DRJ | OO/DM/EVJ | Hydref 2013 | Parhaus | Adroddiadau Grwp Ansawdd/Tim Rheoli | | Defnydd buan a chadarn yn cael ei wneud o'r pwerau statudol er mwyn sicrhau lefel her a chynhaliaeth briodol i'r ysgolion. |
| 3.6 | Cyflwyno arweiniad/hyfforddiant priodol i :<br>• aelodau Cyrff Llywodraethu i'w galluogi i weithredu'n fwy effeithiol fel cyfeillion beirniadol pan dderbynnir adroddiadau monitro yr Awdurdod/GwE ar gynnydd yr ysgol ac i sicrhau eu bod yn gweithredu'n gadarn ar yr arweiniad hwnnw.<br>• Aelodau Etholedig er mwyn sicrhau eu bod yn ysgwyddo rol mwy arweiniol a heriol fel aelodau o Gyrff Llywodraethu | EVJ | DRJ | Haf 2013 | Parhaus | Sesiynau hyfforddiant tymhorol wedi'u cyflwyno i Lywodraethwyr. Sesiynau hyfforddiant penodol i'r 5 ysgol targed. | CLG ALl>GwE | Arweiniad wedi'i gyflwyno i Lywodraethwyr ac Aelodau Etholedig.<br>Gwell dealltwriaeth gan Lywodraethwyr o berfformiad ysgolion yn erbyn y prif ddangosyddion.<br>Aelodau Etholedig yn ysgwyddo rol mwy arweiniol ac yn cefnogi Cyrff Llywodraethu i weithredu'n fwy effeithiol fel cyfaill beirniadol. |
| 3.7 | Cynyddu lefel her ac atebolrwydd ar arweinwyr ysgolion trwy :<br>• sicrhau bod targedau heriol yn cael eu cytuno ar gyfer perfformiad diwedd cyfnod allweddol<br>• sicrhau bod ffocws miniocach yn cael ei roi i arfarnu ansawdd arweinyddiaeth yn yr ymweliadau | OO/DM/EVJ | DRJ | Haf 2013 | Parhaus | Ymweliadau monitro tymhorol. Adroddiadau monitro i'r Tim Rheoli a'r Grwp Ansawdd | | Lefel uwch o sialens a her i ysgolion ac yn benodol felly yng nghyd destun ysgolion sy'n tanberfformio neu berfformio'n gyfforddus.<br>Penaethiaid, Swyddogion ac Arweinwyr System â dealltwriaeth gyffredin o'r blaenoriaethau a'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth a'r ysgolion ac o'r gweithredu sydd ei angen i sicrhau gwelliannau. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | monitro tymhorol a bod defnydd mwy effeithiol yn cael ei wneud o'r erfyn rhanbarthol Cynradd ac Uwchradd mewn perthynas â hynny<br>• sicrhau bod adroddiadau ble mynegir pryder yn cael eu cyflwyno i sylw'r Corff Llywodraethol gan yr Arweinydd System/Swyddog perthnasol<br>• parhau i ddatblygu rol a chyfraniad y Pwyllgor/Gweithgor Craffu parthed herio ysgolion sy'n tanberfformio<br>• gweithredu i sicrhau bod Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu yn ysgwyddo'n llawn eu cyfrifoldebau/atebolrwydd ar gyfer safonau yn yr ysgol | | | | | | | |
| 3.8 | Sicrhau bod gweithdrefnau miniog a phriodol yn eu lle trwy'r Gwasanaeth Rhanbarthol [GwE] i fonitro ac arfarnu cynnydd yr ysgolion ac i ddwysau y gweithredu a'r ymyrraeth ble na welir y cynnydd disgwyliedig. Cymerir camau penodol i sicrhau bod y Gwasanaeth Rhanbarthol [GwE] yn ymateb i'r gofynion isod :<br>• bod pob Arweinydd System wed'i sgilio'n briodol i gyflwyno lefel uchel o her i Benaethiaid mewn ymweliadau monitro [trwy gyfrwng y rhaglen hyfforddi genedlaethol a lleol]<br>• bod cysondeb gweithredu yn ansawdd y lefel her ar draws yr ystod ysgolion<br>• bod gwell cysondeb yn ansawdd yr adroddiadau monitro ar draws y ddau sector<br>• bod gwell rhaeadru a rhannu gwybodaeth yn digwydd rhwng y Gwasanaeth Rhanbarthol a'r Awdurdod a bod hynny yn arwain at weithredu buan gydag ysgolion ble nodwyd tanberfformio | EVJ | DRJ | Haf 2013 | Parhaus | Adroddiadau monitro tymhorol. Adroddiadau monitro i'r Tim Rheoli a'r Grwp Ansawdd | CLG ALl>GwE | Pob Arweinydd System yn gallu cyflwyno lefel her briodol i'r ysgolion perthnasol.<br>Ysgolion yn gweithredu'n effeithiol ar ofynion cynlluniau gwella o ansawdd.<br>Gwell cysondeb yn ansawdd adroddiadau monitro cynnydd yr Arweinwyr System.<br>Trefniadau clir ar gyfer rhaedaru gwybodaeth am gynnydd i'r Tim Rheoli a'r Grwp Ansawdd. |
| 3.9 | Grymuso a miniogi gweithdrefnau atebolrwydd mewnol y Cyngor am berfformiad ysgolion :<br>• trefn gorfforaethol glir yn weithredol ar gyfer herio a dwyn uwch swyddogion a swyddogion yn atebol<br>• trefniadau uchod wedi'u plethu gyda threfniadau diwygiedig ar gyfer rheoli perfformiad | DRJ | ITJ | Hydref 2013 | Parhaus | Gweithdrefnau Rheoli Perfformiad | | Trefn glir yn weithredol ar gyfer adrodd ar gynnydd.<br>Trefniadau adrodd/atebolrwydd wedi'u halinio gyda gweithdrefnau Rheoli Perfformiad corfforaethol. |

| Gwelliannau Disgwyliedig | |
|---|---|
| | • Rhaglen fonitro a herio effeithiol yn weithredol a threfniadau clir ar gyfer adrodd ar gynnydd.<br>• Lefel her/atebolrwydd uwch yn weithredol.<br>• Ansawdd arweinyddiaeth wedi gwella ar draws ysgolion y ddau sector.<br>• Dim un ysgol yn derbyn barn *anfoddhaol* gan Estyn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3 a lleihad o 50% yn y nifer sy'n cael eu dyfarnu'n *ddigonol*.<br>• Gwell perchnogaeth o'r rhaglen wella ar draws yr ystod rhanddeiliaid [Penaethiaid, Swyddogion, Arweinwyr System, Llywodraethwyr ac Aelodau Etholedig].<br>• Awdurdod yn gwneud defnydd mwy buan ac effeithiol o'i bwerau statudol. |

| **Argymhelliad 4** | Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau presennol yr awdurdod i wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd |
|---|---|
| **Uwch Swyddog Arweiniol** | Dewi R Jones |

| | **Camau Gweithredu** | **Swyddog Gweithredu** | **Swyddog Monitro** | **Amserlen gweithredu** | | **Cerrig Milltir** | **Adnoddau/ cefnogaeth** | **Deilliannau Disgwyliedig** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Cychwyn** | **Diwedd** | | | |
| 4.1 | Sicrahu arfarniad o ddulliau a gweithdrefnau cofnodi absenoldebau ysgolion uwchradd Gwynedd. | Swyddog Gwella Ansawdd Addysg (Cynhwysiad) (SGAAC) | DM | Medi 2012 | Gorffennaf 2013 | Ymweliadau ysgol wedi'u cwblhau. Tymor yr Hydref/Gwanwyn. | Amser cyfarfod a dadansoddi canfyddiadau | Adroddiad cyfansawdd wedi'i gyflwyno |
| 4.2 | Cyflwyno canfyddiadau a dadansoddiadau ar ffurf adroddiad i benaethiaid uwchradd a'r Tîm Rheoli Addysg. | SGAAC | DM | Medi 2012 | Gorffennaf 2013 | Adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Grwp Strategol Uwchradd Tymor yr Haf | Amser | Adroddiad cyfansawdd wedi'i gyflwyno a'i drafod yn llawn. |
| 4.3 | Cytuno ar arferion a chonfensiynau 'codio' rhwng yr ALl ac ysgolion uwchradd. | SGAAC | DM | Medi 2012 | Gorffennaf 2013 | Cytundeb wedi'i gofnodi a'i ddosbarthu yn dilyn cyfarfod GSCU Tymor yr Haf 2013. | Amser | Cytundeb yng nghofnodion GCSU |
| 4.4 | Cyflwyno argymhellion gweithredu am absenoldebau penodol:<br>• Gwyliau<br>• Cyfnodau astudio<br>• Salwch<br>• Erlyn<br>• 'Fixed Penalty Notices' (newydd o Fedi 2013) | SGAAC | DM | Medi 2012 | Tachwedd 2013 | Cyflwyno tystiolaeth i GCSU a'r GYDCA cynradd am dueddiadau. Addasu arweiniad rhanbarthol parthed Fixd Penalty Notices, cael cytundeb rhanbarthol am y camau gweithredu. Tymor yr Hydref 2013. | Amser swyddogion gwella ansawdd a swyddogion lles i addasu a llunio arweiniad, a chodi ymwybyddiaeth staff allweddol mewn ysgolion | Cytundeb llafar wedi'i gofnodi GCSU<br><br>Cytundeb ar draws y sectorau uwchradd a cynradd wedi'i dderbyn parthed gwyliau, salwch, erlyn a FPN. |
| 4.5 | Sicrhau 'sgriptiau' safonol i staff cefnogol ar gyfer sgyrsiau ffôn gyda rhieni yn dilyn absenoldebau megis salwch, gwyliau ayyb. | Swyddogion Lles (o dan arweiniad y SGAAC) | DM | Gorffennaf 2013 | Hydref 2013 | Sgriptiau wedi'u cymeradwyo gan benaethiaid a'r Adran Addysg erbyn Hydref 2013. (Cyfarfod o GCSU 26/09/13).<br><br>Defnyddio'r sgriptiau o Hydref 2013. | Amser digyswllt y swyddogion lles i baratoi sgriptiau. Haf 2013. | Staff sy'n gyfridol am wneud cysylltiadau gyda'r cartrefi yn hydeus wrth lywio sgwrs ffôn, yn gallu argymell camau ymlaen i riant/gofalwr mewn modd effeithiol a sensitif, ac yn gosod disgwyliadau'r Ysgol yn glir.<br><br>Ysgolion a'r swyddogion lles yn tystio bod y sgriptiau wedi arwian at wella presenoldeb rhai dysgwyr. |
| 4.6 | Archwilio effaith strategaethau diwedd pob tymor:<br>• Tymor yr Hydref 2012Tymor y Gwanwyn 2013<br>• Tymor yr Haf 2013 | SGAAC | DM | Medi 2012 | Gorffennaf 2013 | Adroddiadau tymhorol i sylw'r ysgolion a'r fforymau penaethiaid a chynhwysiad, yn dymhorol. | Amser cyfarfod a dadansoddi gyda'r tîm Swyddogion Presenoldeb a Lles | Adroddiadau tymhorol i'r Tîm Rheoli ac wedyn i'r GCSU.<br><br>Adrodd yn unol â'r drefn Rheoli Perfformiad Adrannol ar bresenoldeb. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.7 | Cynnal gweithdy i benaethiaid i rannu arferion da a chael cytundeb am weithredu o Fedi 2013. | SGAAC | DM | Medi 2012 | Gorffennaf 2013 | | Agenda GCSU Mehefin 2013 | Gweithdy wedi'i gynnal, Mehefin 2013 |
| 4.8 | Dadansoddi effaith gweithredu ar ddata presenoldeb diwedd blwyddyn addysgol (a gesglir gan y Llywodraeth Mai 2013) | SGAAC | DM | | Gorffennaf 2013 | Data wedi'i wirio gan ysgolion ddiwedd tymor | Amser diwedd tymor yr haf 2013 | Adroddiad wedi'i gyflwyno i'r GCSU.<br>Absenoldebau wedi lleihau ers Tachwedd 2012. |
| 4.9 | Cytuno ar llythyrau generig ac adroddiadau cytunedig fel rhan o bolisi 'ymateb i absenoldebau' i holl ysgolion uwchradd Gwynedd. | SGAAC | DM | Medi 2013 | Medi-Gorffennaf 2013/4 | Llythyrau wedi'u drafftio erbyn Medi 2013 | Amser | Llythyrau parod wedi'u llunio a'u dosbarthu.<br>Ysgolion yn defnyddio'r llythyrau, a'u defnydd wedi'i adolygu erbyn ddiwedd y flwyddyn fel bo'n briodol. |
| 4.10 | Sicrhau bod SIMS pob ysgol yn cynnwys y llythyrau generig cytunedig i'w defnyddio o Fedi 2013 gan bob ysgol uwchradd. | SGAAC | DM | Medi 2013 | Medi 2013 | Cynnal yn cynnwys y llythyrau parod fel rhan o'r rhaglen uwchraddio ysgolion o Fedi 2013 ymlaen. | Sicrhau cytundeb CYNNAL i weithredu'n amserol ar gyfer Medi 2013 | Ysgolion yn defnyddio'r llythyrau o'r 1af o Fedi 2013, yn dilyn uwchraddio diweddaraf SIMS gan Cynnal. |
| 4.11 | Sicrhau targedau gwella presenoldeb ysgolion penodol yn unol â'u perfformiad blaenorol a chytuno ar gynllun gweithredu cytunedig gyda phob ysgol ym maes presenoldeb. | SGAAC | DM | Medi-Hydref 2013 | Gwanwyn 2013 | Swyddogion Lles/Swyddog Ansawdd wedi trafod a chytuno ar dargedau erbyn Rhagfyr 2013. | Amser cyfarfod, monitro a dadansoddi ac adrodd | Targedau wedi'u cytuno gyda phob pennaeth erbyn diwedd Tymor yr Hydref 2013.<br><br>Adrodd ar y targedau'n dymhorol a'r ysgolion yn cytuno unrhyw gamau dilyniant fel bo'n briodol gyda'r gwasanaeth lles/swyddog lles.<br><br>Mesur effaith gweithredu erbyn diwedd y flwyddyn addysgol 2014. |
| 4.12 | Cynnal arfarniad o effaith gwaith Swyddogion Presenoldeb a Lles ar ddeilliannau'r grwpiau targed, a pherfformiad ysgolion unigol | SGAAC | DM | Medi 2013 | Mawrth 2014 | Cytuno blaenoriaethau a mesuryddion perffomiad gyda'r tim.<br>Ystyried effaith rol y Swyddogion Presenoldeb Rhanbarthol wrth gytuno ar gamau gweithredu. | Amser cyfarfod, monitro a dadansoddi ac adrodd | Arfarniad ac argymhellion wedi'u cyflwyno i'r penaethiaid a'r Tîm Rheoli Addysg erbyn Pasg 2014.<br><br>Llunio cynllun gweithredu yn sgil canfyddiadau'r arfarniad.<br><br>Gweithredu ar gyfer 2014-2015 ar sail argymhellion a chytundeb rhwng yr Adran Addysg ac ysgolion uwchradd. |
| 4.13 | Adolygu patrymau gwaith Swyddogion Presenoldeb a Lles Gwynedd i:<br>• dargedu grwpiau penodol o blant o fewn pob ysgol.<br>• Gwneud llawn defnydd o ddata canolog ac ysgol wrth adrodd yn dymhorol | SGAAC gyda chyfraniad gan y<br><br>Swyddog Gwella Presenoldeb Rhanbarthol (SGPRh) fel bo'n briodol | DM | Medi 2013 | Medi 2014 | Sicrhau ystyried effaith rol y Swyddogion Presenoldeb Rhanbarthol wrth gytuno ar gamau gweithredu. | Amser cyfarfod, monitro, dadansoddi ac adrodd | Adolygiad wedi'i gwblhau a chamau gweithredu wedi'u cwblhau ar gfyer y flwyddyn academaidd nesaf. |
| 4.14 | Monitro cynnydd ac effaith gweithdrefnau pob hanner tymor (Swyddogion Presenoldeb a Lles) | SGAAC gyda chyfraniad gan y SGPRh | DM | Medi 2013 | Gorffennaf 2014 | Cyfarfodydd adolygu tim pob hanner tymor. | Cyfarfod DM/Swyddog Gwella Ansawdd Cynhwysiad | Adroddiadau wedi'u dadansoddi a'u cyflwyno i sylw'r Uwch Reolwr Addysg.<br><br>Bwydo'r canfyddiadu i strwythur Rheoli Perfformiad y Cyngor |
| 4.15 | Cyflwyno adroddiad yn dymhorol ar lwyddiant strwythurau i wella presenoldeb ysgolion uwchradd. | SGAAC gyda chyfraniad gan | DM | Medi 2013 | Gorffennaf 2014 | Cyflwyno canfyddiadau i'r | Agenda penaethiaid | Adroddiad cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad presenoldeb uwchradd. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | y SGPRh | | | | penaethiaid yn y GCSU yn dymhorol. | uwchradd a'r Tîm Rheoli Addysg | Adroddiadau o fewn strwythurau Rheoli Perfformiad y Cyngor |
| 4.16 | Sicrhau bod data presenoldeb yn cael ei archwilio'n fanwl a rhagweithiol gan y gwasanaeth presenoldeb a lles, a chynllunio gwelliant yn dilyn hunan arfarniadau blynyddol. | SGAAC gyda chyfraniad gan y SGPRh | DM | Medi 2013 | Blynyddol o 2013-2014 | | Agenda barhaus y tîm swyddogion presenoldeb a lles.<br>Adrodd yn grynodol yn flynyddol.<br>Bwydo i ddata Rheoli Perfformiad yr Adran Addysg. | Cyswllt amlwg rhwng strwythurau gweithredu'r gwasanaeth, targedau ysgolion, cynnydd mewn presenoldeb a chynllunio gwelliant.<br><br>Adroddiadau o fewn strwythurau Rheoli Perfformiad y Cyngor (blaenoriaethau EDU/016b) |
| 4.17 | Sicrhau lefel briodol o gyhoeddusrwydd i bwysigrwydd presenoldeb da ymysg rheini a gofalwyr, yn enwedig polisi cytunedig ysgolion yr ALl am wyliau yn ystod tymor ysgol. (hyrwyddo gwybodaeth ar wefan yr Adran Addysg, eitem yn Gwynedd Ni ayyb)<br>Codi ymwybyddiaeth am y pwerau ychwanegol a ddaw i rym drwy'r Fixed Penalty Notices o Fedi 2013. | SGAAC Swyddog Gwella Ansawdd | DM | Medi 2013 | Yn flynyddol | Eitem am bresenoldenb ac effaith gwyliau ar bresenoldeb yn rhifyn nesaf 'Gwynedd Ni', a ddosbeerthir i bob teulu yng Ngwynedd, Medi 2013. | Amser ac adnodd TGCH i sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar wefan i'r cyhoedd. Tymor yr Hydref 2013. | Eitemau presenoldeb yn cael eu cyhoeddi ar wefan a chyhoeddusrwydd y cyngor trwy gyfrwng Gwynedd Ni.<br><br>Polisi gwyliau'r ysgolion yn wybyddus i'r cyhoedd, a dull gweithredu'r ysgolion yn gyson ar draws y sectorau a'r sir. |

| | |
|---|---|
| Gwelliannau Disgwyliedig | Presenoldeb ysgolion uwchradd Gwynedd yn gwella, ac yn benodol symud 4 ysgol chwartel 4 i chwartel 3 erbyn diwedd 2013.<br>Cysondeb gweithredu a strwythurau ar draws ysgolion uwchradd ym maes absenoldeb yn arwain at wella perfformiad grwpiau penodol o blant.<br>Defnydd effeithiol i wella presenoldeb o'r adnodd rhanbarthol ychwanegol drwy'r grant Gwella Presenoldeb cenedlaethol. |

| Argymhelliad 5 | | Gwella ansawdd hunanarfarnu, a’r modd y caiff cynlluniau gwella a gweithdrefnau rheoli perfformiad eu rhoi ar waith yn yr Adran Addysg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uwch Swyddog Arweiniol | | Dewi R Jones | | | | | | |
| Camau Gweithredu | | Swyddog Gweithredu | Swyddog Monitro | Amserlen gweithredu | | Cerrig Milltir | Adnoddau/ cefnogaeth | Deilliannau Disgwyliedig |
| | | | | Cychwyn | Diwedd | | | |
| 5.1 | Sicrhau cynhwysedd ychwanegol o fewn yr Adran Addysg i gydlynu materion rheoli perfformiad. | BER | DRJ | Ebrill 2013 | Parhaus | - | Dynodir amser oddi fewn i raglen waith y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol. | Cryfhau perchnogaeth ac atebolrwydd yr Adran Addysg dros faterion rheoli perfformiad. |
| 5.2 | Cynyddu cynhwysedd y Swyddog Gwella Perfformiad, Adran Strategol a Gwella i gynorthwyo gyda gosod trefn a fframwaith ar gyfer mesur perfformiad. | AGW | HJ / DRJ | Mai 2013 | Rhagfyr 2013 | Cynhaliwyd cyfarfodydd (Mehefin/ Gorffennaf 2013)efo’r Pennaeth Strategol a Gwella a Rheolwr Tîm Perfformiad ac Effeithlonrwydd (HJ) | Neilltuir hyd at 2 ddiwrnod yr wythnos o amser y Swyddog i sefydlu’r trefniadau hyn. | Eglurder ynglŷn â’r disgwyliadau, y trefniadau cydweithio ac anghenion yr adran.<br><br>Arweiniad clir ar egwyddorion a gweithdrefnau Rheoli Perfformiad.<br><br>Adran Addysg yn cydymffurfio’n llawn â gweithdrefnau corfforaethol. |
| 5.3 | Cytuno ar amserlen gytunedig yn Nhîm Rheoli'r Adran Addysg a chadarnhau trefniadau am y flwyddyn;<br>Rhoi ystyriaeth i’r materion a ganlyn yn y cyfarfodydd chwarterol:<br>- Mesuryddion Haen 2<br>- Prosiectau Strategol<br>- Cytundeb Canlyniadau Cofrestr Risg yr Adran<br>- Cofrestr Risg Drawsadrannol<br>- Cofrestr Adroddiadau Archwiliad Adrannol<br>- Cofrestr cydweithio | BER / AGW | DRJ | Mehefin 2013 | Parhaus | - Cadarnhawyd yr amserlen<br>- Cynhaliwyd Tîm Rheoli Chwarter 1 – Gorffennaf 2013<br>- Trafodwyd materion Rheoli Perfformiad | Swyddogion Strategol a Gwella a swyddogion yr Adran Addysg. | Amser penodol wedi ei raglennu ar gyfer materion rheoli perfformiad.<br><br>Dealltwriaeth lawn ynglŷn â’r gyfundrefn ac egwyddorion rheoli perfformiad.<br><br>Cryfhau atebolrwydd a pherchnogaeth gan sicrhau bod yr Adran Addysg yn cydymffurfio’n llawn â gweithdrefnau corfforaethol. |
| 5.4 | Sicrhau bod eitem benodol ar agenda Tîm Rheoli'r Adran Addysg ar ddiwedd pob chwarter, dan gadeiryddiaeth yr Aelod Cabinet. Ar sail y wybodaeth a gyflwynir, gall yr Aelod Cabinet gyfeirio unrhyw un o fesuryddion Haen 2 i gyfarfod nesaf Y Panel Cyflawni. | BER / AGW | DRJ | Mai 2013 | Gorffennaf 2013 ymlaen | - Adolygiadau chwarterol<br>- Presenoldeb y Swyddog Gwella Perfformiad yn y panel cyflawni, i’w adolygu yn Ionawr 2014. | Y swyddog yn bresennol yn y cyfarfodydd er mwyn sefydlu trefn. | Grymuso a miniogi gweithdrefnau Rheoli Perfformiad yr Adran Addysg.<br><br>Perfformiad gwasanaethau'r Adran Addysg yn cael eu monitro’n gyson o fewn tair wythnos i ddiwedd pob chwarter.<br><br>Panel Cyflawni yn dod yn hunangynhaliol o ran monitro perfformiad. |
| 5.5 | Sicrhau hyfforddiant i’r unigolion perthnasol o fewn yr Adran Addysg ar y system Rheoli Perfformiad Corfforaethol. | AGW | BER | Medi 2013 | Hydref 2013 | - Adnabod staff<br>-Cynnal Hyfforddiant staff erbyn canol Hydref | Amser staff | Galluogi Rheolwyr i reoli eu perfformiad drwy dderbyn data amserol, cyfredol, mewn modd gweledol a chlir. |
| 5.6 | Adnabod pob rhaglen wella unigol yn y gwasanaethau unigol, neu | OO / DM | DRJ | Medi 2013 | Hydref 2013 | Adnabod y rhaglenni sy’n cyfrannu tuag at | Amser staff | Trefn well o atebolrwydd yn y gwasanaethau unigol, ac ar gyfer yr agweddau sy’n cael eu |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | wasanaethau sy'n cael eu comisiynu, sydd yn cyfrannu tuag at fesuryddion yr Adran Addysg neu fesuryddion y Gwasanaethau Addysg. | | | | | fesuryddion | | comisiynu gan yr Awdurdod.<br><br>Cryfhau a gwella cynllunio ar lefel adrannol. Trefniadau cynllunio manwl a gweithdrefnau rheoli perfformiad trwyadl.<br><br>Manylach sylw i ddeilliannau mesuradwy. |
| 5.7 | Creu matrics o'r mesuryddion fel colofnau a'r rhaglenni gwella sy'n cyfrannu atynt fel rhesi. | AGW / BER / OO / DM | DRJ / HJ | Medi 2013 | Rhagfyr 2013 | - Adnabod arferion da yn fewnol ac allanol<br>- Paratoi Templed<br>- Cynnwys Mesuryddion Addysg<br>- Swyddogion a Rheolwyr yr Adran Addysg i adnabod a chynnwys cynlluniau gweithredu cysylltiedig | Amser staff | Gwneud defnydd mwy effeithiol o fesuryddion perfformiad er mwyn monitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir yn rheolaidd, ac **i gymryd camau unioni priodol.**<br><br>Arfarnu perfformiad yn erbyn disgwyliadau, datblygu agweddau allweddol a phennu camau gweithredu a fydd yn arwain at welliant.<br><br>Bydd hyn yn sicrhau yr amlygir mesuryddion lle nad oes unrhyw raglen wella benodol yn ei lle i wella perfformiad yn y mesuryddion rheiny. |
| 5.8 | Cytuno ar drefn ac amserlen adrodd ar gynnydd ar gyfer pob rhaglen wella - adroddiad o gyfarfodydd gwasanaethau. | BER / OO / DM | DRJ | Hydref 2013 | Ionawr 2014 | | | Swyddogion adrannol yn pennu blaenoriaethau priodol. |
| 5.9 | Cytuno ar drefn i addasu rhaglenni yn sgil adroddiadau sy'n dangos cynnydd neu ddiffyg cynnydd, er mwyn blaenoriaethu adnoddau i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir. | BER / OO / DM | DRJ | Medi 2013 | Parhaus | Amlygu'r angen yn y Tîm Rheoli | | Trefniadau cynllunio manwl a gweithdrefnau rheoli perfformiad trwyadl. |
| 5.10 | Cytuno ar gyfundrefn i ddod i farn ar y rhaglen wella ac ar y sylwadau i'w cyflwyno i'r drefn Rheoli Perfformiad Corfforaethol (yn enwedig pan fo mwy nag un rhaglen wella yn cyfrannu at berfformiad o fewn dangosydd penodol).<br><br>Cytuno a sefydlu trefn hunan arfarnu gadarn. | BER / OO / DM | DRJ | Medi 2013 | Medi 2013 – Rhagfyr 2014 | Ymateb i'r arweiniad corfforaethol. Tymor yr Hydref 2013<br><br>- Cynnal cyfarfodydd i gwblhau bygythiadau a chyfleon fesul gwasanaeth<br>- Chytuno a phennu Bygythiadau a Chyfleon Adran Addysg<br>- Paratoi bidiau erbyn 30/09/13<br>- Paratoi Cynllun Busnes<br>- Cynllun Busnes Amlinellol | (Bydd unrhyw adnodd ychwanegol i unrhyw faes yn dibynnu ar lwyddiant bid/bidiau)<br><br>Amser staff | Cryfhau a gwella cynllunio.<br>Amlygu risgiau a chyfleoedd cyflawni.<br><br>Rhoi rhaglenni gwella penodol ar waith yn unol ag adnoddau ychwanegol a fydd ar gael trwy fid/bidiau.<br><br>Cyflawni'r canlyniadau gorau posib o fewn yr adnoddau sydd ar gael.<br><br>Holl swyddogion yr Adran Addysg yn cyfrannu at y drafodaeth ar fygythiadau a chyfleon gwasanaethau'n flynyddol.<br><br>Adnabod risgiau adrannol a chorfforaethol, er mwyn; cryfhau llywodraethu, adnabod bidiau, blaenoriaethu'n effeithiol, paratoi cynllun busnes a mesuryddion y flwyddyn ddilynol.<br><br>Hunan Arfarnu Erbyn diwedd Medi 2013. Paratoi Cynllun Busnes/ Mesuryddion erbyn Ionawr 2014. |
| 5.11 | Cwblhau Cynllun Busnes yr Adran Addysg. | BER / OO / DM | DRJ | Ionawr 2014 | Erbyn Mawrth | - Paratoi Mesuryddion.<br>- Paratoi Cynllun Busnes | | Mesuryddion Blwyddyn ddilynol wedi eu cytuno. Cynllun Busnes wedi ei gytuno erbyn dechrau'r |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 2014 | / Cynlluniau Gweithredu.<br>- Blaenoriaethu Adnoddau. | | flwyddyn ariannol. |

| | |
|---|---|
| Gwelliannau Disgwyliedig | Cryfhau perchnogaeth oddi fewn i'r Adran ac atebolrwydd yr Adran Addysg dros faterion rheoli perfformiad.<br>Rhoi arweiniad clir ar egwyddorion a gweithdrefnau Rheoli Perfformiad.<br>Trefniadau cynllunio manwl a gweithdrefnau rheoli perfformiad trwyadl.<br>Gwneud defnydd mwy effeithiol o fesuryddion perfformiad er mwyn monitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir yn rheolaidd, ac i **gymryd camau unioni priodol.**<br>Sicrhau fod holl swyddogion yr Adran Addysg yn cyfrannu at y drafodaeth ar fygythiadau a chyfleon gwasanaethau'n flynyddol. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 6** | Parhau i roi cynlluniau ar waith i leihau nifer y lleoedd gwag |
| **Uwch Swyddog Arweiniol** | Iwan T Jones |
| **GWYBODAETH GEFNDIROL BERTHNASOL** | <u>Cynlluniau'r Awdurdod ynglŷn â'r rhaglen i fynd i'r afael a llefydd gweigion wedi ei chytuno gyda Llywodraeth Cymru yn ol yn Awst 2012</u><br><br>Llythyr Llefydd Gweigion 17-08-12.pdf     Cynlluniau Cyngor Gwynedd- Llefydd Gweigion.pdf<br>Atodiad 2 - Llythyr Cyng. Sian Gwenllian.pdf<br><br><u>Cynllun Blaenoriaethau y Cabinet yn y maes ad-drefnu Ysgolion</u><br><br>Cymraeg<br>05_01_Cynllun Blaenoriaethau - Mae: 05_02_Atodiad 1.pdf 05_03_Atodiad 2.pdf 05_04_Atodiad 3.pdf 05_05_Atodiad 4.pdf 05_06_Atodiad 5.pdf 05_07_Atodiad 6.pdf 05_08_Atodiad 7.pdf<br><br>Saesneg<br>05_01_Priorities Plan - Reorganisation of E: 05_02_Appendix 1.pdf 05_03_Appendix 2.pdf 05_04_Appendix 3.pdf 05_05_Appendix 4.pdf 05_06_Appendix 5.pdf 05_07_Appendix 6.pdf 05_08_Appendix 7.pdf<br><br><u>Rhaglen Waith</u> "Fyw" y Rhaglen Ad-drefnu yn unol â'r Cynllun Blaenoriaethau. Mae'r rhaglen yn cael eu hadolygu a'i monitro gan Y Bwrdd Rhaglen Ad-drefnu Ysgolion a'r Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br><br>Copy of Rhaglen Waith Diewddaraf 07<br><br>Fersiwn Gorffennaf 2013 |

| Camau Gweithredu | | Swyddog Gweithredu | Swyddog Monitro | Amserlen gweithredu | | Cerrig Milltir | Adnoddau/ cefnogaeth | Deilliannau Disgwyliedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cychwyn | Diwedd | | | |
| 6.1 | Llefydd Gweigion **Dalgylch Tywyn** - Rhaglen ad-drefnu Ysgolion<br>(Cau ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn, Llwyngwril ac Aberdyfi) | GRH | DL | 2012 | Medi 2013 | Garreg Filltir Olaf - Medi 2013 | Adnodd Rhaglen ad-drefnu Ysgolion yn ei le yn unol â <u>Strategaeth Ariannol y Cyngor</u> a basiwyd gan y Cyngor Llawn 28/2/13. (Gweler | Gwaredu oddeutu 275 o lefydd gweigion |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | cyfeiriad at ariannu'r gwaith yn yr atodiad 7.9 a 7.12) | |
| 6.2 | Llefydd Gweigion **Dalgylch Y Berwyn 1** – Ysgol y Parc / O M Edwards – Rhaglen Ad-drefnu Ysgolion (Cau Ysgol y Parc a lleihau llefydd gweigion Ysgol O M Edwards) | GRH | DL | 2011 | Medi 2013 | Garreg Filltir Olaf - Medi 2013 | Adnodd Rhaglen ad-drefnu Ysgolion yn ei le yn unol â Strategaeth Ariannol y Cyngor a basiwyd gan y Cyngor Llawn 28/2/13. (Gweler cyfeiriad at ariannu'r gwaith yn yr atodiad 7.9 a 7.12) | Gwaredu oddeutu 50 o lefydd gweigion |
| 6.3 | Llefydd Gweigion **Dalgylch y Berwyn 2** – Ysgol Gydol Oes – Rhaglen ad-drefnu Ysgolion (Ysg 21C) (Cau ysgolion Bro Tegid, Beuno Sant ac Uwchradd y Berwyn – sefydlu Campws Gydol Oes) | DL | GRH | 2012 | 2017 | Gweler Manylion yn rhaglen waith Rhaglen Ad-drefnu Ysgolion. | Adnodd Rhaglen ad-drefnu Ysgolion yn ei le yn unol â Strategaeth Ariannol y Cyngor a basiwyd gan y Cyngor Llawn 28/2/13. (Gweler cyfeiriad at ariannu'r gwaith yn yr atodiad 7.9 a 7.12) | Gwaredu hyd at 437 o lefydd gweigion |
| 6.4 | Llefydd Gweigion **Dalgylch y Gader** – Rhaglen ad-drefnu Ysgolion (Cynlluniau ad-drefnu Dalgylch y Gader) | DL | GRH | 2011 | 2015 | Gweler Manylion yn rhaglen waith Rhaglen Ad-drefnu Ysgolion. | Adnodd Rhaglen ad-drefnu Ysgolion yn ei le yn unol â Strategaeth Ariannol y Cyngor a basiwyd gan y Cyngor Llawn 28/2/13. (Gweler cyfeiriad at ariannu'r gwaith yn yr atodiad 7.9 a 7.12) | Gwaredu hyd at 231 o lefydd gweigion |
| 6.5 | Llefydd Gweigion **Ardal Groeslon, Carmel a Bronyfoel** – Rhaglen Ad-drefnu Ysgolion (Cau Ysgolion Groeslon, Carmel a Bronyfoel – sefydlu un ysgol ardal yn eu lle) | GRH | DL | 2012 | 2015 | Gweler Manylion yn rhaglen waith Rhaglen Ad-drefnu Ysgolion. | Adnodd Rhaglen ad-drefnu Ysgolion yn ei le yn unol â Strategaeth Ariannol y Cyngor a basiwyd gan y Cyngor Llawn 28/2/13. (Gweler cyfeiriad at ariannu'r gwaith yn yr atodiad 7.9 a 7.12) | Gwaredu oddeutu 100 o lefydd gweigion |
| 6.6 | Llefydd Gweigion **Ysgol Glancegin** – Ysgolion 21C (Addasu Ysgol Glancegin – lleihau'r llefydd gweigion sydd dros ben) | RF | OO | 2013 | 2015 | Gweler Manylion yn rhaglen waith Rhaglen Ad-drefnu Ysgolion. | Prosiect Ysgolion 21C | Gwaredu hyd at 112 o lefydd gweigion |
| 6.7 | Llefydd Gweigion **Ysgol Llidiardau** – Rhaglen ad-drefnu Ysgolion (Cau ysgol Llidiardau a lleihau llefydd gweigion yn Ysgol Crud y Werin) | GRH | DL | 2012 | Medi 2013 | Garreg Filltir Olaf - Medi 2013 | Adnodd Rhaglen ad-drefnu Ysgolion yn ei le yn unol â Strategaeth Ariannol y Cyngor a basiwyd gan y Cyngor Llawn 28/2/13. (Gweler cyfeiriad at ariannu'r gwaith yn yr atodiad 7.9 a 7.12) | Gwaredu oddeutu 70 o lefydd gweigion |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6.8 | Ad-drefnu darpariaeth Addysg Uwchradd yn nalgylchoedd Tywyn, Ardudwy a'r Moelwyn | DL | GRH | 2012 | 2017 | Manylion cynlluniau dalgylchoedd unigol i'w cadarnhau. | Adnodd Rhaglen ad-drefnu Ysgolion yn ei le yn unol â Strategaeth Ariannol y Cyngor a basiwyd gan y Cyngor Llawn 28/2/13. (Gweler cyfeiriad at ariannu'r gwaith yn yr atodiad 7.9 a 7.12) | Gwaredu oddeutu 300 o lefydd gweigion |
| 6.9 | Llefydd gweigion **Uwchradd** – adolygu cynhwysedd yr ysgolion uwchradd | DL | GRH | 2012 | 2015 | Gwaith cychwynnol wedi cychwyn – ond rhaglen gynhwysfawr i'w chreu | Adnodd Rhaglen ad-drefnu Ysgolion yn ei le (gwaith hyd Medi 2013) Swyddog i'w ddynodi (dan yr un adnodd £50K fel yr isod) | Gwaredu oddeutu 1000 o lefydd gweigion |
| 6.10 | Llefydd gweigion **Cynradd** – adolygu cynhwysedd yr ysgolion cynradd | Swyddog i'w ddynodi | Swyddog i'w ddynodi | 2013 | 2015 | I'w greu | £50K – Cais am adnodd llefydd gweigion sydd yn destun bid ac yn cael ystyriaeth fel rhan o adolygiad o'r Cynllun Strategol Corfforaethol | Gwaredu hyd at 300 o lefydd gweigion |
| 6.11 | **Cynllun llefydd gweigion** (defnydd gwahanol ag ati) | Swyddog i'w ddynodi | Swyddog i'w ddynodi | 2013 | 2015 | I'w greu | £50K – adnodd llefydd gweigion (fel yr uchod) | Gwaredu hyd at 400 o lefydd gweigion |

| | |
|---|---|
| Gwelliannau Disgwyliedig | Erbyn Ionawr 2015 lleihau llefydd gweigion Cynradd o 24.1% ar hyn o bryd i rhwng 19.6% a 17.7% erbyn Ionawr 2015<br>Erbyn Ionawr 2015 lleihau llefydd gweigion Uwchradd o 32.3% ar hyn o bryd i rhwng 20.1% a 23.6% erbyn Ionawr 2015<br><br>Gwaredu hyd at 2639 o lefydd gweigion fel cyfaswm (cynradd ac uwchradd) erbyn Ionawr 2015. Hyn yn golygu % llefydd gweigion Gwynedd yn lleihau o 28.2% (cynradd ac uwchradd cyfunol) i 18.5% llefydd gweigion (cynradd ac uwchradd cyfunol). Ystyrir hefyd bod rhagolygon poblogaeth y Sir yn newid o 17,116 (Cynradd – 9720, Uwchradd 7396) i 16,829 (Cynradd 9741, Uwchradd 7088) rhwng 2013 a 2015. Felly, gall y duedd ddemograffaidd hon olygu y gall nifer llefydd gweigion gynyddu 287 yn y blynyddoedd nesaf. Bydd angen i'r cynlluniau sydd yn cyfrannu i leihau llefydd gweigion gymryd ystyriaeth o hyn. |

**Adran 3 : Matrics Perfformiad**

**CYFNOD ALLWEDDOL 4 : GWYNEDD**

| **Perfformiad absoliwt/Safle PYD ALl** | **2011** | | **2012** | | **2013** | | **2014** | | | **2015** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | Safle | % | Safle | % | Safle | Targed | Perfformiad | Safle | Targed | Perfformiad | Safle |
| % dysgwyr 15 oed sy'n llwyddo TL2+ | 53.4 | 6 | 55.0 | 6 | | | 70.9 | | | 70.3 | | |
| % dysgwyr 15 oed sy'n llwyddo TL2 | 70.7 | 8 | 75.1 | 10 | | | 86.2 | | | 84.8 | | |
| % dysgwyr 15 oed sy'n llwyddo TL1 | 92.9 | 4 | 93.1 | 8 | | | 98.6 | | | 98.1 | | |
| % dysgwyr 15 oed sy'n llwyddo SPC | 327 | 3 | 335 | 8 | | | | | | | | |
| % dysgwyr 15 oed sy'n llwyddo DPC | 52.3 | 5 | 53.2 | 5 | | | 72.1 | | | 77.3 | | |
| % dysgwyr 15 oed sy'n llwyddo L2 Saesneg | 74.7 | | 76.8 | | | | 79.9 | | | 75.8 | | |
| % dysgwyr 15 oed sy'n llwyddo L2 Cymraeg | 64.2 | | 64.1 | | | | 81.4 | | | 79.2 | | |
| % dysgwyr 15 oed sy'n llwyddo L2 Mathemateg | 57.0 | | 58.7 | | | | 74.5 | | | 74.0 | | |
| % dysgwyr 15 oed sy'n llwyddo L2 Gwyddoniaeth | 66.0 | | 71.5 | | | | 90.6 | | | 87.9 | | |

| **Perfformiad yn erbyn meincnod LlC** | **2011** | | | **2012** | | | **2013** | | | **2014** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Meincnod | Perfformiad | +/- | Meincnod | Perfformiad | +/- | Meincnod | Perfformiad | +/- | Meincnod | Perfformiad | +/- |
| TL2+ | 57.0 | 53.4 | -3.6 | 58.0 | 55.0 | -3.0 | | | | | | |
| Sgor Pwyntiau Wedi'i Gapio | 332 | 327 | -5 | 343 | 335 | -8 | | | | | | |

| **Dosbarthiad ysgolion uwchradd ym meincnodau PYD [%]** | **2011** | | | | **2012** | | | | **2013** | | | | **2014** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 4 | 3 | 2 | 1 | 4 | 3 | 2 | 1 | 4 | 3 | 2 | 1 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| TL2+ | 50.0 | 7.1 | 28.6 | 14.3 | 28.6 | 21.4 | 28.6 | 21.4 | | | | | | | | |
| TL2 | 35.7 | 28.6 | 7.1 | 28.6 | 35.7 | 21.4 | 21.4 | 21.4 | | | | | | | | |
| TL1 | 35.7 | 21.4 | 14.3 | 28.6 | 42.9 | 7.1 | 28.6 | 21.4 | | | | | | | | |
| SPC | 21.4 | 28.6 | 28.6 | 21.4 | 21.4 | 42.9 | 14.3 | 21.4 | | | | | | | | |
| DPC | 42.9 | 14.3 | 28.6 | 14.3 | 28.6 | 28.6 | 14.3 | 28.6 | | | | | | | | |
| Saesneg | 50.5 | 21.4 | 7.1 | 14.3 | 28.6 | 50.0 | 7.1 | 14.3 | | | | | | | | |
| Cymraeg | 21.4 | 28.6 | 28.6 | 21.4 | 7.1 | 35.7 | 21.4 | 35.7 | | | | | | | | |
| Mathemateg | 50.0 | 28.6 | 14.3 | 7.1 | 42.9 | 28.6 | 21.4 | 7.1 | | | | | | | | |
| Gwyddoniaeth | 50.0 | 42.9 | 7.1 | 14.3 | 35.7 | 42.9 | 7.1 | 14.3 | | | | | | | | |

| **PERFFORMIAD PYD TL2+ GWYNEDD** | **2011** | | **2012** | | **2013** | | **2014** | **2015** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Targed | Targed |
| | 25.0 | 22.0 | 24.4 | 23.4 | | | 42.9 | 65.9 |

**CYFNOD ALLWEDDOL 4 : YSGOLION TARGED**

| **Ardudwy** | **2011** | | **2012** | | **2013** | | **2014** | | **2015** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Perfformiad | Chwartel | Perfformiad | Chwartel | Perfformiad | Chwartel | Targed | Chwartel | Targed | Chwartel |
| TL2+ | 30.8 | 4 | 50.6 | 4 | | | 81.8 | 1 | 81.6 | 1 |
| TL2 | 75.0 | 4 | 84.7 | 2 | | | 94.6 | 1 | 89.8 | 1 |
| TL1 | 96.3 | 3 | 93.2 | 4 | | | 98.2 | 2 | 95.9 | 4 |
| SPC | 340 | 3 | 347 | 3 | | | | | | |
| DPC | 28.9 | 4 | 50.6 | 4 | | | 78.2 | 1 | 81.6 | 1 |
| Cymraeg | 64.9 | 4 | 84.5 | 1 | | | 87.8 | 1 | 91.1 | 1 |
| Saesneg | 44.2 | 4 | 74.1 | 3 | | | 83.6 | 1 | 83.7 | 1 |
| Mathemateg | 32.7 | 4 | 51.8 | 4 | | | 81.8 | 1 | 85.7 | 1 |
| Gwyddoniaeth | 46.2 | 4 | 81.2 | 3 | | | 83.6 | 2 | 87.8 | 1 |

| **Brynrefail** | **2011** | | **2012** | | **2013** | | **2014** | | **2015** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Perfformiad | Chwartel | Perfformiad | Chwartel | Perfformiad | Chwartel | Targed | Chwartel | Targed | Chwartel |
| TL2+ | 67.8 | 2 | 61.9 | 3 | | | 74.6 | 1 | | |
| TL2 | 77.7 | 3 | 76.2 | 4 | | | 88.8 | 1 | | |
| TL1 | 95.9 | 4 | 96.2 | 4 | | | 100 | 1 | | |
| SPC | 342 | 3 | 343 | 3 | | | | | | |
| DPC | 66.1 | 2 | 61.9 | 3 | | | 74.6 | 1 | | |
| Cymraeg | 90.0 | 1 | 75.8 | 2 | | | 91.8 | 1 | | |
| Saesneg | 71.9 | 4 | 58.1 | 4 | | | 85.8 | 1 | | |
| Mathemateg | 68.6 | 3 | 67.6 | 3 | | | 75.4 | 2 | | |
| Gwyddoniaeth | 73.6 | 3 | 75.2 | 3 | | | 94.0 | 1 | | |

| **Dyffryn Nantlle** | **2011** | | **2012** | | **2013** | | **2014** | | **2015** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Perfformiad | Chwartel | Perfformiad | Chwartel | Perfformiad | Chwartel | Targed | Chwartel | Targed | Chwartel |
| TL2+ | 48.8 | 4 | 42.4 | 4 | | | 72.2 | 1 | | |
| TL2 | 67.4 | 3 | 69.6 | 4 | | | 84.7 | 1 | | |
| TL1 | 98.8 | 1 | 97.8 | 1 | | | 100 | 1 | | |
| SPC | 336 | 2 | 335 | 3 | | | | | | |
| DPC | 45.4 | 4 | 41.3 | 4 | | | 72.2 | 1 | | |
| Cymraeg | 65.1 | 3 | 68.9 | 3 | | | | | | |
| Saesneg | 69.8 | 2 | 60.9 | 4 | | | | | | |
| Mathemateg | 50.0 | 4 | 46.7 | 4 | | | | | | |
| Gwyddoniaeth | 54.7 | 4 | 70.7 | 3 | | | | | | |

| SHO | 2011 | | 2012 | | 2013 | | 2014 | | 2015 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Perfformiad | Chwartel | Perfformiad | Chwartel | Perfformiad | Chwartel | Targed | Chwartel | Targed | Chwartel |
| TL2+ | 45.7 | 4 | 25.8 | 4 | | | 58.7 | 2 | 64.8 | 1 |
| TL2 | 56.2 | 4 | 58.9 | 4 | | | 67.8 | 4 | 71.1 | 4 |
| TL1 | 91.4 | 4 | 87.1 | 4 | | | 97.4 | 2 | 95.6 | 3 |
| SPC | 300 | 4 | 303 | 4 | | | | | | |
| DPC | 45.1 | 4 | 25.8 | 4 | | | 58.7 | 1 | 64.8 | 1 |
| Cymraeg | 66.5 | 3 | 63.9 | 3 | | | 68.9 | 3 | 71.1 | 3 |
| Saesneg | 58.0 | 4 | 51.6 | 4 | | | 73.0 | 2 | 71.7 | 2 |
| Mathemateg | 46.3 | 4 | 26.6 | 4 | | | 61.2 | 3 | 67.3 | 2 |
| Gwyddoniaeth | 59.3 | 4 | 64.5 | 4 | | | 94.7 | 1 | 91.2 | 1 |

| Tywyn | 2011 | | 2012 | | 2013 | | 2014 | | 2015 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Perfformiad | Chwartel | Perfformiad | Chwartel | Perfformiad | Chwartel | Targed | Chwartel | Targed | Chwartel |
| TL2+ | 47.7 | 4 | 47.8 | 4 | | | 65.6 | 3 | | |
| TL2 | 83.7 | 2 | 76.8 | 4 | | | 95.3 | 1 | | |
| TL1 | 97.7 | 2 | 94.2 | 4 | | | 96.9 | 3 | | |
| SPC | 353 | 2 | 342 | 4 | | | | | | |
| DPC | 47.7 | 4 | 47.8 | 4 | | | 65.6 | 2 | | |
| Cymraeg | 41.7 | 4 | 56.4 | 4 | | | | | | |
| Saesneg | 70.9 | 4 | 75.4 | 3 | | | 82.8 | 2 | | |
| Mathemateg | 54.7 | 4 | 47.8 | 4 | | | 76.6 | 2 | | |
| Gwyddoniaeth | 75.6 | 3 | 68.1 | 4 | | | 90.6 | 1 | | |

**Adran 4: Cynllun Rheoli Prosiect**

**Tîm Comisiynu Arolwg Estyn**
Tîm wedi'i ffurfio'n arbennig i baratoi ar gyfer yr arolwg. Fe fydd yn parhau i fod yn weithredol nes bydd Estyn yn fodlon efo'r cynnydd yn erbyn yr Argymhellion.

Aelodaeth: Prif Weithredwr (Arweinydd y Tîm), Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet Addysg, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Pennaeth yr Adran Addysg a swyddogion eraill o'r Adran.
Cylch Gorchwyl: Dal y Cwbwl

- Sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg yn un grymus a'i ddeilliannau'n mynnu'r gorau i Blant a Phobl ifanc.
- Cyflwyno'r Cynllun i'r Cabinet (Medi 2013) yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad gan Estyn (Gorffennaf 2013)
- Trosolwg Corfforaethol

**Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc**
Eisoes yn bodoli oddi fewn i fframwaith y Cyngor
Aelodaeth – Aelod Cabinet Addysg ac Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymeithasol, Cyfarwyddwyr, Pennaeth Adran Addysg
Cylch Gorchwyl: Atebolrwydd am sicrhau gweithredu ar flaenoriaethau Cynllun Strategol y Cyngor; mesuryddion penodol a mesuryddion craidd Haen 1 (Rheoli Perfformiad)

**Tîm Gweithredol Ol-Arolwg Estyn**
Wedi'i ffurfio i ymateb i Argymhellion Estyn, ac i gynhyrchu'r Cynllun Gweithredol
Aelodaeth: Pennaeth yr Adran Addysg, ac Uwch swyddogion o'r adran (gweler tabl isod)
Cylch Gorchwyl: Llunio a sicrhau gweithredu'r Cynllun Gweithredu, ac unrhyw waith cysylltiedig

**Is-dimau Gweithredol**
Wedi'i ffurfio'n benodol i gymryd perchnogaeth ac i ganolbwyntio ar yr Argymhellion unigol

| Is-dimau Gweithredol | Argymhelliad | Arweinydd/ Aelodaeth |
|---|---|---|
| Diogelu | A1 | Morwena Edwards (Meilys Smith) |
| Gwella Ysgolion | A2, A3, A4 | Dewi R Jones (Delyth Molyneux, Elfyn Jones a GwE) |
| Rheoli Perfformiad | A5 | Dewi R Jones |
| Ad-drefnu ysgolion | A6 | Iwan T Jones (Guto Rhys/ Dewi Lake) |

**Cyflwyno'r cynllun Gweithredu - Amserlen**

| | |
|---|---|
| Cyfarfod Tim Comisiynu | 5 Medi 2013 |
| Panel Strategol Diogelu | 5 Medi 2013 |
| Cabinet Ffurfiol | 17 Medi 2013 |
| Cyngor Llawn (ar lafar) | 19 Medi 2013 |
| Cyflwyno i Estyn | 20 Medi 2013 |
| Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | 3 Hydref 2013 |

**PERCHNOGAETH Y TîM COMISIYNU AM Y CYNLLUN GWEITHREDU - ÔL AROLWG ESTYN (Mawrth 2013)**

**CABINET**

**TîM COMISIYNU**
**(Arweinydd - Prif Weithredwr)**

- Dal y Cwbwl > sicrhau bod y cynllun yn un grymus a'i ddeilliannau'n mynnu'r gorau i PaPhI
- Cyflwyno'r Cynllun i'r Cabinet (Medi 2013) yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad gan Estyn (Gorffennaf 2013)
- Trosolwg Corfforaethol

**PANEL CYFLAWNI**
**(Arweinydd - Aelod Cabinet Addysg ac Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc )**

- **Atebolrwydd am sicrhau gweithredu ar flaenoriaethau'r Cynllun Strategol**
- Mesuryddion penodol
- Mesuryddion Craidd Haen 1 (Rheoli Perfformiad)

**Gweledigaeth PC Plant a Phobl ifanc -**
**Cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i fyw bywydau cyflawn**

Blaenoriaethau:

- P1—Codi safonau addysgol plant a phobl ifanc
- P2—Unioni cyfleoedd i grwpiau bregus o blant, pobl ifanc a theuluoedd
- P3—Gwella addasrwydd y gyfundrefn ysgolion
- P4—Paratoi pobl ifanc yn well ar gyfer bywyd a gwaith
- GOF3 – Amddiffyn Plant

**ADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU CYSYLLTIOL**
**(Arweinydd - Pennaeth Adran Addysg)**

- **Cyfarfodydd y Tîm Gweithredol**

- Llunio Cynllun Gweithredu
- Llunio Cynllun Cyfathrebu
- Sefydlu cyfundrefn Rheoli Perfformiad gadarn efo'r Adran Strategol a Gwella
- Mesuryddion Haen 2 (Rheoli Perfformiad)

**Maes Diogelu**
(Cyfarwyddwr Statudol & Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden)
Panel Gweithredol a Panel Strategol Diogelu Plant

**Adran 5: Enwau Swyddogion**

| | |
|---|---|
| AGW | Anthony G Williams |
| AME | Awen Morwena Edwards |
| BER | Bethan Eleri Roberts |
| DE | Dyfed Edwards |
| DL | Dewi Lake |
| DM | Delyth Molyneux |
| DPh | Dilys Phillips |
| DRJ | Dewi R Jones |
| EVJ | Elfyn V Jones |
| GaJ | Garem Jackson |
| GO | Geraint Owen |
| GRH | Guto Rhys Hughes |
| HJ | Hawis Jones |
| HT | Harry Thomas |
| IE | Iwan Evans |
| ITJ | Iwan Trefor Jones |
| IVR | Ian Vaughan Roberts |
| KP | Keith Parry |
| MPH | Marian Parry Hughes |
| OO | Owen Owens |
| RF | Richard Farmer |
| RHWW | Cynghorydd R H Wyn Williams |
| SG | Siân Gwenllian |

Acronymau:

| | |
|---|---|
| BDP | Bwrdd diogelu Plant |
| BLlDP | Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd a Mon |
| CA4 | Cyfnod Allweddol 4 |
| CLG | Cytundeb Lefel Gwasanaeth |
| CLG ALl>GwE | Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Awdurdod Lleol a Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhabarthol |
| DBS | Disclosure and Barring Service (gynt yn CRB) |
| DPC | Dangosydd Pynciau Craidd |
| FPN | Fixed Penalty Notices |
| GAD | Grant Amddifadedd Disgyblion |
| GCSU | Grŵp Cyllunio Strategol Uwchradd |
| GEY | Grant Grant Effeithiolrwydd Ysgolion |
| GOF 3 | Cynllun Strategol Adran Gofal 3 |
| GPGOC | Grŵp Penaethiaid Gogledd Orllewin Cymru |
| GYDCA | Grŵp Ymgynghorol Dalgylchoedd Cynradd ac Arbennig |
| L1 | Lefel 1 |
| L2 | Lefel 2 |
| Meincnodau Cenedlaethol PYD | Meincnodau Cenedlaethol Prydau Ysgol am Ddim |
| PaPHI | Plant a Phobl Ifanc |
| PYD | Prydau Ysgol am Ddim |
| Rhagfynegiadau FFT Math D | Rhagfynegiadau Fischer Family Trust Math D |
| SDC | Setiau Data Craidd |
| SGAAC | Swyddog Gwella Ansawdd Addysg (Cynhwysiad) |
| SIMS | School Information Management System |
| SPC | Sgôr Pwyntiau wedi'i Capio |
| TGC | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| TL1 | Trothwy lefel 1 |
| TL2 | Trothwy lefel 2 |
| TL2+ | Trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg |
| UDRh | Uwch Dim Rheoli |
| Ysg 21C | Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain |

**Ymatebion i'r cwestiynau i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 3.10.13**
**Par: Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.**

1. Mae'r Cynllun Strategol yn gosod fel nod "gwella profiadau i blant a phobl ifainc gydag anghenion dysgu ychwanegol". Beth yw cryfderau'r trefniadau presennol a pha dystiolaeth sydd o wendidau yn gyfundrefn hynny sydd yn cynnig achos dros newid y ddarpariaeth (Efallai y byddai'n fuddiol cynnig disgrifiad byr o natur y ddarpariaeth bresennol er sicrhau dealltwriaeth Aelodau)

Mewn ymgynghoriad a rhieni mynegwyd yr awydd ar gyfer newid er mwyn gwella cyfathrebu, rhannu gwybodaeth rhwng teuluoedd a gwasanaethau amlasiantaethol , cynllunio datblygedig a cynnal adolygiadau amlasiantaethol ar y cyd gan sicrhau gweithrediad llwyr. Yn gyfredol mae'r gwasanaeth yn ddibynnol ar yr ysgolion ar gyfer penodi cymorthyddion at gyfer cefnogi disgyblion ac anawsterau penodol ac yn aml mae'r gweithlu hwn angen ei uwch sgilio er mwyn medru dylanwadu'n fwy uniongyrchol ar gyraeddiadau plant a phobl ifanc ac anghenion addysgol.

Yn sicr mae elfennau cadarnhaol iawn o fewn y gwasanaeth presennol o ran gwaith timau canolog ac mae nifer tribiwnlysoedd ADY yng Ngwynedd yn hanesyddol isel .Ond mae ystadegau yn dangos bod nifer o anawsterau yn cael eu hadnabod yn rhy hwyr yn ystod gyrfa addysgol plentyn ac felly 'n methu'r cyfleoedd i adnabod a gweithredu ar gyflyrau ynghynt. Ychydig o weithredu hanesyddol sydd wedi digwydd ar gyfer targedu anawsterau megis cyflyrau ymddygiadol ,emosiynol a chymdeithasol, anhwylderau iaith ac anawsterau dysgu cymedrol yn y cyfnod cyn ysgol ac mae angen sicrhau bod gweithlu'r blynyddoedd cynnar a'r sector gynradd wedi ei uwch sgilio ar gyfer adnabod cyflyrau ynghynt.

Mae'r cysylltiad agos rhwng difreintedd ac achosion o anawsterau ADY yn amlwg. Rydym yn ymwybodol bod cyflyrau megis anhwylder iaith, anawsterau dysgu cymedrol a chyflyrau cymdeithasol ac ymateb rhieni yn agweddau sydd angen nid yn unig ymateb addysgol ond cydweithrediad cymunedol a dibyniaeth ar ymateb teuluol. Nid yw'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth bresennol o fewn y Cyngor yn drefn sy'n hwyluso'r math yma o ddarpariaeth ar gyfer y plentyn cyflawn a'r teulu.

Fel rhan o gynllun arbedion effeithlonrwydd y Cyngor gosodwyd targed arbediad o £400k o gyllideb y gwasanaeth ADY. Mae sicrhau gwerth am arian yn bwysig yn yr hinsawdd ariannol heriol presennol.

2. Beth yw cost y ddarpariaeth bresennol o'i gymharu â siroedd cyfatebol?

**Crynodeb o'r data:**
**<u>Teulu (9 Cyngor)</u>**
**Cyllideb AAA yn ei gyfanrwydd 2013-14**
Yn ei gyfanrwydd 4ydd uchaf o ran gwariant o gymharu â'r teulu.
Gwariant y pen - disgyblion AAA (gydag a heb ddatganiad), Gwynedd 4ydd,
Gwariant y pen - holl ddisgyblion, Gwynedd 3ydd.
Gwariant Gwynedd £1,100k yn uwch na'r canolrif.

**Cyllideb Gynradd 2013-14**
Gwariant Gwynedd 3ydd uchaf o ran gwariant o gymharu â'r teulu.
Gwariant y pen - disgyblion AAA (gydag a heb ddatganiad), Gwynedd 3ydd. Mae Gwariant Gwynedd £1,647k yn uwch na'r canolrif.

**Cyllideb Uwchradd 2013-14**
Gwariant Gwynedd 4ydd uchaf o ran gwariant o gymharu â'r teulu.
Gwariant y pen - disgyblion AAA (gydag a heb ddatganiad), Gwynedd 2il.
Gwariant Gwynedd £208k yn uwch na'r canolrif.

**Cyllideb Arbennig 2013-14**
Gwariant Gwynedd 5ed uchaf o ran gwariant o gymharu â'r teulu.
Gwariant y pen - disgyblion AAA (gydag a heb ddatganiad), Gwynedd 5ed.
Gwariant Gwynedd yw'r canolrif.

**Cyllideb "Non-schools" 2013-14**
Gwariant Gwynedd 7fed uchaf o ran gwariant o gymharu â'r teulu.
Gwariant y pen - disgyblion AAA (gydag a heb ddatganiad), Gwynedd 8fed.
Gwariant Gwynedd £86k yn fwy na'r canolrif.

**Holl Gynghorau**
Cyllideb AAA yn ei gyfanrwydd 2013-14
Gwynedd yn ei gyfanrwydd 13eg uchaf o ran gwariant o holl gynghorau Cymru.
Gwariant y pen - disgyblion AAA (gydag a heb ddatganiad), Gwynedd 9fed
Gwariant y pen - holl ddisgyblion, Gwynedd 9fed.
Gwariant Gwynedd £632k yn uwch na'r canolrif.

**Cyllideb Gynradd 2013-14**
Gwariant Gwynedd 7fed uchaf o ran gwariant o holl gynghorau Cymru.
Gwariant y pen - disgyblion AAA (gydag a heb ddatganiad), Gwynedd 3ydd.
Gwariant Gwynedd £1,612k yn uwch na'r canolrif.

**Cyllideb Uwchradd 2013-14**
Gwariant Gwynedd 11eg uchaf o ran gwariant o holl gynghorau Cymru.
Gwariant y pen - disgyblion AAA (gydag a heb ddatganiad), Gwynedd 9fed.
Gwariant Gwynedd £104k yn uwch na'r canolrif.

**Cyllideb Arbennig 2013-14**
Gwariant Gwynedd 15fed uchaf o ran gwariant o holl gynghorau Cymru.
Gwariant y pen - disgyblion AAA (gydag a heb ddatganiad), Gwynedd 12fed.
Gwariant Gwynedd £880k yn llai na'r canolrif.

**Cyllideb "Non-schools" 2013-14**
Gwariant Gwynedd 18fed uchaf o ran gwariant o holl gynghorau Cymru.
Gwariant y pen - disgyblion AAA (gydag a heb ddatganiad), Gwynedd 17eg.
Gwariant Gwynedd £239k yn llai na'r canolrif.

3. Pa ymgynghori sydd wedi bod gyda defnyddwyr y ddarpariaeth a'u cynrychiolwyr / gwarcheidwaid am yr angen i newid a'r math o ddewisiadau sydd ar gael i'r Cyngor? A fu'r ymgynghori yn llwyddiannus o ran y nifer o bobl a gymerodd ran a dylanwad y cyfraniadau a dderbyniwyd wrth i'r dewisiadau gael eu datblygu?

Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori a'r holl rhanddeiliaid ar ddau achlysur.
Comisiynwyd SNAP Cymru ar gyfer cynnal cyfarfodydd ymgynghorol annibynnol gyda rhieni. Diben yr ymgynghoriad hwn oedd :

- Darganfod barn rhieni ynghylch canfyddiadau Rhan 1 o'r adolygiad a safbwynt y gyfundrefn gyfredol
- Darganfod barn ynghylch y 4 opsiwn amlinellol a argymhellwyd ar gyfer newid.

Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb, rhai cyfweliadau ffon , cyfres o grwpiau ffocws a gyrrwyd neges e-bost i rieni'r plant hynny sydd a'u hachosion yn agored i SNAPCymru gan eu gwahodd i gysylltu er mwyn trefnu cyfweliad. Yn ystod pob trafodaeth, cwblhawyd holiadur manwl ag iddo gwestiynau penodol. Yn ogystal, rhoddwyd cyfle i rieni gyflwyno unrhyw sylwadau eraill a fynnent. Llwyddwyd i gyrraedd 103 o rieni sef oddeutu 9.5% o'r boblogaeth ADY.

Canfyddiadau Rhan 1.

- Cymhlethdod y gyfundrefn a'r angen i'w symleiddio.
- Cyfle cyfartal i blant a phobl ifanc o safbwynt ansawdd darpariaeth a mynediad i arbenigedd.
- Cydweithio rhwng Asiantaethau .
- Rhoi 'r plentyn fel canolbwynt.
- Y ddarpariaeth o wybodaeth , cynhaliaeth a chymodi.
- Trosglwyddo effeithiol rhwng Cyfnodau Allweddol.
- Y defnydd effeithiol o adnoddau er mwyn gwella cyflawniad .
- Adnabod anawsterau 'n gynnar ac ymyrryd i'w diwallu.

O safbwynt pob maes ,cred o leiaf 83% o'r sampl bod angen gwelliant ynddynt . Mae canran uchel iawn ohonynt o'r farn bod angen gwella cyfle cyfartal(95.2%),y ddarpariaeth o wybodaeth a chynhaliaeth (96.4%) ac ymyrraeth gynnar (98.2%).
Yn achos yr ymgynghoriad a'r Rhan 2 o'r Adolygiad Strategol cyflwynwyd y pedwar opsiwn amlinellol ar gyfer newid ac roedd sylwadau'r rhieni fel a ganlyn:

- Mae'n glir fod cyfran sylweddol o rieni(88.5%) o'r farn nad yw gwneud dim yn opsiwn.
- Mae'n glir , hefyd , bod mwyafrif mawr (98.1%) yn gwrthwynebu sefydlu cwmni hyd braich.
- Mae cefnogaeth gref i'r elfennau a argymhellir yn Opsiynau 2a3 (88.7%-99%).

Er mai barn rhieni unigol, neu nifer gymharol fach o rieni a gafwyd , y tu ôl i bob un ohonynt mae plentyn a'i deulu a rhoddant fynegiant i'w profiadau gwirioneddol hwynt o'r gyfundrefn. Mae'r wybodaeth yn ategu'r gwaith cychwynnol gyda rhieni yn ystod Rhan1 o'r adolygiadau a chanfyddiadau'r cwestiynu strwythuredig ac ystyrir bod y materion canlynol yn faterion allweddol i roi sylw arbennig iddynt ar y cyd a chanfyddiadau Rhan1.

- Gwella cyfathrebu a rhieni'n gyffredinol
- Osgoi gosod rhieni mewn sefyllfa o orfod brwydro am yr hyn y credant bod gan eu plentyn yr hawl i'w dderbyn
- Sicrhau bod y maes yn uchel ym mlaenoriaeth strategol Asiantaethau statudol a'i fod yn cael ei gyllido'n ddigonol
- Sicrhau ymateb holistaidd i holl anghenion teuluoedd.

Roedd 100% o'r holl rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd a hwy yn croesawu'r rol unigolyn fel person cyswllt uniongyrchol a theuluoedd ar gyfer sicrhau:

- Cyswllt uniongyrchol a rhieni i wella'r drefn gyfathrebu rhwng asiantaethau.
- Gweithrediad llawn ar gyfer cynnal adolygiadau amlasiantaethol a gwireddu'r canlyniadau.

**Y broses ymgynghori a rhanddeiliaid proffesiynol addysg :**
Ymgynghorwyd a 98 pennaeth cynradd , 9 cydlynydd uwchradd , 95 o athrawon a 125 cymhorthydd ADY.

Manylwyd ar brif amcanion yr Adolygiad Strategol gan amlygu'r prif yrrwyr fel a ganlyn:

- Sicrhau gwasanaeth o ansawdd a gwerth am arian a herio'r gwasanaeth presennol
- Adnabod arbedion
- Ymateb i bolisïau cenedlaethol a lleol
- Ymateb i'r egwyddorion a gytunwyd a'r rhan ddeiliaid yn ystod Rhan 1 sef :
    1. Hyrwyddo annibyniaeth
    2. Mesur canlyniadau
    3. Sicrhau cysondeb
    4. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal

Cyflwynwyd yr opsiynau amlinellol a chroesawyd y cyfle i gynnal y drafodaeth ar lefel dalgylchol. Nodwyd y pwysigrwydd a'r gwerthfawrogiad o'r ymgynghori 'n llawn a holl ysgolion y sir- ar lefel dalgylch , maint ysgolion ac anghenion ysgolion.

Roedd y penaethiaid , yr athrawon, y cydlynwyr ar cymorthyddion yn unfrydol mae 'r drydydd opsiwn amlinellol yw'r opsiwn ffafriedig sydd yn ymateb i'r holl ofynion arfaethedig ac yn rhoi'r unigolyn yn ffocws i'r cyd gynllunio amlasiantaethol. Nodwyd yn gryf bod angen addasiadau i'r opsiwn ar gyfer eu gweithredu ar bedair lefel, sef:

- Ysgolion uwchradd
- Ysgolion cynradd mawr
- Ysgolion cynradd llai
- Ysgolion cynradd bach

Mynegwyd consyrn am ddiffyg arbenigeddau staff ar gyfer ymateb i gyflyrau meddygol sy'n amlygu eu hunain fwy fwy mewn unigolion sy'n mynychu ysgolion prif lif.Nodwyd yr angen i saernio rhaglen hyfforddiant gymwys ar lefel uchel ar gyfer uwch sgilio staff cefnogol i'r dyfodol.

Yn ddiweddar (Medi16eg 2013) cynhaliwyd gweithdy o fudd ddeiliaid aml-asiantaethol. Nod y gweithdy oedd cadarnhau'r angen i weddnewid y gwasanaethau ar gyfer plant bregus yng Ngwynedd a derbyn cefnogaeth amlasiantaethol i'r egwyddor i wneud hynny.

Cyflwynwyd cynigion ar gyfer gwella'r gwasanaethau a thrafod :

- Y prif heriau allai rwystro hyn rhag digwydd.
- Y cyfleoedd allai fod o help ar gyfer sicrhau'r newidiadau.

Cafwyd consensws ar dair brif egwyddor gyda'r bwriad o sicrhau gwaith pellach ar gyfer datblygu'r bwriadau ar gyfer:

- Cydgynllunio integredig ar gyfer unigolion.
- Ymyrryd ar y cyd ar sail tystiolaeth.
- Datblygu rôl un person cyswllt ar gyfer teuluoedd.


Bwriedir sefydlu byrddau prosiect unigol (grwpiau tasg a gorffen) ar gyfer manylu ar y blaenoriaethau uchod. Rhydd hyn gyfleoedd i edrych ar fodelu gwasanaethau integredig i'r dyfodol.

4. Beth yw’r dewisiadau sydd ar gael i’r Cyngor o ran newid y ddarpariaeth i’r dyfodol a beth fydd goblygiadau’r dewisiadau hynny? Pa bryd fydd yr Aelod Cabinet yn dod i benderfyniad ar y model dewisol?

Amlinellir isod natur yr opsiynau a drafodwyd ar gyfer ymateb i ofynion y dyfodol yn lleol a chenedlaethol.
(Sesiwn briffio wedi’i drefnu ar gyfer Aelodau’r Cabinet 8 Hydref 2013, cyflwyniad ar y Weledigaeth i weddnewid gwasanaethau i blant bregus Gwynedd, ac ar y Prosiect “Dechrau i’r Diwedd” a’r Adolygiad yma. Bwriad cyflwyno adroddiad ar y cyd efo’r ddau brosiect gwahanol fel 2 Atodiad i’r Cabinet Ffurfiol unai Tachwedd/ Rhagfyr.)


**Opsiwn 1 – Dim Newid**

Byddai gweithredu Opsiwn 1 yn arwain at fethu gweithredu’r gofynion statudol arfaethedig a methu cyflawni’r amcanion a’r nodau sydd wedi eu hadnabod ar gyfer sicrhau’r cyfleoedd a’r profiadau gorau i blant a phobl ifanc Gwynedd.



**<u>Opsiwn 2 – Gwella Elfennau'r Gwasanaeth</u>**


Byddai hyn yn cynnwys uwch sgilio ac ail ffurfio'r tîm rheng blaen o gymorthyddion dysgu, cryfhau ac atgyfnerthu dull o gomisiynu rhwng yr Awdurdod Addysg a'r Cydbwyllgor AAA a sefydlu timau arbenigol canolog.  Byddai'r atebolrwydd am dimau yn annibynnol oddi wrth ysgolion unigol ond byddai gan yr ysgol ran flaenllaw wrth baratoi'r fframwaith a chydweithio i sicrhau'r atebion mwyaf priodol.



## Opsiwn 3 – Newid Sylweddol

Mae'r opsiwn hwn yn cyflwyno gwasanaeth sydd yn canolbwyntio ar blentyn / unigolyn ifanc gyda chefnogaeth aml-asiantaeth fydd yn sicrhau darpariaeth ddidrafferth drwy drawsnewidiadau allweddol ym mywyd plentyn / unigolyn ifanc yn cynnwys y cyfnodau cyn-ysgol - ysgol, ysgol gynradd - ysgol uwchradd, - ôl 16 (hyd at 25oed arfaethedig).


Bydd gweithredu'r opsiwn yn arwain i sicrhau bod Awdurdod Gwynedd yn rhagweithiol wrth baratoi ar gyfer goblygiadau statudol Deddfwriaeth AY i'r dyfodol ac yn ymateb i ddyheadau rhanddeiliaid ar gyfer sicrhau ffocws ar y plentyn cyflawn a'r teulu.




## Opsiwn 4 – Newid Radical

Roedd syniadau'r rhanddeiliaid o amgylch yr opsiwn hwn yn cynnwys:

- canoli'r gwasanaeth.
- comisiynu'r sector breifat i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth.
- ysgolion penodol i gefnogi (cysylltiedig â chyflwr megis awtistiaeth / cyfathrebu a.y.b.) gyda thimau ymestyn allan hyblyg.
- sefydlu cwmni lled braich warantedig.



5. Beth fydd y rwystr fwyaf i newid yn y gyfundrefn a pha drefniadau sydd gan yr Aelod Cabinet ar gyfer mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny?

Mae'r Bwrdd Prosiect Adolygiad Strategol wedi asesu'r rhwystrau drwy gydol cyfnod datblygu'r opsiynau amlinellol.
Mae nifer o risgiau yn amlygu eu hunain ac maent yn parhau drwy gyfnodau adnabod a gwneud penderfyniadau ar y ffordd ymlaen.

Opsiwn 2/3.
Mae'r brif risg yn ymwneud a natur sgôp y newid gan gynnwys yr angen i sicrhau adnoddau ychwanegol a'r angen i hyrwyddo newid mewn diwylliant yng nghyd-destun deilliannau , perfformiad gwasanaeth a gwedd newid y gweithlu.
Mae lefel y newid rhwng natur y gweithlu presennol a'r gweithlu newydd arfaethedig yn adnabod diffyg balans rhwng darpariaeth generig a darpariaeth arbenigol - ond bydd cyflwyno'r newid angen sicrhau gweledigaeth a chydweithrediad rhanddeiliaid. Unwaith y bydd y newidiadau'n ddealladwy i bawb bydd angen sicrhau cefnogaeth y gweithlu, yr undebau a'r gwleidyddion.
Risg amlwg arall yw'r angen i allu adnabod a recriwtio arbenigwyr. Bydd angen i'r Cyngor gynyddu'r arfer o gydweithio gyda sefydliadau a cholegau addysg uwch ar gyfer sicrhau cyfleoedd ar gyfer adnabod unigolion cymwys a materion recriwtio.
Bydd rhaid rhoi ystyriaeth i'r ffaith y gall lefel ac ansawdd y ddarpariaeth wanhau yn ystod cyfnod y newid . Nid yw hyn yn anghyffredin mewn cyfnod o newid ond bydd angen i'r Cyngor gadw golwg manwl ar y sefyllfa.

6. Gan fod y Cynllun Strategol yn son am gytuno ar fodel newydd o ddarpariaeth yn ystod 2013/14, beth yw'r amserlen fwy manwl ar gyfer cytuno ar y model a'i osod ar waith wedi hynny?

**Cynnydd y prosiect hyd yma**
Adroddiad opsiynau wedi'i gwblhau
Rhaglen ymgysylltu efo Cymorthyddion ac Athrawon wedi digwydd a'r canfyddiadau wedi eu rhannu gyda'r holl rhanddeiliaid gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd.
Wedi cychwyn ar y gwaith o gyd-berthnasu a'r Prosiect 'Dechrau i Ddiwedd'.

Cynhelir sesiwn briffio ar gyfer Aelodau'r Cabinet ar yr 8fed o Hydref.
Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Tachwedd/ Rhagfyr 2013.
Anelir at sicrhau bod (rhai) elfennau addysgol canfyddiadau'r Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn weithredol ar gyfer Medi 2014.
Edrychir ar gyflawni amcanion gwasanaethau integredig aml asiantaethol ar gyfer Medi 2015.

7. Beth yw'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth? Sut fydd llwyddiant yn edrych a sut fydd yn Aelod Cabinet yn mesur effaith y newid i'r ddarpariaeth ac yn medru gweld bod y newid yn y ddarpariaeth yn gwneud gwahaniaeth?

**Y Weledigaeth**

Sicrhau gwasanaethau cyflawn i blant a phobl ifanc bregus Gwynedd a'u teuluoedd.
Cyd-berthnasu a chynlluniau personol integredig.

Sicrhau gwasanaeth a darpariaethau o ansawdd sy'n rhoi gwerth am arian
Ymateb i egwyddorion cytunedig.
Sicrhau person cyswllt ar gyfer gweithio gyda theuluoedd plant a phobl ifanc bregus

**Mesur effaith.**

Cefnogaeth a darpariaeth briodol effeithiol mewn lle ar gyfer unigolion bregus drwy sicrhau ymyrraeth arbenigol a lleihad mewn cyfnodau darparu.
Rhieni yn deall yn llawn natur cyfrifoldebau a rolau ysgolion yn y drefn o ddarparu cefnogaeth.
Lleihad mewn datganiadau ADY.
Rhesymoli gwaraint ar unigolion sy'n derbyn addysg o fewn ysgolion prif lif ar draws y sectorau.